

Adroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent 2024/25



*Blaenau Gwent – lle sy'n deg ac agored ac yn
groesawgar i bawb drwy weithio gyda'n
cymunedau ac ar eu cyfer.*

Fersiynau o'r Ddogfen

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.

Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn unrhyw fformatau eraill e.e. print bras, Braille, fersiwn sain, ac ati, cysylltwch â'r tîm gan ddefnyddio'r manylion isod.



Dyma Adroddiad Hunanasesu llawn y Cyngor ar gyfer 2024/25. Mae Adroddiad Crynodeb Gweithredol ategol i'w weld [yma](#). Ochr yn ochr â hyn, mae ffeithlun wedi'i baratoi sy'n cynnwys data allweddol, yn ogystal â sicrhau bod pob pennod o'r Hunanasesiad llawn ar gael ar-lein i hyrwyddo mynediad rhwydd:

- Rhagair
- Cyflwyniad
- Dewis ein Hamcanion
- Hunanasesiad Blaenau Gwent 2024/25
- Amcan Llesiant 1 - *Cynyddu dysgu a sgiliau i bawb er mwyn creu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a gwydn*
- Amcan Llesiant 2 - *Ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig*
- Amcan Llesiant 3 - *Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a gwydn*
- Amcan Llesiant 4 - *Cyngor uchelgeisiol ac arloesol sy'n darparu gwasanaethau o safon ar yr amser iawn ac yn y lle iawn*
- Heriau Allweddol a Nodwyd ar gyfer Gweithredu 2025/26 a thu hwnt
- Tablau Perfformiad
- Nodweddion Cyngor Rhagorol
- Y Flwyddyn i Ddod a Thu Hwnt

Mae'r Cyngor yn croesawu unrhyw adborth sydd gennych am yr Hunanasesiad 2024/25. Mae eich barn yn bwysig i ni, ac rydym am wybod pa wybodaeth yr hoffech ei gweld a sut yr hoffech ei gweld yn cael ei hadrodd.

Tîm Perfformiad Corfforaethol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Swyddfeydd Cyffredinol

Ffordd y Gwaith Dur

Glynebwy

NP23 6AA

E-bost: pps@blaenau-gwent.gov.uk



Cynnwys

Rhagair	4
Cyflwyniad	5
Dewis Ein Hamcanion	6
Hunanasesiad Blynyddol Blaenau Gwent 2024/25	13
Amcan Llesiant 1 - <i>Cynyddu dysgu a sgiliau i bawb er mwyn creu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a gwydn</i>	16
Amcan Llesiant 2 - <i>Ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig</i>	30
Amcan Llesiant 3 - <i>Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a gwydn</i>	37
Amcan Llesiant 4 - <i>Cyngor uchelgeisiol ac arloesol sy'n darparu gwasanaethau o safon ar yr amser iawn ac yn y lle iawn</i>	55
Ein Blaenoriaethau a'r Heriau ar gyfer 2025/26 a Thu Hwnt	72
Cynnydd yn erbyn ein Nodweddion Cyngor Rhagorol	72
Y Flwyddyn i Ddod a Thu Hwnt	98



Rhagair

Croeso i'n hadroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol ar gyfer 2024/2025. Mae'r adroddiad yn darparu asesiad o ddarpariaeth gwasanaethau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys yr hyn yr ydym wedi'i wneud yn dda ac, yn bwysicach fyth, lle mae angen gwelliannau pellach. Ffocws yr hunanasesiad yw sut yr ydym yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol y Cyngor, a elwir yn Amcanion Llesiant.

Yr adeg hon y llynedd roeddem yn dechrau ystyried cynlluniau arloesol i weithio'n agosach gyda Chyngor Torfaen, trwy Brif Weithredwr a rennir, am 'gyfnod darganfod' cychwynnol o 9 mis. Byddai'r cyfnod archwiliadol hwn yn ystyried y potensial ar gyfer effeithlonrwydd, adnoddau a all weithio ar raddfa fawr, a'r potensial ar gyfer cynyddu arloesi a chreadigrwydd ar draws y ddau awdurdod. Mae llwyddiant y 'cyfnod darganfod' wedi arwain atom yn ymrwmo i drefniadau parhaol gyda Chyngor Torfaen. Yn wyneb galw cynyddol, yn enwedig mewn gofal cymdeithasol, a heriau ariannol cynyddol, gwnaed y penderfyniad, ochr yn ochr â Thorfaen, i ymrwmo i 'fodel ffederal' o ddarparu gwasanaethau. Mae hwn yn ymateb newydd a chyffrous i'r heriau cynaliadwyedd y mae'r sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru yn eu hwynebu.

Mae'r Cyngor yn edrych i leihau'r anghydraddoldeb a brofir o fewn y Fwrdeistref ac i wella llesiant cyffredinol ar draws Blaenau Gwent. Mae ymyrraeth gynnar ac atal, gwella gwydnwch a llesiant unigolion a chymunedau, a mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach iechyd, i gyd yn rhan o strategaeth ariannol tymor canolig a Chynllun Corfforaethol y cyngor. Drwy weithredu Egwyddorion Marmot a dod yn Gyngor Marmot ochr yn ochr â Thorfaen, i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal, mae'n rhoi'r cyfle gorau inni newid i fynd i'r afael â heriau anghydraddoldeb iechyd, gwydnwch a chynaliadwyedd. Drwy gydweithio â Thorfaen, mae ein siawns o lwyddo yn gwella ymhellach. Mae'r dull hwn yn arloesol ac yn dangos ymhellach ein hethos o feddwl am sut i fynd i'r afael â'n heriau mewn ffordd wahanol.

Wrth symud ymlaen i 2025/26 byddwn yn ymdrechu i rymuso ein trigolion ymhellach, gan roi pŵer gwneud penderfyniadau ystyrion i'n cymunedau, gan roi llais gwirioneddol iddynt ar ble mae adnoddau'n cael eu gwario yn eu hardal, gan annog pobl leol i gydweithio fel partneriaid cyfartal wrth gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau'r cyngor. Byddwn yn edrych i ffurfioli ein dull, trwy 'fargen' newydd gyda thrigolion, gan nodi'r hyn y gall pobl ei ddisgwyl gan y Cyngor a sut y gall trigolion wneud eu rhan i'n helpu i gyflawni ein cenadaethau cyffredin.

Rydym yn anelu at ddyfodol heb anghydraddoldeb, lle mae pawb yn ffynnu mewn cymuned deg, gynhwysol a gwydn. I gyflawni hyn, rhaid inni anelu at greu newid parhaol trwy feithrin ymddiriedaeth, meithrin cyfrifoldeb a rennir, a gyrru arloesi trwy gydweithio cryf.

Rydym yn gwerthfawrogi pawb yn ein sefydliad ac, wrth i ni symud ymlaen, mae'n galonogol gwybod y gallwn ddibynnu ar ymroddiad ein holl staff yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid, grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr ac aelodau etholedig i barhau i lunio ein stori lwyddiant.



Y Cynghorydd Stephen Thomas

Arweinydd y Cyngor

Stephen Vickers

Prif Weithredwr ar y Cyd



Cyflwyniad

Mae'r adroddiad Hunanasesu a Llesiant Blynyddol yn darparu asesiad o ddarpariaeth gwasanaethau drwy gydol 2024/25, gan gynnwys yr hyn yr ydym wedi'i wneud yn dda ac, yn bwysicach fyth, lle mae angen gwelliannau pellach.

Mae'r hunanasesiad hwn wedi'i ddatblygu ac mae'n cynnwys y wybodaeth sydd ar gael ar adeg benodol. Mae dull y Cyngor o hunanasesu yn broses adolygu barhaus a llyfn, a bydd yr asesiad yn cael ei ddiweddarau pan fydd mwy o wybodaeth ar gael. Er bod llawer o'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar yr hyn a gyflawnwyd drwy gydol 2024/25, mae hefyd yn gosod y llwyfan ar gyfer newid sefydliadol sylweddol sydd ei angen, hyd at 2027 a thu hwnt.

Mae'r hunanasesiad wedi'i ysgrifennu i ystyried:

- **Pa mor dda ydyn ni'n gwneud? Naratif o'r gweithgaredd sydd wedi digwydd**
- **Sut ydyn ni'n gwybod? Darparu tystiolaeth ansoddol a meintiol; a**
- **Beth a sut allwn ni ei wneud yn well? Camau gweithredu i'w rhoi ar waith dros y blynyddoedd nesaf**

Fel pob corff cyhoeddus ar draws Cymru, mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â rhai dyletswyddau statudol. Mae'r Adroddiad Hunanasesu a Llesiant hwn yn cyfuno ein gofynion adrodd statudol a'n dyletswyddau cyhoeddi statudol, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021. Mae'r ddwy Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol:

- Cyhoeddi adroddiad blynyddol i adrodd ar ein cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Llesiant (Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015); a
- Cyhoeddi Adroddiad Hunanasesu blynyddol (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021), sy'n nodi i ba raddau yr ydym yn bodloni ein gofynion perfformiad.

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021

Dyma ein pedwerydd adroddiad, o dan ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 ac wrth wraidd y drefn berfformiad newydd hon, mae'r gofyniad i bob cyngor adolygu eu trefniadau perfformiad yn gyson. Mae angen i gynghorau wneud hyn drwy hunanasesiad cadarn a pharhaus o'u canfyddiadau, yr adroddir arnynt drwy'r adroddiad blynyddol hwn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Deddf LCD) yn rhoi saith nod llesiant blaenoriaethol mewn cyfraith y mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus weithio tuag atynt. Mae'n manylu ar y ffordd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio a chydweithio gyda'i gilydd i wella llesiant Cymru.

Wrth weithio tuag at y nodau hyn, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.



Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut yr ydym wedi cysylltu ein hamcanion blaenoriaethol allweddol â'r Ddeddf hon a'n hymrwymiad iddi.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut rydym wedi cysylltu ein meysydd amcanion llesiant blaenoriaeth allweddol â'r Ddeddf hon a'n hymrwymiad tuag ati.

Dewis Ein Hamcanion

Rydym wedi ymrwymo i wneud Blaenau Gwent yn fwy cyfartal a chynaliadwy drwy gyflawni ein Cynllun Corfforaethol. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn gweithredu fel cynllun busnes y Cyngor ac yn nodi'r weledigaeth, y gwerthoedd a'r blaenoriaethau ar gyfer 2022/27. Mae'n amlinellu nid yn unig yr hyn y gall pobl Blaenau Gwent ei ddisgwyl gan y Cyngor ond yn yr un modd, yr hyn y mae'r Cyngor yn ei ofyn gan ei ddinasyddion a'i bartneriaid. Rydym am gefnogi trigolion i ddod yn fwy annibynnol er mwyn lleihau'r galw. Bydd gweithio yn y ffordd hon yn sicrhau ein bod yn cael y gorau o'n hadnoddau cyfyngedig; drwy ganolbwyntio ar y genhadaeth hon, byddwn yn sicrhau gwerth am arian ac yn gwella bywydau pobl wrth leihau costau ar yr un pryd.

Mae'r berthynas gadarnhaol gref hon yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r un problemau er mwyn creu cymunedau iachach, hapusach a mwy annibynnol a fydd yn creu Blaenau Gwent gynaliadwy a llewyrchus. Mae cymunedau gwydn wrth wraidd y cyngor gan fod yn fwy cynaliadwy a byddant yn arwain at ein galluogi i wario'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i ni yn fwy effeithlon, gan fod angen gwario llai o arian ar y gwasanaethau Cyngor hynny sy'n costio'r mwyaf o arian.

Rydym yn parhau i fwrw ymlaen â'n dyheadau ym mhopeth a wnawn, a thros y 12 mis diwethaf, mae nifer o ddarnau allweddol o waith sylfaenol wedi'u gwneud wrth i ni weithio tuag at gyflawni ein Cynllun Corfforaethol a dod yn Gyngor mwy cynaliadwy a gwydn. Mae rhai o'r meysydd hyn wedi'u hamlygu isod ond cyfeirir atynt yn aml drwy gydol yr adroddiad.

Dull Ffederal

Daeth Cyngor Blaenau Gwent i gytundeb cydweithio arloesol gyda Chyngor Torfaen yn ystod 2024/25, gyda swydd Prif Weithredwr ar y Cyd cyntaf yng Nghymru. Cytunwyd ar 'gyfnod darganfod' cychwynnol ym mis Mehefin 2024, i ddechrau archwilio'r potensial ar gyfer effeithlonrwydd ac ar gyfer cynyddu arloesi a chreadigrwydd ar draws y ddau awdurdod.


Mae'r ddau gyngor yn mabwysiadu dull blaengar i fynd i'r afael â heriau cyfredol ac ymdrin â gofynion y dyfodol. Cydnabyddir bod llywodraeth leol yn ei ffurf bresennol yn wynebu dyfodol ansicr ac anghynaliadwy, felly mae'r Aelodau Etholedig a'r Swyddogion ar draws y ddau gyngor yn cymryd safbwynt rhagweithiol wrth ddod o hyd i atebion newydd sy'n mynd y tu hwnt i'r dull 'toriadau tameidiog' arferol. Mae hyn wedi arwain at ystyriaeth agored i alinio'r cynghorau i greu sylfaen gref, strategol ar gyfer y newid sydd ei angen. Ym mis Ionawr 2025 cytunodd y ddau Gyngor i wneud y trefniadau hyn yn barhaol.

Strwythur Corfforaethol

Am nifer o flynyddoedd, bu Cyngor Blaenau Gwent yn gweithredu gyda strwythur uwch reolwyr dros dro. Cydnabwyd nad oedd hyn yn gynaliadwy ac nad oedd yn ffafriol i symud y sefydliad ymlaen. Gwnaeth y cytundeb ym mis Ionawr 2025 i weithio gyda Phrif Weithredwr ar y Cyd baratoi'r ffordd ar gyfer gwneud y strwythur sefydliadol yn fwy sefydlog a chynhyrchiol.

Mae strwythur corfforaethol Cyngor Blaenau Gwent yn gweld nifer o swyddi ar waith (yn gweithio o fewn Blaenau Gwent yn unig a ddangosir mewn gwyrdd) a swyddi ar y cyd (yn gweithio ar draws Cyngor Blaenau Gwent a Thorfaen a ddangosir mewn glas) sydd bellach ar waith:





Cynllun Meistr Marmot a'r Dull Cymunedau

Yn dilyn ymrwymiad Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) Gwent i ddod yn rhanbarth Marmot, a dull Cyngor Torfaen o ddod yn Gyngor Marmot, mae Blaenau Gwent hefyd wedi ymgymryd â'r dasg hon ac mae'n ail-lunio model gweithredu'r Cyngor yn systematig. Mae 'Dull Cymunedau' yn cael ei gynllunio i sicrhau nad ydym yn unig yn dweud y pethau iawn ac yn gwneud mwy o'r un peth ond ein bod yn cyflawni newid gwirioneddol pendant.

Fel rhan o'r broses hon, mae'r Cyngor wedi gweithio i ddatblygu Cynllun Meistr Marmot gan weithio ochr yn ochr â Chyngor Torfaen. Mae'r 'Cynllun Meistr' yn rhaglen waith uchelgeisiol a fydd yn cael ei gweithredu a'i fesur yn y tymor byr (diwedd y flwyddyn), canolig (diwedd tymor y Cyngor yn 2027) a hir (diwedd y Cynllun Meistr yn 2030). Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio i alinio ei holl fonitro, trwy'r dull cynllunio busnes, â'r Cynllun Meistr.

Yn gyffredin â rhanbarthau eraill Gwent, mae'n ffaith anffodus bod cymunedau ym Mlaenau Gwent yn wynebu rhai o'r anghydraddoldebau iechyd gwaethaf yng Nghymru. Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cenedlaethau ar draws y sir yn gofyn ein bod yn cymryd persbectif tymor hwy. Mae bod yn Gyngor Marmot yn cynnig cyfle inni ganolbwyntio, ac i ddefnyddio ein hadnoddau a'n dylanwad eang i fynd i'r afael â ffynonellau anghydraddoldeb.

Mae'r dull hwn wedi ein galluogi i weithio gyda Chyngor Torfaen i ddatblygu Cynllun Meistr. Mae'r Cynllun Meistr hwn yn adeiladu ar ein Cynllun Corfforaethol presennol ac yn ei gydbblethu. Mae'n cydnabod yr angen i gynllunio dros gyfnod hirach o amser, gan wybod y bydd y gwaith hwn yn mynd â ni ymhell y tu hwnt i'r Cynllun Corfforaethol presennol ar gyfer 2027. Mae ein Cynllun Corfforaethol yn parhau i fod yn weithredol ac yn berthnasol, gan gynrychioli'r 5 mlynedd gyntaf o'n taith tuag at ein dyhead tymor hwy i leihau anghydraddoldeb ym Mlaenau Gwent. Ar ben hynny, mae ein Cynllun Meistr yn dangos ein bod o ddifrif ynglŷn â'n rôl a'n hymrwymiad i fabwysiadu egwyddorion bod yn Gyngor Marmot, dros genedlaethau'r dyfodol.

Mae gan y Cyngor Gynllun Cyflawni Blyneddol Cynllun Corfforaethol ar waith yn ogystal â chynlluniau busnes lefel gwasanaeth ategol. Mae gweithredu'r rhain yn cefnogi cyfraniad at ymdrech llawer mwy hirdymor. Nid yw gweithgaredd wedi'i gysylltu ag un flwyddyn ond mae'n ein cefnogi yn ein taith a'n dyheadau ar gyfer y dyfodol. Ar ben hynny, mae'r dyheadau hyn yn mynd ymhell y tu hwnt i ddiwedd ein Cynllun Corfforaethol presennol yn 2027 ac maent yn rhan o daith fwy hirdymor, wrth i ni anelu at ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.



Datblygiad Cynllun Meistr Marmot yn y Dyfodol

Bydd y mesurau a restrir yn ein Cynllun Meistr yn parhau i gael eu mireinio a'u gwella dros amser wrth i setiau data newydd ddod ar gael neu gael eu datblygu'n fewnol. Wrth wneud hynny, byddwn yn sicrhau bod y cynllun bob amser yn cael ei gefnogi gyda'r data gorau posibl i ddangos effeithiau ein gweithredoedd, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r argymhellion a wnaed yn adroddiad 'Creu Gwent Decach'.

Yn bwysig, dim ond rhan fach o'r gwaith y mae'n rhaid i ni ei wneud i ddod yn gyngor Marmot yw mabwysiadu egwyddorion Marmot a datblygu'r canlyniadau a'r mesurau. Er mwyn i Flaenau Gwent a'n partneriaid gael unrhyw effaith ystyrlon ar benderfyniadau ehangach iechyd, rhaid i'r dull dreiddio i bob rhan o'r sefydliad a rhedeg ymhell y tu hwnt i adrodd yn erbyn rhestr o fesurau canlyniad.

Drwy ein prosesau cynllunio, rydym felly'n cwestiynu sut rydym yn gwneud pethau, gan addasu yn ôl yr angen i sicrhau ein bod yn sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar ffynonellau anghydraddoldeb ac annhegwch ym Mlaenau Gwent. Rydym o ddifrif ynglŷn â'n rôl a'n hymrwymiad i fabwysiadu egwyddorion bod yn Gyngor Marmot, ond rhaid i hyn gyd-fynd â'n gweithredoedd. Felly, bydd adolygu'r hyn a wnawn a sut rydym yn mesur effaith dan adolygiad cyson yn y blynyddoedd i ddod, wrth i ni ddatblygu mecanweithiau cyflawni cryfach i gyrraedd ein canlyniadau.

Heb wneud hynny, ni fyddwn byth yn gallu mynd i'r afael â phenderfyniadau cymdeithasol iechyd, a fydd, i drigolion Blaenau Gwent, yn anochel yn golygu eu bod yn llawer llai tebygol o gyrraedd eu potensial llawn ac yn llawer mwy tebygol yn y dyfodol o fod yn dderbynnu ymyrraeth gan y Cyngor neu wasanaeth cyhoeddus ehangach.

Nodweddion Cyngor Rhagorol

Gan ddilyn y dull a gymerwyd yn Nhorfaen, mae Blaenau Gwent wedi datblygu a mabwysiadu ymhellach nodweddion dod yn Gyngor rhagorol.

Fel sefydliad, mae'n bwysig nid yn unig adolygu'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'n trigolion a'n busnesau, a'r effaith y maent yn ei chael, ond rhaid inni hefyd sicrhau bod ein prosesau a'n systemau mewnol ein hunain yn gweithio'n dda, gan sicrhau ein bod yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, gyda rheolaethau, systemau a phrosesau cadarn yn cefnogi pob agwedd ar weithgaredd y Cyngor.

Lle mae ein Cynllun Corfforaethol yn canolbwyntio ar y gwelliannau y byddwn yn eu cyflawni ar gyfer y bobl sy'n byw ac yn gweithio ym Mlaenau Gwent, mae ein fframwaith ar gyfer Cyngor Rhagorol yn nodi sut y byddwn yn dod yn sefydliad mwy effeithlon ac effeithiol, sydd wedi'i gyfarparu'n well i gyflawni dyheadau ein Cynllun Corfforaethol. Yn yr un modd ag yr ydym yn ei wneud ar gyfer y Cynllun Corfforaethol; byddwn yn monitro'r camau gweithredu allweddol yr ydym yn credu a fydd yn ein harwain ymlaen i ddod yn Gyngor rhagorol.

Eleni fydd y tro cyntaf i'r Cyngor adrodd yn erbyn Nodweddion Cyngor Rhagorol. Gellir dod o hyd i'r manylion hyn ar dudalennau 63 i 83.

Datblygwyd y fframwaith ar gyfer Cyngor Rhagorol gan ystyried yr hyn sy'n bwysig i'r Cyngor ei gyflawni, yn ogystal â chofleidio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 drwy roi ystyriaeth i'r egwyddor cynaliadwyedd, a'r 7 maes llywodraethu corfforaethol a ddiffiniwyd. Bydd y nodweddion hyn, ynghyd â'n gwerthoedd sefydliadol, yn ein helpu i greu'r amodau cywir i gymhwyso'r 5 ffordd o weithio mewn ffordd gyson ac ystyrlon.

Mae diffiniad diffiniedig yn cefnogi pob nodwedd i'n cynorthwyo i'w cyflawni, eu monitro a'u gwerthuso. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i fod ynghylch y meysydd y

yn glir
mae'r



Cyngor yn edrych i'w gwella wrth geisio bod yn gyngor rhagorol.

Ein Cynllun Corfforaethol 2022/27

Mabwysiadwyd ein Cynllun Corfforaethol gan y Cyngor ym mis Hydref 2022 a bydd ar waith am gyfnod gweinyddiaeth bresennol y Cyngor, hyd at 2027. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi rhaglen uchelgeisiol o weithgaredd ar gyfer y Cyngor er mwyn cefnogi cymunedau i ffynnu. Y Cynllun Corfforaethol yw ymrwymiad y Cyngor i gymunedau Blaenau Gwent, i ddarparu gwasanaethau modern ac o ansawdd uchel sy'n cefnogi twf economaidd a lles.

Er bod ein dull o ymdrin â chymunedau, Marmot, a'r model ffederal wedi'u rhoi ar waith ers hynny, nid ydynt yn newid ein Cynllun Corfforaethol, dim ond yn cryfhau ein gallu i'w gyflawni.

Mae'r Cynllun yn amlinellu pedwar blaenoriaeth lefel uchel, a elwir hefyd yn Amcanion Llesiant, ac mae pob un ohonynt wedi'u hategu gan gynlluniau busnes cadarn a chynaliadwy, sy'n disgrifio'r gweithgaredd i'w wneud gan bob maes gwasanaeth o'r Cyngor, gan sicrhau y gellir dwyn y Cyngor i gyfrif am yr hyn y mae wedi addo ei gyflawni. Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol 2022/27 yw:

- **Cynyddu dysgu a sgiliau i bawb er mwyn creu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a gwydn**
- **Ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig**
- **Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a gwydn; a**
- **Cyngor uchelgeisiol ac arloesol sy'n darparu gwasanaethau o safon ar yr amser iawn ac yn y lle iawn**

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i bobl Blaenau Gwent i helpu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal. Drwy osod nifer fach o flaenoriaethau strategol o fewn y Cynllun Corfforaethol, bydd yn caniatáu i ymdrechion ganolbwyntio ar gyflawni yn y meysydd hyn ac yn y pen draw, yn helpu i wella ansawdd bywydau trigolion.

Datblygwyd yr Amcanion gan ddefnyddio ymchwil helaeth a dealltwriaeth o anghenion y gymuned leol yn dilyn amrywiol weithgareddau ymgysylltu. Oherwydd amseriad datblygu Cynllun Llesiant Gwent a datblygu Cynllun Corfforaethol y Cyngor, defnyddiwyd tystiolaeth o'r Asesiad Anghenion Llesiant ac ymgynghoriad cyhoeddus fel tystiolaeth ar gyfer y Cynllun Corfforaethol. Daeth y prif feysydd blaenoriaeth i'r amlwg fel:

- Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli o fewn ein cymunedau – mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol - Cynyddu dysgu a sgiliau i bawb er mwyn creu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a gwydn, yn ogystal â'r gwaith wedi'i dargedu sy'n cael ei wneud gan weithgor Costau Byw'r Cyngor
- Creu cymunedau diogel – mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol - Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a gwydn
- Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol - mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaeth y Cynllun Corfforaethol - Ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig; ac
- Er mwyn gweithio tuag at gyflawni'r blaenoriaethau, mae angen i'r Cyngor allu gwneud hyn yn effeithiol ac o fewn adnoddau, felly, mae pedwaredd blaenoriaeth wedi'i datblygu'n benodol ar gyfer y Cyngor - Cyngor uchelgeisiol ac arloesol sy'n darparu gwasanaethau o safon ar yr amser iawn ac yn y lle iawn

Mae fersiwn lawn o'n Cynllun Corfforaethol ar gael i'w lawrlwytho yma corporate-plan-2022-2027.pdf (blaenau-gwent.gov.uk)

Yn eistedd o fewn ein Cynllun Corfforaethol mae ein Datganiad Llesiant statudol sy'n esbonio'n fanylach sut y deilliodd ein hamcanion a sut y byddant yn cyfrannu at 7 nod llesiant cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.


Llesiant hefyd yn gweithredu fel gyrrwr

Mae ein datganiad



allweddol ar gyfer gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Blaenau Gwent trwy geisio sicrhau 'bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.

Yn ogystal â'n Cynllun Corfforaethol, mae yna ystod o ddogfennau allweddol eraill sy'n darparu cyfeiriad a gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol, yn seiliedig ar anghenion a dyheadau'r cymunedau lleol. Mae'r rhain yn cydfynd ag amcanion ein Cynllun Corfforaethol a'n gweledigaeth sefydliadol i sicrhau y gallwn ddarparu gwasanaethau a gwneud gwelliannau.



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwent yn bartneriaeth statudol sy'n dwyn ynghyd wasanaethau cyhoeddus o bob cwr o Went i wella llesiant, nawr ac yn y tymor hir. Mae'n ofynnol i Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus asesu llesiant yr ardal y maent yn ei chwmpasu a llunio cynlluniau llesiant ar gylch pum mlynedd. Gellir gweld aelodaeth BGC Gwent [yma](#).

Mabwysiadodd BGC Gwent ei [Gynllun Llesiant](#) cyntaf ym mis Gorffennaf 2023, gan nodi sut y bydd gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i ymateb i rai o heriau llesiant allweddol Gwent. Mae'r cynllun yn rhedeg o 2023-25 ac yn nodi dau amcan llesiant cydgysylltiedig a phum cam sylfaenol i'w cyflawni dros gyfnod cyflawni o bum mlynedd. Amcanion Llesiant BGC Gwent yw:

1. Rydym am greu Gwent mwy teg, mwy cyfiawn a chynhwysol i bawb.
2. Rydym am weld Gwent sy'n barod ar gyfer yr hinsawdd, lle mae ein hamgylchedd yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu, gan fod o fudd i'n lles nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.


Pum cam allweddol:

1. Gweithredu i leihau'r argyfwng costau byw yn y tymor hwy.
2. Darparu a galluogi cyflenwi cartrefi o ansawdd da, fforddiadwy, priodol.
3. Cymryd camau i leihau ein hallyriadau carbon, helpu Gwent i addasu i newid hinsawdd, a diogelu ac adfer ein hamgylchedd naturiol.



4. Galluogi a chefnogi pobl, cymdogaethau, a chymunedau i fod yn wydn, wedi'u cysylltu, yn ffyniannus ac yn ddiogel.
5. Gweithredu i fynd i'r afael ag annhegwch, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd, trwy fframwaith Egwyddorion Marmot.

Er mwyn cefnogi'r BGC i fynd i'r afael â'r lefelau uchel o anghydraddoldeb ar draws Gwent, mae wedi dechrau gweithio gyda'r Institute of Health Equity, gan ddefnyddio egwyddorion arweiniol a nodwyd yn adolygiad yr Athro Marmot, *Fair Society, Healthy Lives*, er mwyn cyflawni mwy o degwch iechyd. Ers yr adolygiad gwreiddiol, mae dwy egwyddor arall wedi'u nodi, fel rhai pwysig i wella iechyd. Wyth Egwyddor Marmot:



Mae Cynllun Cyflawni BGC rhanbarthol Gwent 2024-28 wedi'i ganoli o amgylch pedwar Maes Ffocws ar gyfer llesiant fel y cytunwyd gan y BGC ym mis Rhagfyr 2023, gyda'r nod o fynd i'r afael â rhai o'r argymhellion o'r adroddiad [Creu Gwent Decach: Gwella Tegwch Iechyd a'r Penderfynyddion Cymdeithasol](#) drwy'r cynllun cyflawni llesiant rhanbarthol:

- Mae gan bawb y Cychwyn Gorau mewn Bywyd
- Mae gan bawb yr un Cyfleoedd Economaidd
- Mae pawb yn byw mewn Lle maen nhw'n teimlo'n Ddiogel; a
- Mae pawb yn byw mewn Cymunedau sy'n Barod ar gyfer yr Hinsawdd lle mae ein Hamgylchedd yn cael ei Werthfawrogi a'i Warchod

Partneriaeth Llesiant Lleol (PLILL) Blaenau Gwent yw Grŵp Cyflawni Lleol BGC Gwent. Mae'r Bartneriaeth wedi nodi blaenoriaethau llesiant lleol sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Llesiant rhanbarthol trwy ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Dyma rai meysydd ffocws a blaenoriaethau allweddol sydd wedi dod i'r amlwg yn glir o weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid, a fabwysiadwyd gan y PLILL ym mis Mehefin 2024:



Teithio a Chludiant	Bwyd	Lleihau Anghydraddoldebau	Hinsawdd a Natur
- Teithio Llesol - Cludiant Cymunedol - Defnyddio cludiant cynaliadwy ac allyriadau isel	- Ansicrwydd Bwyd a mynediad at fwyd fforddiadwy - Mynediad at fwyd iach - Tyfu bwyd lleol - Datblygu'r Economi Fwyd leol a Mentrau Bwyd Cymunedol	- Mynd i'r Afael â Thlodi a Chostau Byw - Gwasanaethau, cefnogaeth a chyfeirio i Bobl Hŷn - Mynd i'r Afael ag Unigrwydd ac Ynysigrwydd Cymdeithasol - Gwirfoddoli a rhwydwaith lleol o grwpiau cymunedol	- Mynediad i Dir a Mannau Gwyrdd Lleol - Colli Natur a Bioamrywiaeth, codi ymwybyddiaeth a gwneud y gorau o'n hamgylchedd naturiol - Cyfranogiad lleol mewn rhaglenni hinsawdd rhanbarthol

Nododd y PLIL y dylai'r Cynllun Cyflawni rhanbarthol fod yn seiliedig ar ddata a chanlyniadau, gan roi cyfle i'r Grŵp Cyflawni Lleol ganolbwyntio ar yr hyn y maent yn gobeithio ei gyflawni'n lleol er budd eu cymunedau a dilyn dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wneud effaith ystyrlon a pharhaol.

Am ragor o wybodaeth gweler yr adroddiad diweddar i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau ym mis Ebrill 2025:


<https://democracy.blaenau-gwent.gov.uk/documents/s17298/Report.pdf?LLL=0>

Gweledigaeth a Gwerthoedd y Cyngor

Mae ethos ein Tîm Gweithredol wedi'i ailgyflunio yn rhoi pwyslais cryf ar gyfrifoldeb ar y cyd a chefnogaeth gydfuddiannol i gyflawni nodau cyffredin, wrth weithio tuag at ein Hamcanion Llesiant. Gweledigaeth y Cyngor yw:

'Blaenau Gwent – lle sy'n deg, yn agored ac yn groesawgar i bawb drwy weithio gyda'n cymunedau ac ar eu cyfer'

Gwerthoedd craidd ein cyngor yw – bod yn:



Mae ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd yn adlewyrchu pwy ydym ni fel Cyngor, sut rydym yn gwneud pethau, a sut rydym yn llunio'r dyfodol drwy sicrhau bod y rhain yn berthnasol i bopeth a wnawn. Mae ein gwerthoedd yn chwarae rhan hanfodol yn niwylliant ein sefydliad.

Dim ond trwy'r ymddygiadau a ddangoswn y bydd ein gwerthoedd yn cael eu gwireddu. Mae hyn yn cynnwys sut rydym yn gwneud pethau; sut rydym yn trin eraill; yr hyn a ddywedwn a sut rydym yn ei ddweud.



Bydd y newidiadau rydym yn parhau i'w gwneud i'n sefydliad yn rhoi ein gweledigaeth a'n gwerthoedd yn ogystal â chynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn, o ran yr hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni, ond hefyd yn y ffordd y byddwn yn gweithio tuag at ein hamcanion.

Hunanasesiad Blynyddol Blaenau Gwent 2024/25

Mae Cyngor Blaenau Gwent yn ceisio gweithredu fel sefydliad sy'n hunan-wella, lle mae cydnabyddiaeth o'r hyn sydd wedi mynd yn dda, ond, ac yn bwysicaf oll, mae'n cydnabod lle mae gwelliannau i'w gwneud.

Mae hunanasesiad gonest ac agored yn hanfodol i wireddu ein huchelgais.

Mae'r Cyngor yn gweithio i ymateb i'r cwestiynau canlynol yn yr holl waith y mae'n ei wneud:

- **A yw'r Cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol?**
- **A yw'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol?**
- **A yw trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn effeithiol ar gyfer sicrhau gwelliant parhaus?**

Mae ein Hunanasesiad yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed drwy gydol 2023/24 ac fe'i hysgrifennwyd i ystyried:

- **Pa mor dda ydyn ni'n gwneud? Naratif o'r gweithgaredd sydd wedi digwydd**
- **Sut rydyn ni'n gwybod? Tystiolaeth ansoddol a meintiol a ddarparwyd; a**
- **Beth a sut allwn ni ei wneud yn well? Camau gweithredu i'w rhoi ar waith dros y blynyddoedd nesaf**

Mae ein hadroddiad hunanasesu yn gasgliad o'r holl waith hunanasesu a wnaed dros y flwyddyn flaenorol. Mae ein hadroddiad wedi bod trwy broses drylwyr i sicrhau ei fod wedi'i lywio gan ystod eang o dystiolaeth a bod y casgliadau sy'n cael eu tynnu yn rhai cywir.

Ffocws yr Hunanasesiad Blynyddol yw blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol Cyngor Blaenau Gwent, a elwir yn Amcanion Llesiant, a darparu asesiad o ba mor dda y mae'r Cyngor yn teimlo ei fod wedi cyflawni yn erbyn y rhain yn ystod 2024/25 a'r heriau i'w symud ymlaen. Rydym hefyd wedi darparu adolygiad o'n blwyddyn gyntaf o weithio tuag at ddod yn Gyngor rhagorol.

Y Cynllun Corfforaethol – Cynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25 Adrodd yn erbyn ein Hamcanion Llesiant

Mae Cynllun Corfforaethol 2022/27 yn ymrwmo'r Cyngor i 4 uchelgais lefel uchel yr ydym yn gweithio i'w cyflawni dros oes y Cynllun. Caiff yr uchelgeisiau hyn eu hadolygu'n rheolaidd ac wrth i gynlluniau a phrosiectau gael eu datblygu, maent yn rhan o gynllun cyflawni blynyddol bob blwyddyn - gan symud ein huchelgais ar waith. Mae'r dull hwn yn arbennig o bwysig fel y gall y cynllun fod yn ailadroddus ac yn ystwyth ac fel y gellir ymateb i fentrau, heriau a chyfleoedd newydd, drwy gydol oes y cynllun.

Mae ein Cynllun Cyflawni Blynyddol yn tynnu sylw at y gweithgareddau allweddol a gynlluniwyd gennym ar gyfer 2024/25, wrth gyflawni ein huchelgeisiau, fel y'u nodir yn ein Cynllun Corfforaethol, ac wedi'u halinio â'r meysydd i'w gwella o Hunanasesiad y llynedd. Nodir trosolwg o gynnydd yn erbyn pob amcan isod:



Blaenoriaethau Cynllun Corfforaethol 2024/25				
	Glas (gweithredu wedi'i gwblhau)	Gwyrdd (gweithredu (ar darged)	Ambr (gweithredu oddi ar y targed gyda llwybr yn ôl i wyrdd)	Coch (gweithredu oddi ar y targed pryderon sylweddol)
Cynyddu dysgu a sgiliau i bawb er mwyn creu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a gwydn	2	18	3	2
Ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig	0	3	5	0
Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a gwydn	1	7	5	0
Cyngor uchelgeisiol ac arloesol sy'n darparu gwasanaethau o safon ar yr amser iawn ac yn y lle iawn	2	8	3	1
Cyfanswm	5	36	16	3



O dan bob Amcan Llesiant mae cynllun cyflawni blynyddol a gefnogir gan gynlluniau busnes gweithredol. Ar y cyfan, ar gyfer 2024/25, mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu, sy'n cyfrannu at yr Amcanion Llesiant, wedi'u cyflawni, fodd bynnag, rydym yn cydnabod yn llawn bod gennym nifer o heriau i'w datrys o hyd a bod gwaith pellach i'w wneud i gyflawni pob un o'n hamcanion hirdymor yn llawn. Dyma'r dadansoddiad:

- Wedi'i Gwblhau (Glas) – 8%
- Ar Darged (Gwyrdd) – 60%
- Y Tu Ôl i'r Targed ond gyda chynllun i fynd yn ôl ar y trywydd iawn (Ambr) – 27%
- Y Tu Ôl i'r Targed gyda phryderon sylweddol (Coch) – 5%

Derbyniodd y Cyngor adroddiad llawn yn nodi'n fanylach y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'n Hamcanion Llesiant ym mis Gorffennaf 2025 ac mae ar gael [yma](#). Mae'r adran ganlynol o'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ein cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf, yn erbyn detholiad o weithgareddau allweddol, o dan bob un o'n 4 Amcan Llesiant Cynllun Corfforaethol.




Amcan Llesiant 1

Cynyddu dysgu a sgiliau i bawb er mwyn creu Blaenau Gwent lewyrchus, ffyniannus a gwydn

Pam Mae Hyn yn Bwysig fel Maes Ffocws - Mae gwella ansawdd a darpariaeth addysgu a dysgu yn hanfodol bwysig er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflawni canlyniadau uchelgeisiol i bawb. Bydd y Cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau er mwyn cefnogi datblygiad economaidd ac adfywio er mwyn darparu cyfleoedd i bobl a busnesau lleol.

Yr Hyn yr Ydym yn Anelu at ei Gyflawni – Cynnydd yng ngwydnwch y gymuned, gan ddarparu cyfleoedd addysgol a sgiliau o ansawdd uchel i greu economi ffyniannus o enedigaeth ymlaen, gan leihau dibyniaeth a chynyddu annibyniaeth i'r eithaf. Nod yr awdurdod yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, gan eu galluogi i dyfu i fod yn oedolion ffrwythlon sy'n byw bywyd iach a boddhaus wrth gyfrannu at gymdeithas a ffurfio rhan werthfawr o'u cymuned.




Pa mor dda ydyn ni'n gwneud?

Mae'r naratif canlynol yn rhoi myfyrdod gwerthusol o'r gweithgaredd, a gynhaliwyd drwy gydol 2024/25, ar draws meysydd gwasanaeth sy'n cefnogi'r Amcan Llesiant hwn yn uniongyrchol. Mae'r naratif yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi mynd yn dda ond hefyd, ac yn bwysicach fyth, ble rydym yn profi heriau. Yna mae'r heriau hyn wedi'u casglu at ei gilydd ar ddiwedd pob adran. Bydd y meysydd hyn yn cael eu nodi fel meysydd ffocws wrth symud ymlaen a byddant yn cael eu hadrodd fel rhan o'n Hunanasesiad nesaf, yn ogystal â monitro perfformiad drwy gydol y flwyddyn.





Codi cyrhaeddiad yn ein hysgolion

Yn 2024, gostyngodd pob dangosydd arholiad Cyfnod Allweddol 4 o'i gymharu â 2023, fel y gwnaeth ar draws Cymru. Roedd perfformiad, i raddau helaeth, yn unol ag amcangyfrifon modelu Llywodraeth Cymru. Roedd perfformiad y rhan fwyaf o ysgolion yn y sgôr Pwyntiau wedi'u Capiu, y mesur Llythrennedd a'r Her Sgiliau, yn uwch na chyfartaledd y teulu, gyda hanner yr ysgolion yn ei ragori yn y mesurau Rhifedd a Gwyddoniaeth. Fodd bynnag, ni pherfformiodd unrhyw ysgol uwchlaw cyfartaledd y teulu mewn perthynas â'r mesur 5A*-A. Dangosir rhai enghreifftiau isod:



(Noder: roedd y dirywiad sylweddol yn y mesur Tystysgrif Her Sgiliau oherwydd nad oedd 1 Ysgol Uwchradd wedi cofrestru unrhyw ddisgyblion ar gyfer y cymhwyster ac roedd yn rhaid defnyddio nifer y garfan yn y cyfrifiad o hyd)

Cynyddu Presenoldeb Disgyblion



Yn flynyddol, mae presenoldeb yn yr ysgol yn dangos cynnydd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae ffigurau presenoldeb ym Mlaenau Gwent yn adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol. Gostyngodd achosion o waharddiadau cyfnod penodol a nifer y dyddiau a gollwyd yn ystod y flwyddyn mewn ysgolion uwchradd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn groes i hynny ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) lle cynyddodd nifer y digwyddiadau a'r dyddiau a gollwyd. Y prif reswm pam mae gwaharddiadau'n cael eu cyhoeddi o hyd yw ymddygiad aflonyddgar parhaus, yn enwedig o ran disgyblion oedran uwchradd. Cyhoeddodd 15 o ysgolion cynradd waharddiadau eleni o'i gymharu â 17 o ysgolion ar gyfer yr un cyfnod y llynedd, ond er gwaethaf hyn, mae nifer y gwaharddiadau a'r dyddiau a gollwyd wedi parhau i gynyddu. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion hynny i gefnogi ymyrraeth gynnar i leihau gwaharddiadau ymhellach.

Dadansoddi data	Nifer y Gwaharddiadau (cynyddu/gostwng)	Cyfanswm Diwrnodau'r Gwaharddiadau (cynyddu/gostwng)	Gwaharddiadau Parhaol (cynyddu/gostwng)
Uwchradd	625 (-243)	769 (-280)	8 (+3)
Cynradd	220 (+45)	291 (+25.5)	2 (-1)
Ysgolion Arbennig	79 (+56)	113 (+57.5)	0
Cynyddu/Gostwng (-)	-142	-197	2

Mae cynnydd wedi bod yn nifer y gwaharddiadau a'r dyddiau a gollwyd yn y ddwy Ysgol Arbennig, er bod y rhan fwyaf o'r gwaharddiadau'n ymwneud ag un ysgol. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn gweithio gyda'r ysgol i edrych ar gefnogaeth y gellir ei darparu i fynd i'r afael â'r rhesymau dros waharddiadau. Y 3 phrif reswm dros waharddiadau ar draws pob lleoliad yw:

- ymddygiad aflonyddgar parhaus (287)
- cam-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn (179); ac
- ymosodiad corfforol yn erbyn disgybl (153)

Nodyn - Wrth ddadansoddi data gwaharddiadau, gall gynnwys dysgwyr sydd wedi'u gwahardd fwy nag unwaith.

Mae gweithio gyda'n hysgolion a'n cymunedau i wella presenoldeb yn flaenoriaeth graidd i'r Gyfarwyddiaeth Addysg. Mae'r Cyngor yn cynnal ymgyrch cyfryngau eleni #maepobdiwrnodyncyfrif i dynnu sylw at bwysigrwydd presenoldeb da ac i gyfeirio teuluoedd at gefnogaeth.



Cyflwynodd y Cyngor lwybr presenoldeb ym mis Medi 2023 ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion sydd wedi gweithredu pob agwedd ar y llwybr wedi gweld cynnydd yn eu cyfraddau presenoldeb. Bydd y Tîm Lles Addysg yn parhau i gefnogi pob ysgol i ddefnyddio'r Llwyr Presenoldeb y flwyddyn academaidd hon. Bydd y Tîm Lles Addysg hefyd yn parhau i weithio'n agos gydag ysgolion eleni, gan ymgymryd â gweithgareddau wedi'u cynllunio fel ymweld â theuluoedd i'w cefnogi lle mae pryderon ynghylch presenoldeb.

Ysgolion sy'n peri pryder

Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd 2024/25 ac yn parhau, roedd un ysgol mewn categori, Canolfan yr Afon. Mae'r ysgol yn derbyn cefnogaeth fanylach gan yr Awdurdod Lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA).

Yn ystod y flwyddyn, tynnwyd Ysgol Gynradd Brynbach o'r categori gweithgarwch dilynol Estyn ym mis Ebrill 2025 ac mae Ysgol Gynradd yr Holl Saint yn aros am eu cyfarfod dilynol gydag Estyn a ddylai ddigwydd yn Nhymor yr Hydref 2025. Disgwylir y bydd yr ysgol yn cael ei thynnu o'r categori gweithgarwch dilynol. Yn dilyn arolygiad yn nhymor yr haf, gosodwyd Cymuned Ddysgu Abertyleri mewn categori gwelliant sylweddol.

Mae 3 ysgol ychwanegol yn derbyn cefnogaeth dargedig gan yr Awdurdod Lleol/GCA fel y nodwyd yn ystod y broses Trafodaeth Broffesiynol. Derbyniodd yr ysgolion hyn gefnogaeth a her bob hanner tymor, er mwyn monitro cynnydd a gwelliannau. Mae Trafodaethau Proffesiynol yn ffordd bwysig i'r ALL ymgysylltu ag ysgolion i sicrhau bod eu blaenoriaethau ar gyfer gwella yn cael eu gweithredu a'u bod yn cael effaith, ac i nodi a chynnig cefnogaeth briodol lle bo'n berthnasol.

Hawl i Brydau Ysgol Am Ddim (eFSM)

Mae Blaenau Gwent wedi bod yn gyson ymhlith y niferoedd uchaf o ddisgyblion sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim, o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Chwyddodd anomaledd yn y broses, lle'r oedd statws yn cael ei gofnodi'n artiffisial, y niferoedd yn 2020/21 a 2021/22, gyda'r niferoedd bellach yn dychwelyd i lefelau cyn Covid.

Dangosydd	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25
Hawl i brydau ysgol am ddim (Disgyblion 5 – 15 oed)	25.5%	31.4%	33.3%	24.6%	24.1%	25.3%
Hawl i brydau ysgol am ddim (Pob disgybl)	23.7%	28.4%	30.3%	22.3%	21.9%	23.2%

Mae lefelau presennol y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn gosod Blaenau Gwent fel yr awdurdod lleol 6ed uchaf yng Nghymru. Ymddengys bod hyn yn gwrthdaro â mesurau eraill o amddifadedd ar draws Blaenau Gwent, o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill, lle mae lefelau amddifadedd yn uwch nag awdurdodau lleol eraill.

Disgyblion Addysg Ddewisol yn y Cartref (ADdC)

Bu cynnydd yn nifer y plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref (ADdC) ym Mlaenau Gwent dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae disgyblion ADdC yn parhau i gael eu cefnogi gan y Gwasanaeth Lles Addysg; bydd y gefnogaeth hon yn cael ei monitro'n agos yn y dyfodol i sicrhau bod nifer yr ymweliadau'n parhau i gynyddu yn unol â'r ffigurau. Ar hyn o bryd mae 229 o ddisgyblion ar gronfa ddata'r ADdC o'i gymharu â 158 ar gyfer yr un cyfnod y llynedd. Mae hyn yn gynydd o 44.9%. Mae 36 o'r disgyblion hyn o'r Gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr (GRT).



Plant sy'n Derbyn Gofal (CLA)

Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd 201 o blant yn derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol. Er bod gostyngiad bach wedi bod dros y flwyddyn, mae'r nifer yn dal i fod yn uchel.

Profodd cyfanswm o 10 o blant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol (7%) o leiaf un neu fwy o symudiadau ysgol nad ydynt yn gysylltiedig â throsglwyddo yn ystod 2023/24. Mae hwn yn ostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol pan oedd y ffigur yn 17 o blant (13%).

Mae cysondeb addysg yn parhau i gael ei ystyried fel rhan o'r broses baru pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol yn symud lleoliad. Darperir cludiant lle bo angen i sicrhau sefydlogrwydd addysg. Pan fydd yn rhaid i blentyn symud ysgol, mae prosesau ar waith i sicrhau bod oedi wrth dderbyn plant yn cael ei osgoi, lle bynnag y bo modd.

Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2023/24:

- Roedd 141 o blant o oedran ysgol statudol yn derbyn gofal gan awdurdod lleol Blaenau Gwent. Mae hyn yn gynydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan oedd y ffigur yn 136
- Mae mwyafrif y plant sy'n derbyn gofal gan Flaenau Gwent yn parhau i gael eu haddysgu ym Mlaenau Gwent ac yn mynychu ysgolion prif ffrwd. Mae cyfran fach o'n plant sy'n derbyn gofal yn mynychu lleoliadau addysg mwy arbenigol
- Bu cynnydd pellach yn nifer y PDG sy'n cael mynediad at leoliadau ysgol arbennig a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol - cyfanswm o 14 yn 2023-2024 o'i gymharu ag 11 yn 2022-2023 a 9 yn 2021-2022
- Bu gostyngiad pellach yn nifer y PDG sy'n mynychu lleoliadau ysgol annibynnol y tu allan i Flaenau Gwent – cyfanswm o 2 yn 2023/24, o'i gymharu â 3 yn 2022/23 a 7 yn 2021-2022
- Enillodd bron pob dysgwr gymwysterau cydnabyddedig ar ddiwedd eu hastudiaethau ysgol statudol yn 2023-2024 gyda'r mwyafrif bellach yn cymryd rhan mewn cyfleoedd addysgol a/neu hyfforddiant ôl-16; ac
- Yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, cychwynnwyd 67% o Gynlluniau Addysg Personol ar gyfer plant newydd eu lletya o fewn yr amserlenni statudol. Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol pan oedd y ffigur yn 88%. Ni chychwynnwyd cyfanswm o 8 cynllun o fewn 10 diwrnod. Roedd hyn o ganlyniad i 4 dysgwr yn Blant Digwmni sy'n Ceisio Lloches nad oeddent yn yr ysgol ar yr adeg y daethant yn blant sy'n derbyn gofal. Mae'r 4 dysgwr wedi cael eu derbyn i ysgolion ers hynny ac mae ganddynt gynlluniau addysg ar waith

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

- Mae'r Awdurdod Lleol wedi gwneud cynnydd da wrth alinio'r dyletswyddau deddfwriaethol ADY â'r rhaglen diwygio. Dim ond 20 o Ddatganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig sydd heb eu trosi'n Gynlluniau Datblygu Unigol Awdurdodau Lleol (Gwanwyn 25), o'i gymharu â 140 yn yr un cyfnod y llynedd
- Yn y rhan fwyaf o achosion, mae dyletswyddau ADY bellach yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni statudol gyda dim ond ychydig yn cael eu hatal gan estyniadau gofynnol
- Mae'r holl brosesau gofynnol i ganiatáu i'r Awdurdod Lleol ac ysgolion gyflawni dyletswyddau deddfwriaethol ADY (0-25) wedi'u datblygu'n llawn ac maent ar waith – mae'r rhain yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n effeithiol ddwywaith y flwyddyn i sicrhau y gellir gwneud newidiadau i gyd-fynd ag unrhyw newidiadau sydd eu hangen wrth i'r dyletswyddau newydd esblygu
- Mae hyfforddiant, datblygu ac adolygu yn parhau o ran gweithredu ADY ac mae'r gefnogaeth sydd ar gael gan yr Awdurdod Lleol i'r ysgolion yn gynhwysfawr ac yn ymatebol fwyfwy i fonitro a gwerthuso a gynhelir gan Swyddogion



- Mae gan y rhan fwyaf o Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynnyddoedd Cynnar wybodaeth briodol ynghylch pwysigrwydd adnabod yn gynnar, cynllunio a chynnal gweithgareddau pontio o ansawdd uchel er mwyn sicrhau llwybr llyfn i'r cam nesaf yn eu haddysg
- Mae cynnydd da mewn llawer o leoliadau Anhwylder Sbectrwm Awtistig gyda chynnwys dysgwyr yn y lleoliad prif ffrwd, gan roi llwyfan cryf ar gyfer ailgynnwys
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn Canolfan Adnoddau Dysgu/Dysgwyr yn gwneud o leiaf y cynnydd disgwylidig yn unol â'u galluedd a'u cyfnod datblygu
- Mae Cyfnod 1 a 2 o'r Adolygiad a'r ymgynghoriad ar y Ganolfan Adnoddau ADY wedi'u cwblhau'n llwyddiannus gyda 40 o leoedd Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig (ASD) ychwanegol wedi'u creu ar draws lleoliadau cynradd, cyfrwng Cymraeg ac uwchradd – mae hyn wedi lleihau nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir a'r niferoedd ar restrau aros yn effeithiol
- Mae pwrrpas Canolfan yr Afon wedi'i ailasesu'n llwyddiannus, gan arwain at gofrestru pob disgybl yn unigol ers mis Ionawr 2024
- Mae cydweithio rhwng addysg, gofal cymdeithasol ac iechyd wedi gwella, sydd wedi arwain at adnabod yn well anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion iechyd cymhleth yn gynnar
- Mewn llawer o achosion, mae cynllunio pontio ADY Ôl-16 yn gweithio'n dda; fodd bynnag, mewn ychydig o achosion nid yw hyn wedi bod yn effeithiol
- Mae'r weledigaeth ar gyfer cynhwysiant, sy'n cyd-fynd â'r Cod Ymarfer ADY, yn ein hysgolion prif ffrwd, yn cael ei chefnogi gan y Swyddog Arweiniol Gweithredu ADY. Yn ogystal, mae'r Tîm Cynhwysiant yn comisiynu'r Gwasanaeth Ymarfer Cynhwysol i barhau i gefnogi ysgolion ar sail systemig a disgyblion unigol lle bo angen

Cyllid Addysg

Nod y Cyngor yw darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon o fewn y cyfyngiadau ariannol. Mae gan yr Awdurdod Lleol hanes o wario o fewn ei gyllideb addysg yn ystod y blynnyddoedd diwethaf, gyda thanwariant cymharol fach dros y tair blynedd diwethaf yn erbyn y gyllideb addysg gyffredinol.

Dyrannodd y Cyngor £53.705 miliwn i ysgolion yn 2024/25 drwy'r Gyllideb Ysgolion Unigol (CYU) i ddarparu addysg o ansawdd uchel ac i wella deilliannau disgyblion. Yn ogystal, mae Blaenau Gwent yn parhau i wneud cyfraniad ariannol at y trefniadau GCA rhanbarthol a oedd yn £283,537 ar gyfer y flwyddyn ariannol. Mae prosesau fel cyfarfodydd Partneriaeth Awdurdod Lleol / GCA misol ar waith i sicrhau y gall yr Awdurdod Lleol ddwyn y GCA i gyfrif am y gefnogaeth a'r her y maent yn ei darparu i ysgolion a sicrhau gwerth am arian i'r Awdurdod Lleol.

Mae CYU 2025/26 £7.274m yn uwch nag yr oedd yn y flwyddyn flaenorol. Mae hwn yn gynydd o 13.54% ac mae'n cynnwys:

- £2.392m o gyllid pwysau costau (i ariannu datblygiad canolfannau adnoddau newydd a phwysau ysgolion blynnyddoedd blaenorol o ran dyfarniadau cyflog a chyfleustodau)
- £963k wedi'i drosglwyddo i'r Gyllideb Ysgolion Unigol o Gyllidebau Addysg eraill (oherwydd bod Canolfan yr Afon yn symud i gofrestru Statws Sengl); a
- £3.919m mewn perthynas â Grantiau sy'n cael eu trosglwyddo o Lywodraeth Cymru ac i ariannu dyfarniad cyflog a chynnydd y flwyddyn gyfredol

Gostyngodd balansau ysgolion o £1.204 miliwn ar ddiwedd 2023/24 i sefyllfa diffyg o £1.321 miliwn ar ddiwedd 2024/25. Mae'r lefel gyffredinol wedi gostwng £2.525 miliwn, gyda 10 ysgol mewn sefyllfa diffyg.

- Mae balansau ysgolion cynradd wedi gostwng o £1.669 miliwn i £0.489 miliwn
- Mae balansau ysgolion uwchradd wedi gostwng o £38,000 i sefyllfa diffyg o £177,000
- Mae balansau ysgolion uwchradd pob oed wedi



gostwng o ddiffyg o £597,000 i ddiffyg o £1.183 miliwn ac

- Mae ysgolion arbennig wedi gostwng o £94,000 i ddiffyg o £450,000

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ariannu dyfarniadau cyflog athrawon ar gyfer y dyfodol, fodd bynnag mae risg y bydd balansau ysgolion yn cael eu gwanhau ymhellach erbyn mis Mawrth 2026. Nid yw llawer o Ysgolion yn gallu cynhyrchu cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/2026. O ystyried lefel y diffygion, mae Ysgolion yn cael eu cefnogi i gynhyrchu cynlluniau lleihau diffyg dros y tymor byr i ganolig a fydd yn nodi effeithlonrwydd ariannol ac effaith yr effeithlonrwydd hwnnw. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu hystyried gan Ddirprwy Brif Weithredwr Blaenau Gwent a Chyfarwyddwr Strategol Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd a Chyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Corfforaethol. Bydd pwysau costau ysgolion yn parhau i gael eu hadrodd o fewn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Amddifadedd a Chanlyniadau Addysgol

Mae'r Awdurdod Lleol yn darparu ystod o gefnogaeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn profiadau a chanlyniadau addysg i blant sy'n byw mewn tldi a defnyddir data'n dda i dargedu ymyriadau'n briodol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys darparu prydau ysgol am ddim, tegwch misglwyf, cymorth i ddysgwyr agored i niwed, Gwasanaeth Ieuenctid a gwasanaethau cymorth ieuenctid, swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, darpariaeth gwyliau ysgol a chludiant ôl-16. Mae yna hefyd lawer o gryfderau yn y gwasanaethau i gefnogi lles plant a phobl ifanc ac i hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol. Darparwyd cefnogaeth i ysgolion i ddarparu amgylchedd lle mae iechyd a llesiant wrth wraidd y cwricwlwm, gan sicrhau bod cefnogaeth ac ymyriadau priodol ar gael, gyda phwyslais penodol ar gategorïau dysgwyr agored i niwed a dan anfantais. Mae offeryn hunanwerthuso ysgol gyfan wedi'i gyflwyno sy'n annog ysgolion i asesu'r rhwystrau allweddol i ddysgu ac i ddarparu cefnogaeth benodol sy'n ymwneud â llesiant emosiynol a meddyliol y plentyn. Mae'n annog ysgolion i gwestiynu sut y gall anghydraddoldeb effeithio ar ddysgu a chanlyniadau bywyd plentyn ac yn meithrin amgylchedd cynhwysol a gofalgarg.


Gwella canlyniadau i'n plant a'n pobl ifanc

Arolygwyd 7 ysgol yn y flwyddyn academiaidd 2024/25. Derbyniodd 6 o'r ysgolion a arolygwyd adroddiadau cadarnhaol gan Estyn ac ni chawsant eu rhoi mewn categori. Yr ysgolion oedd Glanhwy, Sant Joseff, Glyncoed, Sofrydd, Bro Helyg a Willoughton. Er i Estyn nodi nifer o gryfderau wrth arolygu Cymuned Ddysgu Abertyleri, yn enwedig yr arweinyddiaeth gref gan y pennaeth, rhoddwyd yr ysgol yn y categori gwelliant sylweddol.

Gwasanaeth Ieuenctid

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Blaenau Gwent yn cynnig ystod gynhwysfawr o wasanaethau i bobl ifanc 11-25 oed, wedi'u canoli ar ymgysylltu gwirfoddol a darparu dysgu anffurfiol. Mae'r dull hwn yn hyrwyddo datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol wrth godi dyheadau trwy gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

**Gwaith Ieuenctid % i oedran
Poblogaeth 11-25**



Yn 2024, roedd dros 22% o'r boblogaeth ieuenctid yn manteisio'n rheolaidd ar gyfleoedd dysgu gwasanaeth ieuenctid, gan gyrraedd yr ail safle o ran cyrhaeddiad ar draws y rhanbarth a'r seithfed safle ar draws Cymru.

Mae pobl ifanc yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y gwasanaeth ac yn gosod y cyfeiriad bob blwyddyn. O ganlyniad i'w hadborth, ailstrwythurwyd y gwasanaeth i orfodi'r holl staff llawn amser i weithio o leiaf ddwy noson yr wythnos, sydd wedi arwain at gynnydd yn nifer y clybiau ieuenctid o 4 i 9. O ganlyniad, mae pobl ifanc yn gallu cael mynediad at gefnogaeth o fewn pellter rhesymol o ble bynnag y maent yn byw, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar lefelau ymgysylltu.

Mae pobl ifanc agored i niwed yn cael eu cefnogi'n dda gan y Gwasanaeth Ieuenctid i gyflawni presenoldeb, llesiant a phontio ôl-16 uwchlaw'r disgwyl. Mae cefnogaeth i bobl ifanc a nodwyd fel rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio o'u dysgu yn yr ysgol a'r coleg yn effeithiol, fel y dangosir gan yr holl ddisgyblion a gefnogir sy'n aros yn eu lleoliad (661 o ddisgyblion). Mae pobl ifanc sy'n cael mynediad at y ddarpariaeth EOTAS newydd, a ddarperir gan y Gwasanaeth Ieuenctid, wedi dangos gwelliannau sylweddol yn eu presenoldeb, eu llesiant a'u hagwedd tuag at ddysgu. Yn ystod y tymor cyntaf, adroddwyd am welliant o 80% ar draws chwe maes craidd, gyda phresenoldeb cyfartalog o 90% yn y ddarpariaeth EOTAS (addysg heblaw yn yr ysgol) o'i gymharu ag 82% mewn ysgolion prif ffrwd. O'r garfan wreiddiol, dychwelodd 80% i'w hysgol brif ffrwd ar amserlen lawn. Nodwyd nad oedd y 2 ddysgwr sy'n weddill yn addas i ddychwelyd gydag 1 angen Cynllun Datblygu Unigol.

Mae cefnogaeth gref i ddysgwyr sy'n cael addysg gartref ddewisol, gyda 36 o bobl ifanc sy'n cael addysg gartref ddewisol yn defnyddio dau grŵp cymdeithasol sy'n cynnig gweithgareddau anffurfiol, wedi'u cynllunio i leihau unigedd cymdeithasol a hyrwyddo llesiant. I lawer o gyfranogwyr, y sesiynau hyn yw eu hunig gyfle i ryngweithio'n gymdeithasol â chyfoedion. Llwyddodd pob person 16 oed i drosglwyddo'n llwyddiannus i ddarpariaeth Ôl-16.

Mae'r Rhaglen Dyfodol Cadarnhaol yn llwyddiannus wrth atal gwaharddiadau parhaol, heb unrhyw bobl ifanc a fanteisiodd ar y ddarpariaeth hon wedi'u gwahardd yn y flwyddyn hyd yma.

Mae ymgysylltiad â darpariaeth ieuenctid iaith Gymraeg wedi cynyddu 60% (160 o bobl ifanc o'i gymharu â 30 o bobl ifanc y flwyddyn flaenorol).

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn arwain y gwaith o weithredu Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF) Llywodraeth Cymru a chefnogir hyn gan y Grŵp Codi Dyheadau amlasiantaeth strategol a gweithrediad yr Offeryn Adnabod yn Gynnar, gan ddarparu atal a chefnogaeth i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) neu'n ddigartref ar hyn o bryd.

Mae adnabod a chefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET neu'n ddigartref mor gynnar â blwyddyn 2 wedi profi'n hynod effeithiol. Mae'r dull hwn wedi arwain at ostyngiad cyson yn nifer y bobl ifanc sy'n dod yn NEET, gyda'r gyfradd yn gostwng i 2.1% yn 2024, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 2.4% ac yn welliant o gyfradd y flwyddyn flaenorol o 2.5%. Mae'r dull hwn wedi'i wreiddio'n dda ac mae'r lefelau wedi bod yn gyson isel ers dros 10 mlynedd, gan ragori ar y canlyniadau disgwylidig ar gyfer yr ardal. Fel rhan o'r dull hwn, mae pobl ifanc yn cael eu cefnogi'n dda yn eu cyfnod pontio o'r ysgol i Ôl-16 ac mae'r cyfnodau pontio hyn yn cael eu cynnal yn y rhan fwyaf o achosion.

Mae cyfranogiad yn gryfder o fewn yr Awdurdod Lleol, ac mae llawer o bobl ifanc yn gallu mynegi eu barn a dylanwadu ar faterion sy'n effeithio arnynt.



Mae'r sefydliad wedi ymgorffori dull 'Y Ffordd Gywir' yn ei Asesiadau Effaith Integredig (AEI), gan sicrhau bod Hawliau Plant yn ystyriaeth graidd ym mhob newid gwasanaeth, penderfyniad cyllidebol, a mentrau newydd.

Ym mis Medi 2024, trosglwyddwyd y swyddogaeth gyfranogiad o'r tîm polisi corfforaethol i'r Gwasanaeth Ieuenctid. Nodwyd bod angen ehangu'r cyrhaeddiad i gynnwys mwy o bobl ifanc ag anghenion amrywiol. Mae'r symudiad wedi galluogi dull mwy integredig o gynyddu cyfranogiad ieuenctid ar draws Addysg a'r Cyngor.

Gwasanaeth Addysg Gymunedol Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Mae'r Gwasanaeth Sipsiwn, Roma a Theithwyr (SRT) yn cynnwys Swyddog Cyswllt Teuluol ac athro cymorth addysg wedi'i gomisiynu. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddarparu cymorth unigol a chymorth mewn grwpiau bach. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi plant a phobl ifanc yn academiaidd o fewn gwersi a thrwy dynnu'n ôl, ac mae'r cymorth hwn wedi'i dargedu'n addas ar gyfer pob disgybl unigol. Adolygir y gwersi penodol hyn mewn cyfarfodydd rhwng staff dynodedig yr ysgol a'r Tîm SRT. Yn ystod cyfarfodydd, adolygir data asesu a meysydd eraill o addysg y plentyn/person ifanc, fel presenoldeb a gwaharddiadau.

Ffocws yr ymyrraeth llythrennedd yw nodi, drwy asesiad sylfaenol, a chefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n tangyflawni mewn darllen a sillafu. Nod y gwasanaeth yw gwella canlyniadau llythrennedd drwy gefnogaeth un-i-un neu grŵp bach wedi'i theilwra, gydag asesiad rheolaidd i fonitro cynnydd. Mae effaith yr ymyrraeth llythrennedd wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda thystiolaeth glir o gynnydd mewn darllen a sillafu. Dangosodd 94% o'r dysgwyr a gefnogwyd welliant mewn darllen, a gwelodd mwy na hanner mewn sillafu. Mae pedwar disgybl wedi rhagori ar y canlyniadau disgwylidig. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos effeithiolrwydd yr ymyrraeth, a phwysigrwydd cefnogaeth dargedig barhaus i sicrhau cynnydd cynaliadwy.

Mae presenoldeb disgyblion Sipsiwn a Theithwyr wedi codi i 74.52% y flwyddyn academiaidd hon, o'i gymharu â 73.15% y llynedd — arwydd o gynnydd cyson. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu effaith monitro parhaus ac ymyriadau wedi'u targedu trwy ddull cydweithredol gyda theuluoedd a'r gwasanaeth lles addysg.

Datblygwyd Padlet SRT i roi mynediad hawdd i ysgolion ac ymarferwyr at adnoddau sy'n canolbwyntio ar ddiwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r offeryn ar-lein hwn yn cynnwys polisiâu, hyfforddiant, meini prawf atgyfeirio a chyfeiriadau at ddysgu proffesiynol. Y nod yw codi ymwybyddiaeth, hyrwyddo dealltwriaeth, a chefnogi amgylcheddau dysgu mwy cynhwysol. Mae adborth ar y Padlet wedi bod yn gadarnhaol iawn, gydag ymarferwyr yn nodi mwy o hyder ac ymgysylltiad wrth weithio gyda dysgwyr SRT.

Twf Economaidd


Safleoedd cyflogaeth strategol a thwf

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud, gan gydweithio â llywodraethau Cymru a'r DU i ddenu a sicrhau cyflogwyr mawr i'r ardal. Mae cwblhau gwelliant Ffordd Blaenau'r Cymoedd yn ddiweddar wedi darparu catalydd i sicrhau rhan ogleddol y fwrdeistref sirol fel ardal dwf. Mae gwaith datblygu pellach wedi digwydd i sefydlu'r ardal yn gadarn fel ardal dwf clwstwr ar gyfer creu swyddi. Gan weithio mewn partneriaeth â LLC, cafwyd caniatâd cynllunio ar safle strategol ac mae cynnig buddsoddi yn cael ei ddatblygu gyda chyflogwr ailgylchu gwydr posibl.

Safle Peirianeg Gwerth Uchel (HiVE) (Cyfleuster Addysg Uwch-Dechnoleg Ôl-16)



Roedd y gwaith adeiladu ar safle HiVE yng Nglynebwy ar darged i gael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2024, fodd bynnag ym mis Medi 2024 aeth y datblygwr, ISG, i ddwylo'r gweinyddwyr a effeithiodd ar yr amserlen gyflawni ac a oedd â goblygiadau ariannol. Oherwydd hyn, daeth y safle yn ôl o dan reolaeth y cyngor. Ym mis Ionawr 2025, yn dilyn cefnogaeth ariannol gan Tech Valleys, dyfarnwyd y contract gan y cyngor i BESL (CMB) i gwblhau'r gwaith.



Mae'r prosiect bellach wedi'i gwblhau ac yn barod i groesawu myfyrwyr ym mis [Medi 2025](#).

Fel rhan o HiVE, cynhaliwyd cyfres o raglenni ehangu yn ystod 2024-2025. Fel rhan o hyn, ymwelodd Gweinidog Addysg Cymru, Jack Sheppard, â Chyfnod Uwchradd Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr i weld yr offer Uwchdechnoleg a gynigir ac i ymgysylltu â myfyrwyr lleol. Mewn ymateb i gynnydd yn y galw am ofod gwaith hybrid, lansiodd y Cyngor Goldworks ym mis Hydref 2024 gan ddarparu opsiynau gweithle, gwasanaethau cymorth busnes, desgiau poeth, swyddfeydd preifat, ac ystafelloedd cyfarfod wedi'u cyfarparu ar gyfer gweithwyr llawrydd, busnesau newydd, a busnesau lleol. Mae'r cyfleuster hefyd yn gwasanaethu fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau cymorth busnes a chyfarfodydd rhwydweithio lleol.



Cyngor Blaenau Gwent – Prosiect Hwyluso STEM

Mae Prosiect Hwyluso STEM Blaenau Gwent yn cysylltu ysgolion lleol â busnesau i ysbrydoli myfyrwyr a'u paratoi ar gyfer gyrfaedd STEM yn y dyfodol. Wedi'i lansio yn 2021 a'i dreialu i ddechrau yng nghlwstwr ysgolion Ebwy Fawr, arweiniodd ei lwyddiant at ei gyflwyno'n llawn ar draws Blaenau Gwent. Mae'r prosiect yn cefnogi rhaglenni 'diwydiant mewn ysgolion', gan helpu myfyrwyr i ennill mewnwelediadau a sgiliau go iawn sy'n cyd-fynd ag anghenion y gweithle. Yn dilyn cyllid ychwanegol, mae'r prosiect wedi'i ymestyn a bydd bellach yn rhedeg tan 2028.

CychwynCyflym

Mae'r Rhaglen CychwynCyflym, a gefnogir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF), yn cynnig lleoliadau gwaith â thâl chwe mis o fewn Blaenau Gwent i unigolion di-waith 16 oed a hŷn. Mae'r fenter wedi'i chynllunio i roi profiad gwaith ystyrlon i gyfranogwyr a'r cyfle i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd allweddol, a thrwy hynny wella eu rhagolygon o sicrhau cyflogaeth gynaliadwy.

Ar gyfer 2024/25:

- Cofrestrodd 55 o gyfranogwyr newydd i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd
- Dechreuodd 27 leoliad gwaith 6 mis
- Derbyniodd 25 gefnogaeth barhaus ar leoliad o 2023/24
- Cynigiwyd lleoliadau trwy 45 o gyflogwyr
- Aeth 9 ymlaen i Brentisiaeth; ac
- Mae 10 wedi aros mewn cyflogaeth 12 mis ar ôl dechrau eu lleoliad (mae data yn dal i gael ei gasglu oherwydd amserlen y rhaglen).



Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF)

Mae rhaglen Ariannu SPF yn cael ei defnyddio i gefnogi cyflawni nifer o brosiectau allweddol ar draws y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogaeth i gymunedau, trefi, grwpiau cymunedol (trwy GAVO), cefnogaeth i fusnesau a busnesau bach a chanolig a'r Rhaglen Cyflogaeth a Sgiliau, gan weithio gydag adrannau mewnol a sefydliadau partner i gyflawni prosiectau a gefnogwyd yn flaenorol trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop a rhaglenni ariannu eraill yr UE. Cyfanswm y cyllid ar gyfer Blaenau Gwent dros y 3 blynedd diwethaf, gan gynnwys £603,816 ar gyfer gweinyddu, yw £27,847,691. Mae rhai o'r prosiectau allweddol a gefnogwyd trwy SPF yn cynnwys: adnewyddu Llysoedd Tennis Brynmawr, meysydd chwarae Garnlydan a Glyncoed. Defnyddiwyd y cyllid hefyd i ariannu ein wardeiniaid diogelwch cymunedol, gan helpu ein trigolion i deimlo'n ddiogel.

Blaenoriaeth	Dyranriad dros gyfnod o 3 blynedd 2022-2025
Pobl a Sgiliau	£9,172,303
Cefnogi Busnesau Lleol	£7,529,504
Cymunedau a Lleoedd	£7,284,373
Lluosi	£3,257,695

Mae blwyddyn drawsnewid o gyllid wedi'i chymeradwyo ar gyfer 2025-26 gyda chyllideb lai ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddeall pa gyllid fydd ar gael yn y dyfodol gan Lywodraeth y DU ar ôl mis Mawrth 2026.

Cynllunio a datblygu cynaliadwy o fewn ein cymunedau

Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)

Mae gwaith wedi parhau i ddatblygu cynllun datblygu lleol newydd y Cyngor ac mae wedi'i drefnu i symud ymlaen ymhellach yn ystod 25/26. Mae'r CDLI yn darparu'r fframwaith gofodol ar gyfer y Cyngor dros y 10 mlynedd nesaf ac mae'n gynhwysyn allweddol sy'n datgloi amcanion economaidd a seiliedig ar leoedd y Cyngor.

Creu Lleoedd

Mae'r gweithgaredd canlynol wedi digwydd:

- Glynebwy - mae'r gwaith yn parhau gyda datblygu'r cynllun cyflawni. Mae hyn wedi cynnwys archwilio opsiynau ar gyfer safleoedd allweddol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cynhelir ymgysylltu yn y dyfodol â Chomisiwn Dylunio Cymru
- Brynmawr - mae'r cynllun creu lleoedd wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet ac mae gwaith bellach ar y gweill ar ddatblygu'r cynllun cyflawni. Mae sawl prosiect wedi'u cwblhau yn ystod y blynnyddoedd diwethaf gan gynnwys datblygu hen safle ffatri NMC
- Tredegar - Mae'r cynllun cyflawni yn cynnwys y rhestr arfaethedig o brosiectau i gyflawni'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer y dref. Mae rhai prosiectau eisoes ar y gweill a disgwyli'r iddynt gael eu cwblhau yn 2025. Mae'r rhain yn cynnwys Hen Neuadd y Dref Tredegar sydd wedi'i rhestru fel Gradd 2 a'r llwybr cerdded
- Abertyleri – Yn dilyn cymeradwyo'r cynllun Creu Lleoedd, mae gwaith wedi dechrau ar gyflawni prosiectau tymor byr o fewn y cynllun, gan gynnwys pedestreiddio Stryd Somerset (ar gyfer bwyta yn yr awyr agored), creu lle cyhoeddus yn Sgwâr Jiwbilî, gwaith gwella i Arcêd Abertyleri a chwblhau Llyfrgell newydd Abertyleri (yn hen Gapel y Drindod); ac
- Mae cyllid wedi'i nodi ar gyfer datblygu Cynllun Creu Lleoedd Blaenau a bydd proses dendro i sicrhau'r gefnogaeth ar gyfer datblygiad y cynllun yn cael ei chynnal yn 2025/26



Eiddo ac asedau'r Cyngor

Bydd y Cyngor yn parhau â'i gynlluniau i wneud y mwyaf o effeithlonrwydd wrth ddefnyddio ei asedau corfforaethol sy'n weddill - y Swyddfa Gyffredinol, y Ganolfan Ynni, ViTCC a Chanolfan Blant Integredig Blaenau - ac i ddatblygu ei fodel gweithio hybrid, gan gefnogi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Strategaeth Gweithlu, gan ganolbwyntio ar:

- Strategaeth Gweithlu'r Cyngor
- Galwadau presennol a rhai'r dyfodol am staff sy'n seiliedig ar wasanaethau ac sy'n gweithio'n hyblyg ar draws y Cyngor
- Yr angen am dechnoleg cyfarfodydd hybrid ar gyfer gweithgareddau o ddydd i ddydd; ac
- Anghenion cwsmeriaid ac Aelodau

Mae'r portffolio Diwydiannol o 16 ystad ddiwydiannol sy'n cynnwys 191 o unedau y gellir eu gosod, yn cael ei reoli ar y cyd gan y Tîm Busnes ac Arloesi o fewn Adfywio ac Ystadau ac mae'r timau'n parhau i weithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Technegol i wella'r asedau a chynyddu meddiannaeth, a amcangyfrifir yn 95% o feddiannaeth ac yn darparu lle i lawer o fusnesau bach a chanolig a thua 800 o swyddi i gyd.

Mae'r Cyngor yn datblygu Strategaeth Eiddo a fydd yn ceisio alinio gwneud penderfyniadau eiddo â strategaethau ac amcanion allweddol y Cyngor ac i osod targedau perfformiad a fydd yn cael eu monitro'n flynyddol trwy'r Cynllun Rheoli Asedau.

Mae Grŵp Rheoli Eiddo ac Asedau Corfforaethol wedi'i sefydlu i drafod anghenion llety, statws adeiladau a phosibiliadau ar gyfer arbed costau. Ein ffocws yw galluogi'r gymuned i ddefnyddio a rheoli adeiladau cymunedol, lle bynnag y bo modd. Mae swyddogion wedi gwneud cynnydd mawr wrth symud o'n nifer o brydlesi neu denantiaethau tymor byr i brydlesi tymor hwy yn ogystal ag optimeiddio'r defnydd o Drosglwyddiadau Asedau Cymunedol (CATs). Mae cynnydd ar y CATs yn cynnwys:

CATs wedi'u cwblhau (yn y ddwy flynedd ddiwethaf)	Yn Agos at ei Gwblhau	CATs Newydd yn Cael eu Prosesu
• Canolfan Adnoddau Rasa – prydles i Ganolfan Adnoddau Cymunedol Rasa Cwmni Buddiant Cymunedol. • Llesiant Beaufort - Ystafell Newid uchaf a Chae Rygbi. Prydles i Beaufort RFC Fields and Facilities Ltd. • Maes chwarae Roseheyworth – ystafelloedd newid a chaeau. Prydles i Tyleryan Belles Sports Association Limited. • Rhandiroedd Cymunedol Cwm – prydles i Barefoot Farm Cwmni Buddiant	• Beaufort Colts AFC Fields & Facilities Ltd – Pafiliwn Caeau Hilltop • Llesiant Beaufort – Ystafell Newid isaf a Chae Pêl-droed. Prydles i'w neilltuo i Gaeau Chwarae Glynebwy & Training Facilities Ltd.	• Ardal gwlyptir ym Mhafiliwn Jim Owen, Cwmtyleri • Cae Windsor Road • Tennis Six Bells • Maes Hamdden Brynithel • Neuadd Sgowtiaid Coedcae – • Llesiant Brynmawr – cae pêl-droed, pafiliwn a lawnt fowlio -



Cymunedol Sefydliad Blaenau - Sefydliad Cymunedol Blaenau.		
--	--	--

Camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer 2025/26

Mae'r model cyngor ffederal a gymeradwywyd yn ddiweddar yn dod â chyfle unigryw i ail-lunio ein heconomi a'n gweledigaeth a'n blaenoriaethau ar gyfer Blaenau Gwent a Thorfaen. Mae gwaith eisoes wedi dechrau i ddatblygu strategaeth gyffredinol "Glasbrint ar gyfer Twf" sy'n anelu at wneud y mwyaf o gyfleoedd buddsoddi, wedi'u hadeiladu ar unigrywiaeth leol y ddwy ardal a'i lleoliad strategol o fewn y rhanbarth, gan adeiladu a chynnal cymunedau bywiog ar yr un pryd trwy ein rhaglen creu lleoedd.

Bydd y strategaeth hon hefyd yn darparu'r fframwaith i sefydlu meysydd gwaith a blaenoriaethau yn y dyfodol i sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf, gan weithredu'n gadarn o fewn ein hadnoddau ariannol a staff.

Blaenoriaethau allweddol

1. Datblygu a chytuno ar y Glasbrint ar gyfer Twf.
2. Sefydlu rhaglenni gwaith a chanlyniadau o dan y pedwar colofn – Buddsoddi, Creu Lleoedd, Cynllunio ac Eiddo.
3. Datblygu strwythur staff priodol i gyflawni'r Glasbrint ar gyfer Twf ar draws y ddau gyngor.

Heriau Allweddol a Nodwyd ar gyfer Gweithredu yn 2025/26

- Mae ysgolion yn cynhyrchu cynlluniau lleihau diffyg dros y tymor byr i ganolig a fydd yn nodi effeithlonrwydd ariannol ac effaith yr effeithlonrwydd hwnnw. Bydd hyn yn cael ei adrodd fel rhan o'r hunanasesiad nesaf
- Bu cynnydd yn nifer y plant sy'n cael addysg ddewisol gartref (EHE) ym Mlaenau Gwent dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae angen monitro hyn yn agos yn y dyfodol i sicrhau bod nifer yr ymweliadau'n cynyddu yn unol â'r ffigurau, caiff hyn ei fonitro fel rhan o'n dangosyddion perfformiad
- Parhau i gefnogi'r un ysgol mewn categori, Canolfan yr Afon
- Darparu cefnogaeth well i Blant sy'n Derbyn Gofal oherwydd y cynnydd yn nifer y gwaharddiadau a'r dyddiau a gollwyd
- Yn 2024, gostyngodd pob dangosydd arholiad Cyfnod Allweddol 4 o'i gymharu â 2023, fel y gwnaeth ar draws Cymru, ni pherfformiodd unrhyw ysgol uwchlaw cyfartaledd y teulu mewn perthynas â'r mesur 5A*-A. Bydd hyn yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor yn ystod 2025/26
- Mae'r Cyngor yn datblygu Strategaeth Eiddo a fydd yn ceisio alinio gwneud penderfyniadau eiddo â strategaethau ac amcanion allweddol y Cyngor ac i osod targedau perfformiad a fydd yn cael eu monitro'n flynyddol drwy'r Cynllun Rheoli Asedau. Rhagwelir y bydd y Strategaeth a'r Cynllun yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu yn Hydref 2025



Dangosydd Perfformiad	Data						
	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	Perfformiad
% o Ddisgyblion sydd â hawl i Brydau Ysgol Am Ddim (eFSM) BG	25.5	31.4	33.3	24.6	24.1	23.2	Ddim yn berthnasol
% Presenoldeb – Cynradd	Ddim yn berthnasol	89.9%	89.0%	90.4%	91.4%	92.1%	Yn gwella
% Presenoldeb – Uwchradd (Y Ffigur Uwch sydd Orau)		84.8%	84.8%	85.8%	86.8%	89.6%	Yn gwella
Nifer y Disgyblion sy'n cael addysg ddewisol gartref yn BG (Y Ffigur Is sydd Orau)	70	89	132	137	193	218	Yn dirywio
Nifer yr Ysgolion yn y categori Achos o Bryder (allan o gyfanswm o 25) Y targed yw 0	4	2	2	2	1	2	Yn dirywio
Nifer a chanran y bobl ifanc sy'n NEET yn gadael blwyddyn 11 *Data a gasglwyd ym mis Mehefin a'i wirio ym mis Hydref (Y Ffigur Is sydd Orau)	Heb ei ddal oherwydd Covid	9 1.5%	9 1.6%	31 5%	14 2.5%	14 2.1%	Yn cael ei gynnal
Prentisiaid Mewnol Aspire - Prentisiaethau'r ALL (Y Ffigur Uwch sydd Orau)	Ddim yn berthnasol	5	10	12	8	8	Yn cael ei gynnal
Prentisiaid Allanol Aspire - Cynigir prentisiaeth yn y diwydiant (Y Ffigur Uwch sydd Orau)	13	9	8	17	16	15	Dirywiad bach
% Meddiannaeth Unedau Diwydiannol Blaenau Gwent (Y Ffigur Uwch sydd Orau)	89%	88%	87%	85%	89%	86%	Yn dirywio




Amcan Llesiant 2

Ymateb i'r argyfwng natur a hinsawdd a galluogi cymunedau cysylltiedig

Pam Mae Hyn yn Bwysig fel Maes Ffocws:

Mae gan Flaenau Gwent dreftadaeth gyfoethog, a'i hadeiladau a'i chefn gwlad yw'r hyn sy'n ei gwneud yn lle deniadol i fyw, gweithio ac ymweld. Dylid defnyddio'r amgylchedd lleol i helpu i wella iechyd a llesiant teuluoedd a chymunedau a'i wella er mwyn i genedlaethau'r dyfodol barhau i'w mwynhau. Mae awydd gwirioneddol i weld y cymunedau lle mae pobl yn byw yn cael eu cadw'n lân, yn daclus ac yn ddefnyddiadwy, gan greu ardaloedd y gall pobl fod yn falch ohonynt.




Yr Hyn yr Ydym yn Anelu at ei Gyflawni – I Gyngor Blaenau Gwent leihau ei allyriadau carbon yn sylweddol, a darparu amgylchedd sy'n cefnogi twf a llesiant a chysylltu cymunedau.

Pa mor dda ydyn ni'n gwneud?

Mae'r naratif canlynol yn rhoi myfyrdod gwerthusol o'r gweithgaredd, a gynhaliwyd drwy gydol 2024/25, ar draws meysydd gwasanaeth sy'n cefnogi'r Amcan Llesiant hwn yn uniongyrchol. Mae'r naratif yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi mynd yn dda ond hefyd, ac yn bwysicach fyth, ble rydym yn profi heriau. Yna mae'r heriau hyn wedi'u casglu at ei gilydd ar ddiwedd pob adran. Bydd y meysydd hyn yn cael eu nodi fel meysydd ffocws wrth symud ymlaen a byddant yn cael eu hadrodd fel rhan o'n Hunanasesiad nesaf, yn ogystal â monitro perfformiad drwy gydol y flwyddyn.

Lleihau gwastraff a chynyddu ailgylchu

Rhwng 2019/20 a 2023/24, rhagorodd Blaenau Gwent ar darged ailgylchu statudol Llywodraeth Cymru o 64%, gan gyflawni:



Ar gyfer 2024/25, cynyddodd perfformiad ailgylchu i 68.89%. Er bod perfformiad wedi cynyddu, mae Blaenau Gwent wedi methu â chyrraedd targed Llywodraeth Cymru o 70% ar gyfer 2024/25. Mae gwaith yn parhau i leihau faint o wastraff gweddilliol (bagiau du) sy'n cael ei gasglu a chynyddu cyfranogiad mewn ailgylchu ar draws y Fwrdeistref.



Er mwyn i Flaenau Gwent gyrraedd y targed ailgylchu o 70%, byddai angen i'r cyngor leihau gwastraff gweddilliol a chynyddu ailgylchu 376 tonnelli. Am bob cynnydd o 1% byddai angen dargyfeirio 339.11 tonnelli o'r tunelli gweddilliol i ailddefnyddio/ailgylchu a chompostio tunelli. Mae hyn yn cael ei wneud yn anoddach gan bethau fel gerddi llai yn yr ardal yn gyffredinol, felly mae ffigurau gwastraff gwyrdd yn gyffredinol yn is nag ardaloedd eraill. Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn cynnal ac yn gwella ei dargedau ailgylchu gan fod cosb ariannol bosibl yn cael ei gosod gan Lywodraeth Cymru os na chyflawnir y rhain.

Os gosodir dirwy ar y Cyngor, byddai hyn yn cyfateb i £200 am bob tonnelli islaw'r targed. Felly, os yw'r gyfradd ailgylchu bresennol o 68.89% gyda diffyg o 376 tonnelli, byddai'n cyfateb i ddirwy o £75,200.


Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, trwy Bartneriaethau Lleol a Wrap, i ddatblygu Strategaeth Gwastraff newydd a fydd yn nodi'r heriau yr ydym yn eu hwynebu a'r camau gweithredu strategol y bydd angen i ni eu cymryd i gynyddu ein cyfradd ailgylchu i 70% a thu hwnt a lleihau ein gwastraff cyffredinol.

Dadansoddiad o Berfformiad 2024/25		
	2023/24	2024/25
Chwarter 1 (Ebrill – Mehefin)	70.11%	69.83%
Chwarter 2 (Gorffennaf – Medi)	66.99%	69.27%
Chwarter 3 (Hydref – Rhagfyr)	61.91%	68.40%
Chwarter 4 (Ionawr – Mawrth)	65.42%	68.03%
Blynyddol (heb ei wirio gan Cyfoeth Naturiol Cymru eto)	66.18%	68.89%

Wrth edrych ar ddadansoddiad o ffigurau tunelledd ar gyfer 2024/25, o'i gymharu â 2023/24, mae'n dangos bod gwastraff gweddilliol, gwastraff bwyd, ailgylchu sych wrth ymyl y ffordd, gwastraff gardd, gwastraff cartref a dderbynnir mewn canolfannau ailgylchu (HWRC) a gwastraff masnachol i gyd wedi cynyddu.

- Mae gwastraff gweddilliol wedi cynyddu 315.591 tonnelli (2.51%)
- Mae gwastraff bwyd wedi cynyddu 98.67 tonnelli (2.67%)
- Mae ailgylchu sych wrth ymyl y ffordd wedi cynyddu 86.334 tonnelli (1.52%)
- Mae gwastraff gardd wedi cynyddu 37.981 tonnelli (2.49%)
- Mae gwastraff HWRC wedi cynyddu 279.052 tonnelli (4.67%)
- Mae gwastraff masnachol wedi cynyddu 1221.496 tonnelli (40.71%)

BETH SY'N DIGWYDD I'N GWASTRAFF?



*Dangosyddion Chwarter 4 heb eu cymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) eto, ond mae'n annhebygol y bydd y ffigurau'n newid.




Cynyddwyd y gyfradd ailgylchu statudol yng Nghymru i 70% yn 2024/25, ac er bod y Cyngor wedi gwneud gwelliannau mawr yn ein cyfradd ailgylchu, mae arwyddion cynnar o berfformiad yn dangos na fydd y Cyngor yn cyflawni'r targed hwn. Mae swyddogion wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, trwy Bartneriaethau Lleol a Wrap, i ddatblygu Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd sy'n manylu ar weledigaeth y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth a'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni a mynd y tu hwnt i 70%. Y cam nesaf yw ymgynghori â'r cyhoedd yn 2025.

Tipio Anghyfreithlon a Glanhau Strydoedd

Mae defnyddio unedau teledu cylch cyfyng ar draws Blaenau Gwent yn parhau i dargedu cilfannau priffyrdd a lleoliadau gwledig sy'n destun tipio anghyfreithlon toreithiog. Cyhoeddodd Blaenau Gwent 110 o hysbysiadau cosb sefydlog (HCS) tipio anghyfreithlon gwerth £400 ar gyfer 23/24 ac mae gostyngiad bach wedi bod eleni gyda 109 o hysbysiadau cosb sefydlog (HCS) tipio anghyfreithlon gwerth £400 wedi'u cyhoeddi rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025.

2024/2025	Nifer a gofnodwyd
Nifer y digwyddiadau tipio anghyfreithlon	1002
Nifer yr hysbysiadau cosb sefydlog sbwriel a gyhoeddwyd	412
Nifer yr hysbysiadau cosb sefydlog Rheoli Cŵn a gyhoeddwyd	20
Dyletswydd Gofal Masnachol	22
Dyletswydd Gofal Cartref	8

Yn ystod y flwyddyn 2024/25, cyhoeddwyd cyfanswm o 22 o HCS Dyletswydd Gofal Masnachol gwerth £300 i fusnesau nad oedd ganddynt drefniadau gwaredu gwastraff priodol ar waith, tra bod 8 o ddeiliaid tai wedi derbyn hysbysiadau cosb sefydlog o £300 am fethu â gwirio bod eu gwastraff wedi'i drosglwyddo i gludwr gwastraff awdurdodedig. Erlynwyd 4 unigolyn am amrywiol droseddau gwastraff a arweiniodd at ddirwyon a chostau gwerth £5,913 gan y Llysoedd.



Tai ac Ynni

Mae cyflwyno ECO4Flex (cynllun i nodi eiddo domestig sydd angen mesurau gwella ynni) ym Mlaenau Gwent, trwy bartneriaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR), wedi dod â manteision a chyfyngiadau. Er bod y model CCR yn darparu dull rhanbarthol strwythuredig a mynediad at bartneriaid cyflawni fel EDF a Citi Energy, mae'r nifer sy'n ei gymryd yn lleol wedi aros yn isel. Gostyngodd nifer yr aelwydydd sy'n elwa o fesurau ynni o 32 yn 2023/24 i ddim ond 5 yn 2024/25, er gwaethaf y ffaith bod y fframwaith ar waith. Mewn ymateb i'r dirywiad hwn, lansiwyd ymgyrch dargedig ym mis Mawrth 2025, gyda Citi Energy yn estyn allan at oddeutu 6,600 o eiddo a gafodd sgôr EPC E, F, neu G trwy bost uniongyrchol, gyda chymorth hyrwyddo cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, dim ond pedwar esiamp! a gynhyrchwyd gan yr ymgyrch, gan dynnu sylw at yr anhawster o droi ymwybyddiaeth yn weithredu. Mae'r canlyniad hwn yn awgrymu y gallai'r model CCR, er ei fod yn gyson, fod yn brin o hyblygrwydd i fynd i'r afael yn llawn â heriau cyflawni lleol. Er mwyn gwella ymatebolrwydd ac ymgysylltiad, mae'r Cyngor bellach yn archwilio llwybrau cyflawni cyflenwol i gynyddu nifer y bobl sy'n cymryd ECO4Flex ar draws y fwrdeistref.



Cynllun Ynni Ardal Leol (LAEP) - system ynni cyfan, gan edrych ar ynni o'r Sectorau Domestig, Diwydiannol, Masnachol, Cyhoeddus, Amaethyddiaeth a Thrafnidiaeth

Yn ystod 2024/25 cynhyrchwyd Cynllun Ynni Ardal Leol (LAEP) gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r LAEP yn amlinellu sut y gallai system ynni carbon sero net edrych yn 2050 ar gyfer Blaenau Gwent. Mae'r LAEP yn nodi graddfa'r trawsnewidiad sydd ei angen i newid i system ynni sy'n seiliedig yn bennaf ar drydan adnewyddadwy. Mae'r LAEP yn nodi camau gweithredu ar gyfer amrywiaeth o sefydliadau ac mae'r cyngor wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â rhai o'r camau gweithredu a nodwyd a chefnogi, mewn egwyddor, y rhai y bydd angen cyllid ychwanegol arnynt.

Mae'r Cyngor yn parhau i ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer caffael carbon isel a di-garbon o fewn portffolio landlordiaid corfforaethol, gan gynnwys:

- Gosodiadau PV newydd yn Ysgol Gynradd Willowtown, Ysgol Gynradd Rhos y Fedwen, Canolfan Hamdden Abertyleri a Chanolfan Chwaraeon Glynabwy
- Gosod technolegau carbon isel, gan gynnwys goleuadau LED newydd, yn Ysgol Gynradd Coed y Garn, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Fair ac Ysgol Gynradd Georgetown; a
- Gosod technolegau carbon isel/di-garbon newydd mewn adeiladau newydd a gwaith adnewyddu mawr yn Ysgol Gynradd newydd Glyncoed, Capel y Drindod, Hen Lyfrgell Abertyleri, a'r Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg newydd

Mae gwaith o amgylch datblygu Prosiectau Ynni yn parhau gyda chynnydd yn cael ei wneud ar Dyrbin Gwynt Dyffryn Tawel. Mae hwn bellach wedi cael caniatâd cynllunio a bydd yn cael ei symud ymlaen i gaffael pan fydd yr achos dros fuddsoddi yn cael ei ailbenderfynu. Mae gwaith yn parhau ar ddatblygu a gosod seilwaith ar gyfer fflyd Blaenau Gwent, ysgolion ac adeiladau'r Cyngor.

Bioamrywiaeth

Mae gan bob Cyngor yng Nghymru ddyletswydd gyfreithiol drwy Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd y Cyngor argyfwng natur yn ffurfiol i gydnabod y bygythiad sylweddol a achosir gan fioamrywiaeth sy'n dirywio o fewn y fwrdeistref. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn a diogelu bioamrywiaeth leol ar gyfer y dyfodol, mabwysiadodd y Cyngor [Gynllun](#) Gweithredu Adfer Natur Lleol sy'n anelu at leihau neu atal colli cynefinoedd naturiol ymhellach.

Mae gan y cynllun 6 amcan allweddol:

- **Amcan 1:** Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.
- **Amcan 2:** Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well.
- **Amcan 3:** Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd.
- **Amcan 4:** Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd.
- **Amcan 5:** Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro; a
- **Amcan 6:** Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar wait hi gyflawni'r amcanion.

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth i weithredu'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun ac wedi gwneud rhywfaint o gynnydd gan gynnwys dynodi dros 140 o safleoedd o werth sylweddol ar gyfer cadwraeth natur i sicrhau eu bod yn cael eu gwarchod a byddant yn cael eu gwarchod trwy bolisiau lleol a chenedlaethol.



Mae [Polisi](#) Peillwyr hefyd wedi'i gynhyrchu a'i gymeradwyo gan y Cyngor yn 2024 i hyrwyddo creu cynefinoedd sy'n gyfeillgar i beillwyr ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor, mae'r polisi'n amlinellu sawl cam gweithredu sy'n cynnwys; lleihau nifer y toriadau i ardaloedd glaswelltog i ganiatáu cyfnod tyfu hirach, cyflwyno cymysgedd blodau gwyllt brodorol lluosflwydd i welyau ffurfiol a lle bo'n briodol i fannau gwyrdd ardaloedd trefol eraill barhau i ddatblygu mwy o gynefinoedd ar gyfer gwenyn unigol e.e. banciau gwenyn, glaswelltau, tyllau coed a gwestai pryfed.

Storm Bert

Ym mis Tachwedd 2024 daeth Storm Bert â dinistr ar draws De Cymru, ac effeithiwyd yn ddwfn ar lawer o gymunedau ym Mlaenau Gwent. Roedd y tywydd eithafol a brofwyd yn fwy na'r holl ragfynegiadau, gyda glawiad a dorrodd record mewn rhai ardaloedd o'n bwrdeistref. Roedd hon yn her eithriadol i'r Cyngor, y gwasanaethau brys, a'r cymunedau.

Blaenoriaeth gyntaf y Cyngor oedd diogelu bywydau trigolion, amddiffyn eiddo lle bo modd, a chadw seilwaith hanfodol. Er gwaethaf cynllunio a pharatoadau, yn seiliedig ar y rhagolygon oedd ar gael, aeth dwyster ac effaith y storm y tu hwnt i unrhyw beth a ragwelwyd. Effeithiwyd ar gartrefi, busnesau, ysgolion, ffyrdd a chyfleusterau gofal plant i gyd. Roedd nifer y galwadau brys a dderbyniwyd yn ddigynsail.

Achosodd y Storm dirlithriad yng Nghwmtyleri hefyd gan achosi aflonyddwch a thrallod sylweddol. Wrth i ni edrych i'r dyfodol, gwyddom fod digwyddiadau fel y rhain yn dod yn amlach oherwydd newid hinsawdd. Bydd meithrin gwydnwch yn ein cymunedau yn hanfodol, a byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i sicrhau ein bod wedi paratoi'n well ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau. Cynhaliwyd dadfriffio ac adolygiad llawn o ymateb y Cyngor, a chynhaliwyd adolygiad annibynnol hefyd. O hyn, sefydlwyd gweithgor aelodau er mwyn mynd i'r afael â gwersi a ddysgwyd a pharatoi ar gyfer unrhyw dywydd eithafol yn y dyfodol

Trafnidiaeth Gyhoeddus

Mae'r gwaith bellach wedi'i gwblhau ar y prosiect gwella amllder ar linell Glynebwy a gyflawnwyd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a Network Rail. Bellach mae gwasanaethau uniongyrchol rhwng Glynebwy a Chasnewydd a Chaerdydd, gyda 2 drên yr awr o Lynebwy. Mae'r prosiect hefyd wedi gweld pont droed Mynediad i Bawb gwbl hygyrch, platfform newydd a maes parcio yn Llanhilledd. Er mwyn caniatáu i'r gwasanaethau newydd redeg, mae dolen basio newydd 7 milltir wedi'i hadeiladu rhwng Crosskeys ac Aber-big ochr yn ochr â gwaith pridd a draenio newydd, a adeiladwyd i ddarparu ar gyfer y trac newydd gan wella cysylltedd a mynediad i drigolion a busnesau gyda'r rhanbarth ehangach a thu hwnt.

Priffyrdd

Cymeradwywyd cwblhau a mabwysiadu ffurfiol y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (HAMP) gan y Cyngor ym mis Medi 2023. Bydd y HAMP yn cefnogi ac yn gyrru dull yr Awdurdod o gynnal a chadw priffyrdd dros y 5 mlynedd nesaf.

Defnyddiwyd dull bandio newydd ar gyfer selio patsys / tyllau yn y ffordd ar draws rhwydwaith y priffyrdd gyda'r nod o wneud i'r gorffeniad edrych yn fwy esthetig, ond yn bwysicach fyth, ymestyn oes y briffordd wedi'i hatgyweirio ac atal ymweliadau lluosog. Yn ogystal, mae'r cyngor yn y broses o dreialu dull newydd ar gyfer patsio a gwaith tyllau yn y ffordd gan ddefnyddio JCB Bobcat sy'n profi i fod yn gadarnhaol iawn.

Yn y dyfodol mae'r cyngor wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru trwy eu Menter Benthycu Llywodraeth Leol (LGBI) ar gyfer 2025/26 a 2026/27 lle rhagwelir y bydd hyn yn cael effaith fawr ar gynnal a chadw seilwaith y priffyrdd.



Heriau Allweddol a Nodwyd ar gyfer Gweithredu yn 2025/26

- Er mwyn gwella'r defnydd o fesurau gwella ynni ar draws cartrefi, mae'r Cyngor yn archwilio llwybrau cyflenwi cyflenwol i gynyddu'r defnydd o ECO4Flex ar draws y fwrdeistref
- Bydd meithrin gwydnwch yn ein cymunedau o ran digwyddiadau hinsawdd yn hanfodol, a byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i sicrhau ein bod wedi paratoi'n well ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau trwy weithredu ein cynllun gweithredu rheoli llifogydd
- Parhau i weithio i gyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70% sydd wedi'i gynnwys fel rhan o'n dangosyddion perfformiad. Mae swyddogion wedi ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, trwy Bartneriaethau Lleol a WRAP, i ddatblygu Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd sy'n manylu ar weledigaeth y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth a chamau gweithredu pellach sydd eu hangen
 - *Camau nesaf – ymgynghori â'r cyhoedd yn ystod 25/26 ar Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd y Cyngor*
- Gweithredu'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol newydd a'r Polisi Peillwyr i ymateb i'r argyfwng natur




Dangosydd Perfformiad	Data						
	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	Perfformiad
Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol a anfonir i safleoedd tirlenwi Targed - 2% (Y Ffigur Is sydd Orau)	0.3	0.6	1.3	0.31	0.17	0.29 (ffigur heb ei wirio)	Wedi gostwng ond uwchlaw'r Targed
Canran y gwastraff trefol a losgir gydag adfer ynni Targed 45% (Y Ffigur Is sydd Orau)	44.3	46.7	45.2	44.20	44.0	41.9 (ffigur heb ei wirio)	Yn gwella
Swm a fuddsoddwyd mewn llwybrau teithio llesol (£) (Y Ffigur Uwch sydd Orau)	-	234,000	295,000	766,154.73	756,296.62	968,989.40	Yn gwella
Canran gyfartalog o geisiadau cynllunio a benderfynwyd ar amser (cyfartaledd cronnus dros flwyddyn) Targed 95% (Y Ffigur Uwch sydd Orau)	-	96%	91%	93%	95%	98%	Yn gwella
% caffaeliadau sy'n ystyried Amcanion Cymdeithasol a Llesiant (gan gynnwys Datgarboneiddio ac Economi Sylfaen ac ati) Targed 100% (Y Ffigur Uwch sydd Orau)	-	-	-	70	100	100	Yn cael ei gynnal



Amcan Llesiant 3

Grymuso a chefnogi cymunedau i fod yn ddiogel, annibynnol a gwydn

Pam Mae Hyn yn Bwysig fel Maes Ffocws - Mae'r Cyngor eisiau annog a chefnogi pobl i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach er mwyn galluogi plant, pobl ifanc a theuluoedd i ffynnu. Mae ymchwil wedi profi y bydd pobl sy'n dangos ymddygiadau iechyd cadarnhaol o'u genedigaeth drwy gydol eu hoes yn arwain at fwy o annibyniaeth, a phobl yn rhydd o gyflyrau iechyd cymhleth yn ddiweddarach mewn bywyd. Gallai hyn yn ei dro leihau'r galw am wasanaethau a sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir o ansawdd uchel, yn effeithlon ac yn ymatebol i anghenion pobl leol. Gyda llai o gyllid a galw cynyddol am wasanaethau, ni all y Cyngor wneud popeth y mae wedi'i wneud yn y gorffennol mwyach. Rhaid canolbwyntio ar y camau gweithredu hynny a fydd â'r effaith fwyaf. Mae diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed yn y gymuned yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor ochr yn ochr â thrawsnewid dyheadau trigolion a gwerthfawrogi tegwch a chydaddoldeb ym mhopeth a wnawn.




Yr Hyn yr Ydym yn Anelu at Ei Gyflawni - Cynnydd yng ngwydnwch cymunedau, lle mae croeso i bawb a'u bod yn ddiogel ac sy'n lleihau dibyniaeth ac yn cynyddu annibyniaeth i'r eithaf.

Pa mor dda ydyn ni'n gwneud?

Mae'r naratif canlynol yn rhoi myfyrdod gwerthusol o'r gweithgaredd, a gynhaliwyd drwy gydol 2024/25, ar draws meysydd gwasanaeth sy'n cefnogi'r Amcan Llesiant hwn yn uniongyrchol. Mae'r naratif yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi mynd yn dda ond hefyd, ac yn bwysicach fyth, ble rydym yn profi heriau. Yna mae'r heriau hyn wedi'u casglu at ei gilydd ar ddiwedd pob adran. Bydd y meysydd hyn yn cael eu nodi fel meysydd ffocws wrth symud ymlaen a byddant yn cael eu hadrodd fel rhan o'n Hunanasesiad nesaf, yn ogystal â monitro perfformiad drwy gydol y flwyddyn.

Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

Mae Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i gael Timau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) pwrpasol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ac Oedolion sy'n gweithio fel y pwynt cyswllt cyntaf i'r cyhoedd sydd am gael cyngor a chymorth. Mae'r timau'n mabwysiadu dull ataliol ac sy'n seiliedig ar gryfderau i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu cyn gynted â phosibl, trwy ddarparu'r gwasanaethau cywir i atal anghenion rhag gwaethygu.




Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a gyflenwyd. Gellir adeiladau unedau tai yn unig yn dibynnu ar faint o grant a dderbynnir gan yr awdurdod lleol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r holl gyllid yn cael ei ddyrannu i gefnogi datblygiad unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn flynyddol.	7	67	43	6 uned Cyfanswm o (5 uned wedi'u cyflenwi drwy Grant Tai Cymdeithasol 1 uned wedi'i gyflenwi drwy S106)	Cyfanswm o 25 uned (25 uned wedi'u cyflenwi drwy Grant Tai Cymdeithasol 0 uned wedi'u cyflenwi drwy S106)	35 uned wedi'u darparu drwy Grant Tai Cymdeithasol 1 uned wedi'i darparu drwy'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol (TACP)	Yn unol â grant Llywodraeth Cymru
Niferoedd sy'n aros ar y gofrestr tai cymdeithasol (Y Ffigur Is sydd Orau)	2,151	1,218	4,191	4,688	2,735	2,617	Yn gwella
Nifer y grantiau cyfleusterau i bobl anabl a gwblhawyd (Y Ffigur Uwch sydd Orau)	Ddim yn berthnasol	30	31	63	91	53	Yn dirywio
Cynllun Cartrefi i Wcraïn: • Gwesteion • Cyfran y Boblogaeth (Y Ffigur Uwch sydd Orau)	-	-	-	57 74%	72 91%	70 89%	Yn dirywio



Amcan Llesiant 4

Cyngor uchelgeisiol ac arloesol sy'n darparu gwasanaethau o safon ar yr amser iawn ac yn y lle iawn

Pam Mae Hyn yn Bwysig fel Maes Ffocws - Mae'r Cynllun Corfforaethol yn darparu'r ffocws ar gyfer cyflawni newid parhaol i'r ardal. Mae hefyd yn darparu'r llwyfan ar gyfer trawsnewid Blaenau Gwent yn Gyngor mwy hyderus a galluog. Yr uchelgais yw cyflawni canlyniadau gwell i bobl Blaenau Gwent ac mae'r uchelgais honno wedi'i hategu gan gynlluniau cadarn a chynaliadwy, gan sicrhau y gellir dwyn y Cyngor i gyfrif am yr hyn y mae wedi addo ei gyflawni. Mae cynyddu effaith adnoddau i'r eithaf i gyflawni'r canlyniadau hynny wrth wraidd y flaenoriaeth hon, gan gynnwys; deall costau, rheoli gwariant, cynyddu incwm i'r eithaf ac alinio adnoddau ag anghenion trigolion, busnesau ac ymwelwyr i adeiladu Blaenau Gwent ar gyfer y dyfodol.



Yr Hyn yr Ydym yn Anelu at Ei Gyflawni – Mae Cyngor Blaenau Gwent yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion lleol, a gwella ansawdd bywyd a llesiant yn y gymuned.

Pa mor dda ydyn ni'n gwneud?

Mae'r naratif canlynol yn rhoi myfyrdod gwerthusol o'r gweithgaredd, a gynhaliwyd drwy gydol 2024/25, ar draws meysydd gwasanaeth sy'n cefnogi'r Amcan Llesiant hwn yn uniongyrchol. Mae'r naratif yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi mynd yn dda ond hefyd, ac yn bwysicach fyth, ble rydym yn profi heriau. Yna mae'r heriau hyn wedi'u casglu at ei gilydd ar ddiwedd pob adran. Bydd y meysydd hyn yn cael eu nodi fel meysydd ffocws wrth symud ymlaen a byddant yn cael eu hadrodd fel rhan o'n Hunanasesiad nesaf, yn ogystal â monitro perfformiad drwy gydol y flwyddyn.

Cyllid ac Adnoddau

Mae ein perfformiad ariannol ar gyfer 2023/24 wedi'i gynnwys yn ein Datganiad o [Gyfrifon](#). Nid yw'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/2024 wedi'i gwblhau ac ni chyflawnwyd y terfynau amser statudol.

Profodd y Cyngor oedi wrth orffen a chwblhau archwiliad Datganiad o Gyfrifon 2022/23 sydd wedi effeithio ar gyfrifon 2023/24 a 2024/25. Roedd problem arwyddocaol a nodwyd yn ystod archwiliad allanol Datganiad o Gyfrifon 2022/23 y Cyngor yn ymwneud â methiannau llywodraethu / diffyg goruchwyliaeth y cyngor o'r cytundeb menter ar y cyd rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru (LIC) ar gyfer datblygiad Lime Avenue. Gosododd y cytundeb rwymedigaeth sylweddol ar y Cyngor gan fod y trefniant wedi'i wneud heb ystyriaeth ddyledus gan uwch arweinwyr y cyngor. Ym mis Mawrth 2025, gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, diwygiwyd telerau Cyd-fenter Lime Avenue. Dileodd y newidiadau'r gofyniad i'r Cyngor brynu cyfran cyfalaf Llywodraeth Cymru ar ddiwedd y cytundeb ac, o ganlyniad, o ddyddiad y cytundeb ymlaen, mae'r rhwymedigaeth sylweddol hon wedi'i dileu.

Mae Cyfansoddiad a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor yn cael eu gwella i ddiffinio cyfrifoldebau dirprwyedig yn gliriach, gan nodi bod rhaid i unrhyw gytundebau cytundebol sy'n gosod rhwymedigaethau hirdymor sylweddol ar y Cyngor gael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y swyddog Adran 151 neu eu cynrychiolydd cyn iddynt gael eu gwneud. Mae amgylchiadau ac effaith y mater hwn hefyd wedi'u hamlygu i uwch arweinwyr ar draws y sefydliad i godi ymwybyddiaeth o risgiau ac effaith yn y dyfodol.



Mae paratoi ac archwilio cyfrifon terfynol 2023/24 bron â'i gwblhau gyda'r cyfrifon terfynol ac adroddiad Archwilio Cymru gysylltiedig wedi'u hamserlennu i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 28 Gorffennaf 2025. Y dyddiad targed ar gyfer paratoi'r cyfrifon drafft ar gyfer 2024/25 yw Medi 2025. Gwnaed cynnydd sylweddol wrth fynd i'r afael â'r materion sydd wedi cyfrannu at yr oedi, a disgwylir y bydd paratoi cyfrifon blynyddol 2025/26 a'r blynyddoedd i ddod yn cael ei gyflawni yn unol â'r terfynau amser statudol.

Caiff cyllideb y Cyngor ei monitro'n barhaus i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n economaidd ac yn effeithlon, gan alluogi cynllunio tymor canolig a hirdymor effeithiol. Mae prosesau cynllunio a rheoli ariannol cadarn ar waith, gyda diweddariadau rheolaidd ar sefyllfa ariannol y Cyngor yn cael eu darparu i uwch swyddogion a thrwy'r broses ddemocrataidd.

Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) yw offeryn cynllunio ariannol craidd y Cyngor. Mae'n gynllun treigl sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol ac mae'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd i adlewyrchu amgylchiadau newidiol a phenderfyniadau polisi sy'n effeithio ar gyllid y Cyngor. Mae'r MTFS yn rhagweld gwariant y Cyngor a'r arbedion gofynnol dros gyfnod o bum mlynedd i gyflawni cyllideb gytbwys. Mae'r rhagdybiaethau allweddol yn cynnwys AEF – cynnydd o 3% o 2026/27 ymlaen; y Dreth Gyngor – cynnydd blynyddol o 4%; Dyfarniadau Cyflog – 3% yn flynyddol; Chwyddiant – 2% y flwyddyn.

Y cyllid refeniw sylfaenol a dderbyniodd y Cyngor yn 2023/24 gan Lywodraeth Cymru, ar ôl caniatáu ar gyfer trosglwyddiadau, oedd £139.7m, cynnydd o 6.5% (£8.5m). Y cynnydd cyfartalog Cymru gyfan yn y Setliad Llywodraeth Leol oedd 7.9%.

Ar gyfer 2024/25, derbyniodd y Cyngor gynnydd o 2.8% (£3.95m) mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru. Er bod y cynnydd hwn yn cael ei groesawu, mae'r hinsawdd economaidd bresennol a'r argyfwng costau byw yn cyflwyno heriau ariannol sylweddol. Rhaid i'r Cyngor gyflawni gostyngiadau cyllideb o £1.93m ar gyfer 2025/26 a £34m dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig pum mlynedd.

I fynd i'r afael â'r heriau hyn, rhaid i'r Cyngor ailstyried sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu i gyflawni arbedion a chynhyrchu incwm. Gall hyn olygu lleihau, newid neu roi'r gorau i rai gwasanaethau, neu archwilio modelau darparu amgen. I gefnogi hyn, cyflwynwyd cyfarfod cynllunio ariannol - yn seiliedig ar ddull Cyngor Torfaen - o dan yr enw 'Apollo'. Bydd y sesiynau hyn yn llywio ailgynllunio gwasanaethau a chynllunio ariannol.

Nodwyd effeithlonrwydd ariannol gwerth cyfanswm o £6.48m wrth osod y gyllideb, gyda £1.5m mewn cyllid wrth gefn wedi'i glustnodi i gefnogi cyllideb gytbwys.

Mae'r alldro dros dro cyffredinol ar draws yr holl bortffolios yn dangos amrywiad ffafriol o £2.6m, ar ôl tynnu net o £0.56m o gronfeydd wrth gefn penodol. O ganlyniad, nid oedd angen y cyllid wrth gefn o £1.5m i gefnogi'r gyllideb. Yn seiliedig ar yr alldro dros dro, bydd cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn cynyddu £1.1m.

Mae'r sefyllfa ariannol gadarnhaol hon yn bennaf oherwydd y defnydd effeithiol o gyllid grant penodol a'r dyraniad hwyr o grantiau gan Lywodraeth Cymru, a helpodd i wrthbwysu pwysau cost presennol yn ystod y flwyddyn ariannol.



Alldro dros dro datganiad ariannol y gyllideb refeniw ar 31 Mawrth 2025:

Portffolio/ Pwyllgor	£m Cyllideb Refeniw Ddiwygiedig 2024/2025	2024/2025 Alldro Dros Dro 2024/2025	Amrywiad Ffafirol/ (Anffafirol)
	£m	£m	£m
Gwasanaethau Corfforaethol	26.32	25.07	1.25
Gwasanaethau Cymdeithasol	53.55	53.45	0.10
Addysg a Hamdden	74.27	74.85	(0.58)
Yr Economi	1.57	0.52	1.05
Amgylchedd	33.30	32.6	0.70
Cynllunio	1.15	1.03	0.12
Trwyddedu	0.12	0.12	0
Cyfanswm	190.28	187.64	2.64

Mae ein gwaith yn parhau yng nghyd-destun heriau ariannol cynyddol. Rhaid inni barhau i fod yn rhagweithiol wrth reoli gydag adnoddau cyfyngedig drwy fabwysiadu ffyrdd mwy effeithiol ac effeithlon o weithio. Mae'n hanfodol ein bod yn addasu ein harferion gweithredol ac yn ailfeddwl am ddarparu gwasanaethau i fynd i'r afael â'r heriau hyn yn uniongyrchol.

Gan edrych ymlaen, byddwn yn cynnal ein ffocws ar gyflawni effeithlonrwydd ac arbedion, a buddsoddi mewn technolegau newydd i amddiffyn gwasanaethau rheng flaen. Fodd bynnag, rhaid inni hefyd ailfeddwl yn sylfaenol sut mae pob gwasanaeth yn cael ei ddarparu.



Y Gweithlu

Mae gan y Cyngor rai anawsterau gyda recriwtio i rai rolau proffesiynol a thechnegol. Mae rhywfaint o ddibyniaeth ar weithwyr asiantaeth i lenwi absenoldeb staff a rolau a phrosiectau arbenigol sy'n anodd eu llenwi. O Chwarter 4 2024/25, dyma'r wybodaeth am ein gweithlu:

	Y Cyngor (gan gynnwys ysgolion)	Gwasanaethau Corfforaethol	Adfywio/Gwasanaethau Cymunedol	Gwasanaethau Cymdeithasol	Addysg	Ysgolion
Cyfrif pennau'r Gweithwyr	3198	307	928	611	106	1246
Cyfrif pennau'r Gweithwyr Asiantaeth (Matrics)	24	1	21	2	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gweithwyr CALL	2332.31	286.52	540.72	506.64	88.23	910.2
Gweithwyr CALL fel % o Weithwyr CALL y Cyngor	100.00%	12.28%	23.18%	21.72%	3.78%	39.03%
% o swyddi parhaol gwag (dim cyflenwi cyflogedig uniongyrchol)	4.93%	9.84%	6.84%	8.68%	6.67%	N/A
% Trosiant Llafur	3.28%	4.52%	2.89%	3.54%	0.95%	1.02%
Dyddiau a gollwyd oherwydd salwch fesul CALL (alldro cronnus)	13.85	6.02	13.13	17.93	10.70	14.80
% dyddiau a gollwyd oherwydd salwch tymor byr	30%	35%	29%	20%	36%	36%
% dyddiau a gollwyd oherwydd salwch hirdymor	70%	65%	71%	80%	64%	64%
% staff heb unrhyw absenoldeb salwch	74.00%	87.38%	78.07%	76.21%	77.17%	66.91%



Problemau seiciatrig neu iechyd meddwl yw prif achos absenoldeb oherwydd salwch ar draws y Cyngor, gan gyfrif am 25.29% o ddiwrnodau sy'n gysylltiedig â gwaith a gollir.

Mae cyfres o gamau gweithredu ar waith i gynnwys monitro perfformiad yn rheolaidd, gosod targedau ar lefel gwasanaeth a Chyngor a dadansoddi achosion. Cynhelir adolygiad manwl o absenoldeb oherwydd salwch a llesiant yn flynyddol, ac mae hyn yn cael ei graffu gan yr Aelodau.

Hyd at Fawrth 25, roedd 2 achos o allu wedi'u cofnodi yn 2024/25 a 9 achos o gŵyn cyflogaeth, Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y DU ymhlith gweithwyr yn 13.1% (2024). Yn y Cyngor, mae dynion a menywod yn cael eu talu'n gyfartal am wneud swyddi cyfatebol ar draws y busnes. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn dangos bod y gweithlu'n bennaf yn fenywod gyda menywod yn meddiannu canran uchel o swyddi ar draws y pedwar chwarterel cyflog. Mae'r bwlch cyflog ym Mlaenau Gwent yn parhau i fod yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yn flynyddol, disgwylir i'r Cyngor adrodd ar ei berfformiad blynyddol o ran iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith. Mae nifer y damweiniau/digwyddiadau i weithwyr wedi gostwng o 304 yn 2023/24 i 251 yn 2024/2025. Mae nifer y damweiniau nad ydynt yn gysylltiedig â gweithwyr wedi gostwng 299 yn 2023/24 i 221 yn 2024/25.

Mae nifer y damweiniau/digwyddiadau gweithwyr y mae'n rhaid eu hadrodd i'r HSE wedi gostwng ychydig o 19 yn 2023/24 i 18 yn 2024/25.

Diogelu Corfforaethol

Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad dilynol o drefniadau Diogelu Corfforaethol y Cyngor ac adroddodd ar eu canfyddiadau i'r Cyngor ym mis Chwefror 2025. Cyhoeddwyd yr adroddiad gan Archwilio Cymru ym mis Mehefin 2025, yn unol ag adroddiadau'r Cyngor.

Canfyddiadau Archwilio Cymru

Gall cael trefniadau diogelu corfforaethol cadarn roi sicrwydd i Gyngor bod gan bob gweithiwr, aelod etholedig, gwirfoddolwr, llywodraethwr ysgol a chontractwr rôl i'w chwarae wrth ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion a allai fod mewn perygl o niwed.

- Yn 2014, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau'r Cyngor i gefnogi diogelu plant ac ar y pryd gwnaeth dri chynnig ar gyfer gwella
- Yn 2015, cyhoeddodd Archwilio Cyffredinol Cymru adroddiad cenedlaethol yn dilyn adolygiad o drefniadau diogelu corfforaethol ar draws cynghorau Cymru. Gwnaeth yr adroddiad hwnnw wyth argymhelliad, ac roedd saith ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chynghorau ac un yn ymwneud â Llywodraeth Cymru
- Yn 2019, asesodd Archwilio Cymru sut roedd y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwelliannau a'r argymhellion o adroddiadau 2014 a 2015. Ar y pryd, canfuwyd bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd cyfyngedig, ac nad oedd trefniadau diogelu yn ddigon cyson i roi sicrwydd ar draws pob maes gwasanaeth. Nid oedd y Cyngor wedi mynd i'r afael yn llawn ag wyth o'r deg argymhelliad cenedlaethol a chynigion lleol ar gyfer gwella
- Yn 2022, cynhaliwyd adolygiad pellach gan Archwilio Cymru i asesu cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella oedd heb eu gweithredu. Daethpwyd i'r casgliad bod y pandemig wedi gohirio cynnydd y Cyngor ymhellach o ran mynd i'r afael â'r argymhellion, er ei fod wedi cymryd camau diweddar i gryfhau ei drefniadau diogelu corfforaethol. Fodd bynnag, nid oedd y Cyngor wedi mynd i'r afael yn llawn ag argymhellion blaenorol, a chyhoeddwyd dau argymhelliad pellach.



- Ym mis Tachwedd 2024, cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf i asesu a oedd y Cyngor wedi gwneud cynnydd effeithiol ers 2022 wrth fynd i'r afael â'r argymhellion sy'n weddill. O ganlyniad, dim ond ar agweddau ar drefniadau diogelu corfforaethol a gwmpesir gan yr argymhellion hynny y canolbwyntiodd yr adolygiad. Ni wnaeth yr adolygiad gynnwys y meysydd canlynol, gan fod y rhain wedi'u harchwilio o'r blaen fel rhai sydd wedi'u hen sefydlu:
 - pob agwedd ar drefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor
 - trefniadau diogelu penodol mewn Addysg neu Wasanaethau Cymdeithasol
 - trefniadau penodol ar gyfer atgyfeiriadau diogelu; neu
 - canlyniadau atgyfeiriadau diogelu

Ar y cyfan, canfu Archwilio Cymru nad yw'r Cyngor wedi gwneud digon o gynnydd i fynd i'r afael â'r argymhellion diogelu corfforaethol sy'n weddill.

Ers hynny, mae'r Cyngor wedi bod yn cynnal adolygiad llawn o'i drefniadau er mwyn datblygu [cynllun](#) gweithredu sy'n mynd i'r afael yn llawn â'r argymhellion sy'n weddill.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Diogelu Corfforaethol o swyddogion strategol yn ogystal â Grŵp Personau Diogelu Dynodedig gweithredol a fydd yn gweithio i weithredu'r cynllun gweithredu a sicrhau bod diogelu yn parhau i fod yn uchel ar yr agenda ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.

Mae rhywfaint o'r cynnydd hyd yma yn cynnwys:

- Darparu adroddiadau diogelu ar gyfer meysydd gwasanaeth penodol fel y gellir craffu a dadansoddi'n briodol ar y flaenoriaeth bwysig hon gan y Cyngor. Wrth symud ymlaen, gellir gweld yr adroddiadau isod:
 - Diogelu Plant – Pwyllgor Craffu Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd
 - Diogelu Addysg - Pwyllgor Craffu Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd
 - Diogelu Oedolion – Pwyllgor Craffu Oedolion a Chymunedau; a
 - Diogelu Corfforaethol – Pwyllgor Craffu Llywodraethu Corfforaethol ac Adnoddau
- Mae adolygiad o'r Strategaeth Diogelu wedi'i gynnal ac mae i fynd trwy'r broses ddemocrataidd yn ystod 2025
- Mae swyddogion wedi'u cynnwys ar blatfform e-ddysgu'r Cyngor er mwyn ymgymryd â modiwlau dysgu hanfodol, gan gynnwys diogelu

Hybiau Cymunedol

Mae model Hwb Cymunedol y Cyngor yn parhau i gael ei gryfhau, gyda darpariaeth ar draws y fwrdeistref o Lyfrgelloedd gyda chefnogaeth berthnasol ac wedi'u targedu yn seiliedig ar y pedwar llinyn yng nghynllun gweithredu Costau Byw'r Cyngor sy'n canolbwyntio ar gefnogaeth Tai, Bwyd, Tanwydd a Budd-daliadau/Grantiau. Mae swyddogion ar draws pob hwb cymunedol yn parhau i roi cyngor ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys cyllidebu yn ogystal â chyfeirio cwsmeriaid at sefydliadau trydydd parti am gyngor arbenigol. Mae cefnogaeth arall sydd ar gael trwy hybiau cymunedol y Cyngor yn cynnwys cyngor ac arweiniad ar geisiadau am y Dreth Gyngor a bathodyn glas yn ogystal â chefnogaeth i wella sgiliau digidol trigolion.



Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o nifer y trigolion a gefnogwyd trwy'r Hybiau Cymunedol yn ystod y cyfnod yn seiliedig ar leoliadau:

	Abertyleri	Blaenau	Brynmawr	Cwm	Glynebwy	Llanhilledd	Tredeggar	JobCentre Plus	Cyffredinol
Mai	142	10	108	19	144	0	131	0	572
Mehefin	122	14	109	17	156	0	142	3	600
Gorffennaf	112	17	101	12	148	0	112	7	525
Awst	103	10	111	15	157	3	100	1	515
Medi	3	19	109	15	141	4	98	3	413
Hydref	50	30	120	21	169	2	132	4	558
Tachwedd	93	24	89	32	139	21	107	0	543
Rhagfyr	58	11	59	18	106	7	97	0	406
Ionawr	108	18	87	14	97	0	90	0	470
Chwefror	128	17	109	16	171	0	86	0	558
Mawrth	88	23	96	13	144	3	103	0	490

Caffael

Cyflawnwyd Cynllun Caffael Blynyddol 2024/25 yn llwyddiannus gyda dros 100 o gontractau yn cael eu dyfarnu dros y cyfnod o 12 mis.

Mae swyddogion Caffael Corfforaethol yn parhau i gefnogi cyfleoedd caffael cydweithredol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Fel aelod rhagweithiol o rwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol, rydym yn gweithio ar y cyd i wneud y mwyaf o gyfleoedd masnachol a datblygu arfer gorau i gefnogi caffael sy'n gymdeithasol gyfrifol gan gynnwys gwerth cymdeithasol, datgarboneiddio, gwaith teg a diogelu.

Ym mis Chwefror 2025 gwelwyd y newidiadau mwyaf arwyddocaol i ddeddfwriaeth caffael yn y degawd diwethaf gyda Deddf Caffael 2023 a Rheoliadau Caffael 2024 yn dod i rym. Mae cyflwyno'r newidiadau wedi gofyn am adnoddau sylweddol i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus a'i mabwysiadu i weithrediadau busnes fel arfer.



Fel gweinyddwyr systemau, cefnogodd swyddogion uwchraddiad mawr o'r system E-brynu gorfforaethol, a oedd hefyd yn cynnwys yr ehangu i Ysgolion Blaenau Gwent. Hefyd, parhaodd y rhaglen Cerdyn Prynu Corfforaethol i weld ehangu gyda dros 80 o gardiau bellach mewn cylchrediad ar draws gwasanaethau corfforaethol ac ysgolion.

Dangosodd y Gwasanaeth Caffael berfformiad cryf mewn cynllunio strategol, cyflawni gweithredol, a chydymffurfiaeth. Er gwaethaf heriau allanol sylweddol (e.e., newidiadau deddfwriaethol, ansolfedd contractwyr, mudo systemau), cynhaliodd y tîm barhad y gwasanaeth a chefnogodd ystod eang o brosiectau hanfodol. Bydd ffocws parhaus ar welliannau i systemau, hyfforddi staff, a chomisiynu cydweithredol yn allweddol i gynnal perfformiad yn 2025/26.

Yn 2024 cynhaliodd Archwilio Cymru archwiliad yn canolbwyntio ar y trefniadau sydd gan y Cyngor ar gyfer comisiynu [gwasanaethau](#). Cyflwynwyd y canfyddiadau a'r argymhellion i Uwch Swyddogion i weithredu arnynt. Adroddwyd ar gynnydd yr argymhellion trwy broses ddemocrataidd y Cyngor a gellir eu canfod [yma](#).

Yr Iaith Gymraeg

Mae [Strategaeth](#) Hybu'r Gymraeg y Cyngor wedi'i datblygu yn unol â tharged Llywodraeth Cymru o gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru erbyn 2050.

Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran gwella fframwaith monitro perfformiad y Cyngor drwy'r broses gynllunio busnes mewnol. Nawr, mae'n ofynnol i bob cyfarwyddiaeth a maes gwasanaeth gyflwyno diweddariadau chwarterol yn manylu ar eu cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg a'r camau gweithredu a gymerwyd i gefnogi'r amcanion a amlinellir yn Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022/27.

Mae data'r Cyngor ar gyfer 2024/25 yn dangos bod y Cyngor wedi nodi 42 aelod o staff sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl. Cyfanswm y staff sydd â sgiliau siarad Cymraeg yn amrywio o 'rhugl', 'eithaf da', 'cymedrol', 'sylfaenol' i Lefel Cwrteisi/Mynediad, yw 629. Mae hyn yn gynnydd o 24 aelod o staff o'i gymharu â chyfnod adrodd 2023/24 (adroddodd 605 aelod o staff yn 2023/24).

Anogir staff i gymryd rhan mewn hyfforddiant iaith Gymraeg drwy Dysgu Cymraeg, gyda chysiau dan arweiniad tiwtor am ddim ar gael. Mae 629 o staff wedi nodi rhywfaint o allu siarad Cymraeg, gyda gwelliannau mewn sgiliau darllen ac ysgrifennu. Mae ymdrechion yn parhau i annog staff i ddiweddarau eu sgiliau iaith a defnyddio'r Gymraeg mewn rhyngweithiadau yn y gweithle. Mae negeseuon ffôn awtomataidd a hyfforddiant staff wedi'u diweddarau i sicrhau darpariaeth gwasanaeth dwyieithog a chrëwyd sianel Teams i gysylltu staff sy'n siarad Cymraeg ar gyfer trin galwadau.

Mae Cyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi'i sicrhau i gefnogi gwelededd a gweithgareddau'r iaith Gymraeg. Mae digwyddiadau fel Dydd Miwsig Cymru, Diwrnod Caws Pob Cymru, a Diwrnod Shwmae Su'mae wedi'u dathlu i hyrwyddo diwylliant Cymru. Cymerodd busnesau ac ysgolion lleol ran weithredol mewn mentrau iaith Gymraeg.

Mae derbyniadau i ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu, ac mae astudiaeth ddichonoldeb wedi'i chynllunio ar gyfer darpariaeth bellach. Agorodd Ysgol Gymraeg Tredegar mewn lleoliad dros dro, gyda chynlluniau ar gyfer adeilad parhaol erbyn Hydref 2025/26.

Cynhaliwyd adolygiad i ystyried prosesau recriwtio a gallu yn y Gymraeg. Dros y 12 mis diwethaf dim ond 1 rôl sydd wedi mynd allan fel un hanfodol yn y Gymraeg ac mae'n bwysig i'r Cyngor ystyried rolau y dylai fod â rhyw fath o allu yn y Gymraeg; bydd hyn yn ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod.



Ym mis Tachwedd 2021, agorodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg (SCyG) ymchwiliad gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn dilyn pryderon ynghylch a oedd y Cyngor yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o ran darparu gwasanaeth ffôn yn Gymraeg.

- **Ebrill 2022** - rhoddodd y Cyngor ymateb cychwynnol i'r ymchwiliad, a gododd, yn ei dro, bryderon pellach ynghylch cydymffurfio o ran hyrwyddo gwasanaethau, asesu sgiliau iaith staff, darparu cyfleoedd hyfforddi, ac asesu anghenion iaith swyddi. Arweiniodd hyn at ehangu cylch gorchwyl yr ymchwiliad i gynnwys nifer o safonau gweithredol ychwanegol
 - Ym **mis Medi 2022**, darparwyd penderfyniad terfynol yr ymchwiliad i'r Cyngor yn amlinellu'r camau sydd eu hangen i gyrraedd cydymffurfiaeth a'r amserlenni cyflawni disgwyledig. Gofynnodd hefyd i'r Cyngor fwrw ymlaen â threfnu datblygu Cynllun Gweithredu
 - **Ionawr 2023** – cymeradwywyd y cynllun gweithredu gan dîm Arwain y Cyngor
 - **March 2023** - ffurfiwyd grŵp craidd i gefnogi gweithrediad y Cynllun Gweithredu
- Gorffennaf 2024** - derbyniwyd cadarnhad gan y Cydlynnydd iaith ar 1 Gorffennaf 2024 bod yr ymchwiliad wedi'i weithredu'n llwyddiannus ac felly wedi'i gau

Yn dilyn casgliad yr Ymchwiliad i Gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg yn 2024, mae staff ein canolfan gyswllt wedi bod yn cymryd rhan mewn sesiynau ymarfer rheolaidd dan arweiniad ein Swyddog Cymorth y Gymraeg. Mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar weithdrefnau ffôn, geiriau allweddol, ac ymadroddion hanfodol, gan sicrhau bod staff yn cynnal cywirdeb o ran proses ac ynganiad. Maent hefyd yn rhoi cyfle gwerthfawr i staff fireinio eu cyfarchion ac ateb unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt. Mae'r fenter wedi cael ei derbyn yn frwdfrydig, gan arwain at hwb amlwg yn hyder staff wrth ymdrin â galwadau ar y llinell ffôn Gymraeg.

Ym mis Mehefin 2024, dechreuodd SCyG ymchwilio i Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin am ddefnydd cyfyngedig o'r iaith Gymraeg ar-lein ac ym Mharc Bryn Bach. Roedd yn ofynnol i'r Cyngor a'r Ymddiriedolaeth ddatblygu Cynllun Gweithredu, a gymeradwywyd ym mis Medi 2024 gyda dyddiad cau cwblhau o fis Mawrth 2025. Cyfarfu arweinwyr gweithredu bob chwe wythnos i fonitro cynnydd a sicrhau cydymffurfiaeth. Ym mis Mawrth 2025, caeodd SCyG yr ymchwiliad, heb fod angen unrhyw gamau gweithredu pellach. Mae Grŵp Swyddogion Cydymffurfio Craidd y Gymraeg yn parhau i oruchwyllo cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg gydag aelodaeth a chylch gorchwyl wedi'u diweddaru.

Cwynion a Chanmoliaeth

Mae'r Cyngor wedi gwella'r ffordd y caiff cwynion a chanmoliaeth eu hadrodd o fewn y sefydliad drwy greu dangosfwrdd rhyngweithiol Gwybodaeth Perfformiad. Mae'r offeryn hwn yn galluogi'r darllenydd i archwilio'r cwynion a'r ganmoliaeth a gyflwynwyd i'r sefydliad dros y pedair blynedd diwethaf yn ogystal â gallu nodi nifer y cwynion fesul maes gwasanaeth a dderbyniwyd. Yn ystod y flwyddyn, cofnodwyd 213 o achosion o adborth ar draws y Cyngor.

Roedd y 213 achos hyn yn cynnwys:

- 125 o gwynion corfforaethol
- 19 o gwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol; a
- 69 canmoliaeth

Ar gyfer y cyfnod caewyd (cwblhawyd) 142 o achosion. Ar gyfer y Cwynion Corfforaethol, cwblhawyd 78% (98) o fewn yr amserlen, roedd 18% (22) ar ôl yr amserlen, ond o fewn 20 diwrnod gwaith a 4% (5) o fewn 3 mis. O'r cwynion Corfforaethol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod, ni chadarnhawyd 50, cadarnhawyd 63 a chanslwyd 12.



Ar gyfer y cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol, caewyd 6 chwyn o fewn yr amserlen, 8 o fewn 3 mis a 3 o fewn 6 mis ac ni chymerodd yr un ohonynt fwy na 6 mis. O'r cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol a gaewyd yn ystod y cyfnod, ni chadarnhawyd 7 chwyn, cadarnhawyd 1 gŵyn a chanfuwyd nad oedd yr ymchwiliad yn haeddiannol mewn 9 o'r cwynion a dderbyniwyd neu rhoddwyd y gorau i'r ymchwiliad.

Llywodraethu Gwybodaeth

Yn ystod y cyfnod, derbyniodd y Cyngor gyfanswm o 959 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI). Mae hyn yn is na'r flwyddyn flaenorol lle derbyniwyd 1044 o geisiadau. O dan ddeddfwriaeth, disgwylir i'r Cyngor ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi cyflawni cyfradd ymateb o fewn yr 20 diwrnod gwaith a ganiateir o 88%. Fodd bynnag, yn 2024/2025, gwnaed gwelliannau i hyn ac mae cyfradd ymateb o 91.6% (878 allan o 959) wedi'i chyflawni.

Manylion	Cyfanswm 2023/24	Cyfanswm 2024/25
Cyfanswm y ceisiadau FOI a dderbyniwyd	1044	959
Cyfradd llwyddiant o fewn 20 diwrnod gwaith	918 (87.93%)	878 (91.6%)
Yn hwyr ond wedi'i ddarparu	90 (8.62%)*	78 (8.1%)
Dal heb ei wneud	36 (3.45%)*	3 (0.3%)

*cymerwyd y ffigurau hyn tua'r un dyddiad y llynedd ond maent wedi gwella ers hynny

Eleni derbyniodd y Cyngor gyfanswm o 88 o ymholiadau i wneud Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun a derbyn copïau o'r wybodaeth a gedwir amdanynt eu hunain yn unol â Deddfwriaeth Diogelu Data. Mae hyn yn gynydd bach ar yr 83 a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod blaenorol ac mae'n cynnal y cynnydd sylweddol o 60 o ymholiadau yn y cyfnod 2022/2023. Ni chaniateir i'r Cyngor o dan y ddeddfwriaeth ofyn am resymeg na chyfiawnhad ynghylch pam mae'r ceisydd yn gwneud yr ymholiad felly mae deall y rhesymeg y tu ôl i'r cynnydd hwn yn anodd heblaw tybio bod y cyhoedd yn fwy ymwybodol o'u hawliau o dan y ddeddfwriaeth a bod staff yn gallu adnabod ceisiadau o'r fath yn well i sicrhau bod y broses gywir yn cael ei dilyn.

Cyn rhyddhau unrhyw wybodaeth i geisydd, er mwyn cynnal preifatrwydd a diogelwch, mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu yn gyntaf bod gan bob ceisydd hawl i dderbyn y wybodaeth, cyn y gellir ystyried bod y cais yn ddilys. I wneud hyn, ac i sicrhau cysondeb ar gyfer pob cais, mae'r Cyngor yn gofyn am ddogfen adnabod gan bob ceisydd i ddangos eu hawl a phrofi hunaniaeth. Am amrywiaeth o resymau, mae nifer o geiswyr yn methu ag ymateb i'r ymarfer sgrinio cychwynnol. Ar gyfer y cyfnod 2024/2025, o'r 88 cais a dderbyniwyd am Fynediad at Ddata gan y Testun, dim ond 46 a ystyriwyd yn ddilys trwy ddarparu'r ddogfen adnabod berthnasol. Mae hyn yn ostyngiad ar y llynedd lle cyflawnodd 54 statws dilys.


Caniateir Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun Safonol am 30 diwrnod calendr o'r amser y daw'n ddilys i ddarparu'r wybodaeth i'r ceisydd. Mewn amgylchiadau prin, caniateir ymestyn yr amser o'r 30 diwrnod safonol i 90 diwrnod lle gellir dangos bod cais yn fawr neu'n gymhleth. Yn 2024/2025 dim ond 3 chais a gafodd yr estyniad amser ar gyfer Blaenau Gwent.

Yn ystod cyfnod 2024/25, darparwyd copïau o'r wybodaeth i gyfanswm o 37 allan o 46 cais dilys o fewn yr amser a ganiateir. O'r 9 a aeth y tu hwnt i'r amser a ganiateir, yr amser cyfartalog i gyflawni'r cais oedd 63 diwrnod o'i gymharu â 16 diwrnod ar gyfer ceisiadau a gwblhawyd o fewn y cyfnod amser a ganiateir.



Yn ystod cyfnod 2024/25, cofnododd y Cyngor cyfan gyfanswm o 42 o achosion o dor diogelwch data ond dim ond nifer fach o'r rhain oedd angen eu hadrodd i'r ICO. Mae hyn yn gynydd o 34 yn y cyfnod 2023/2024 ond o fewn yr un braced o rhwng 30-45 y flwyddyn ag a nodwyd dros y 5 mlynedd diwethaf. Gellid ystyried cynnydd yn nifer yr achosion o dor diogelwch data a adroddwyd, er nad yw'n duedd ddymunol, fel rhywbeth

cadarnhaol hefyd gan y gallai olygu bod staff yn dod yn fwy ymwybodol o'u rhwymedigaethau ac yn barod i adrodd am ddigwyddiadau drwy'r sianeli priodol, ac mae hyn yn ei dro yn galluogi'r Cyngor i ymdrin â'r digwyddiadau'n gywir yn unol â'r ddeddfwriaeth.



Aelodau Etholedig a'r Cyfansoddiad

Mae'r Cyngor wedi nodi safonau ymddygiad gofynnol ac wedi darparu canllawiau i helpu i gynnal a gwella safonau. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ddogfen allweddol sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, a'r gweithdrefnau a ddilynir i sicrhau bod y rhain yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae hefyd yn cynnwys cod ymddygiad ar gyfer swyddogion ac aelodau.

Mae gan y Cyngor drefniadau cynhwysfawr ar waith ar gyfer Aelodau Etholedig. Fel rhan o hyn, mae Rhaglen Datblygu Aelodau helaeth ar waith, sy'n cyd-fynd â rhaglenni gwaith y Pwyllgorau a blaenoriaethau'r Cyngor yn ogystal â'r broses Adolygu Datblygiad Personol (PDR) sydd ar waith ar gyfer aelodau. Mae amrywiaeth o ddeunyddiau hyfforddi, canllawiau a dogfennaeth ar gael i aelodau ac mae hyn wedi'i gynnwys mewn llyfrgell aelodau ar-lein.

Yn ystod 2024/25 roedd gan y Cyngor bedwar Pwyllgor Craffu ar waith:

- Pwyllgor Craffu Corfforaethol a Pherfformiad
- Pwyllgor Craffu Partneriaethau
- Pwyllgor Craffu Pobl; a
- Pwyllgor Craffu Lleoedd

Mae pob Pwyllgor yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol gan gynnwys cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r broses o wneud penderfyniadau wedi'i dogfennu, a gall Pwyllgorau Craffu'r Awdurdod 'alw i mewn' benderfyniad sydd wedi'i wneud gan y Cabinet ond heb ei weithredu eto. Ni alwyd i mewn unrhyw benderfyniadau yn ystod 2024/25.

Cynhelir gwerthusiadau ar ôl pob cyfarfod craffu i adolygu'r prosesau sydd ar waith a lle gellir ceisio gwelliant pellach. Anfonwyd holiadur gwerthuso blynyddol hefyd at bob aelod ym mis Chwefror 2025, ac roedd y gyfradd ymateb yn 45% (15 Aelod).



Roedd y gwersi a ddysgwyd o hyn yn cynnwys:

- Cymorth cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a rheoli amser – gwybodaeth wedi'i chynnwys yn Llyfrgell yr Aelodau, a Hyrwyddwr Llesiant yr Aelodau wedi'i nodi
- Diogelwch Cynghorwyr – gwybodaeth wedi'i chynnwys yn Llyfrgell yr Aelodau a gweithgor ar waith i edrych ar ddiogelwch aelodau
- Cyfranogiad aelodau yn y Blaenraglen Waith – cyfarfod â Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion a'r Blaenraglen Waith yn eitem i'w thrafod yng nghyfarfod cyntaf pob pwyllgor
- Hyfforddiant atgoffa i aelodau – Rhaglen Datblygu Aelodau helaeth ar waith, llyfrgell yr Aelodau ar gael, mae gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLLC) amrywiaeth o ddeunyddiau hyfforddi ar gael

Cynhelir ymchwil hefyd o brosesau Craffu ar draws Cymru. Mae'r dysgu hwn wedi arwain at adolygiad helaeth a newid y prosesau democrataidd presennol gan gynnwys gostyngiad mewn cofnodion, recordio cyfarfodydd yn fyw, agendâu llai sylweddol sydd ond yn cynnwys eitemau allweddol a lleihau maint pwyllgorau.

Cytunwyd ar adolygiad llawn o'r Cyfansoddiad yn y Cyngor ar 21 Medi 2023 ac ym mis Tachwedd 2023, cymeradwywyd gwelliant atodol i adlewyrchu trefniadau ar gyfer penodi'r Prif Weithredwr.

Ar gyfer 2024/25, aeth Swyddfa'r Ombwdsmon ag un gŵyn yn erbyn aelod ymlaen i'w hymchwilio'n ffurfiol. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion chwythu'r chwiban ar gyfer yr un cyfnod.

Archwilio Mewnol ac Allanol

Mae'r Cyngor yn destun nifer o archwiliadau mewnol ac allanol ac adolygiadau rheoleiddio bob blwyddyn. Cynhelir y rhain i sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwerth am arian, bod gwasanaethau'n cael eu rhedeg yn effeithlon ac yn effeithiol, a bod gwasanaethau gwell yn cael eu darparu. Mae'r Cyngor yn cael ei fonitro gan nifer o gyrff rheoleiddio allanol, a'r prif rai yw: Archwilio Cymru; Arolygiaeth Gofal Cymru; ac Estyn.



Archwilio Cymru

Mae trefniadau ymgysylltu gydag Archwilio Cymru ar waith gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda’r Pennaeth Llywodraethu a Phartneriaethau, gyda'r Swyddog Adran 151 a hefyd y Prif Weithredwr.

Mae adroddiadau Archwilio Cymru yn ystod 2024/25 yn cynnwys:

Adroddiadau Lleol	Adroddiadau Archwilio Cenedlaethol Cymru	Adroddiadau Archwilio Cymru yn dal i fynd rhagddynt
- Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad: Persbectif Defnyddiwr Gwasanaethau a Chanlyniadau - Adolygiad o'r Strategaeth Ddigidol - Adolygiad o Gynaliadwyedd Ariannol - Trefniadau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau - Adroddiad Dilynol ar Drefniadau Diogelu Corfforaethol	- Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad – Persbectif a Chanlyniadau Defnyddiwr Gwasanaethau - Digidol drwy ddylunio? Gwersi o'n hadolygiad strategaeth ddigidol ar draws cyngorau yng Nghymru - Llywodraethu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol - Adroddiad Cenedlaethol ar Dai Fforddiadwy - Teithio Llesol - Rheolaeth a Llywodraethu Ariannol – Gwersi o Archwiliadau ar gyfer Cyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru	- Llety Dros Dro – Astudiaeth Genedlaethol - Trefniadau Gwrth-dwyll – astudiaeth leol

Disgwylir Crynodeb Archwilio Blynnyddol 2023 gan Archwilio Cymru yn dilyn llofnodi cyfrifon Blaenau Gwent yn 2023. Bydd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o bob adolygiad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru dros y flwyddyn.

Estyn

Mae Gwasanaethau Addysg yr Awdurdod yn cynnal cyfarfodydd Arolygwyr Cyswllt Awdurdodau Lleol (ACALL) rheolaidd a gynhelir gydag Estyn yn unol â gofynion yr arolygiaeth. Mae'r Tîm Arwain Addysg yn adrodd ar gynnydd yn erbyn fframwaith Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol (GALL) i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet. Mae'r Awdurdod yn cynnal cyfarfodydd diweddarau rhwng Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, Aelodau, a swyddogion Llywodraeth Cymru yn ôl yr angen ac mae'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) hefyd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am yr agenda gwella ysgolion i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu.

Arolygiaeth Gofal Cymru

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn destun archwiliad, arolygiad ac adolygiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Bob chwarter, mae Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Phenaethiaid Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn cyfarfod ag AGC i drafod cyflawniadau, perfformiad a heriau allweddol.



Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Cyngor yr adroddiadau lleol canlynol gan AGC:

- Gwasanaethau Maethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cartref Cwrt Mytton i'r Henoed
- Gofal Cartref Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Derbyniodd y Cyngor hefyd yr adroddiad cenedlaethol canlynol gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Ydyn ni'n gofalu am ein gofalwyr?

Parhaodd y Cyngor i fonitro cynnydd yn dilyn argymhellion o'r arolygiadau hyn yn ei gynlluniau busnes ac adroddwyd arno drwy'r broses ddemocrataidd.

Archwilio Mewnol

Darperir adroddiad blynyddol, sy'n amlinellu meysydd sydd wedi cael asesiad drwy Archwilio Mewnol, i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ac mae hefyd wedi'i gynnwys yn adolygiad gwrthrychol y Rheolwr Archwilio a Risg o system rheolaeth fewnol yr Awdurdod.

Cyhoeddodd Archwilio Mewnol 25 o adroddiadau archwilio terfynol yn ystod y flwyddyn:

Graddio Archwilio	Nifer yr archwiliadau
Sicrwydd Llawn	5
Sicrwydd Rhesymol	17
Sicrwydd Cyfyngedig	1
Dim Sicrwydd	2

Heriau Allweddol a Nodwyd ar gyfer Gweithredu yn 2025/26

- Mae angen i'r Cyngor gyflymu ei ymateb i weithredu'r argymhellion sy'n weddill o adolygiad Archwilio Cymru o Ddiogelu Corfforaethol. Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy gydol y flwyddyn a bydd yn cael ei gynnwys yn yr hunanasesiad 2025/26
- Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn ymateb i bob argymhelliad Archwilio sy'n weddill. Cyflawnir hyn drwy fonitro cynlluniau busnes y Cyngor ac adrodd ar olrhain risg a sicrwydd
- Mae'r broses Asesiad Effaith Integredig (AEI) yn parhau i fod yn offeryn hanfodol ar gyfer hwyluso a llywio ein prosesau gwneud penderfyniadau. Gan gydnabod yr angen i wella, rydym wedi nodi monitro gwell o ddefnydd yr AEI fel cam gweithredu allweddol ar gyfer y cyfnod 2025/26. Bydd hyn yn ffocws sylfaenol fel rhan o gynllun gweithredu Blwyddyn 2 y Cynllun Cydraddoldeb Sengl i sicrhau bod y broses yn cael ei defnyddio'n effeithiol a'i gwella'n barhaus
- Gwnaed cynnydd sylweddol wrth fynd i'r afael â'r materion sydd wedi cyfrannu at yr oedi wrth adrodd ar y cyfrifon terfynol ar gyfer 2023/24, fodd bynnag, disgwylir y bydd paratoi cyfrifon blynyddol 2025/26 a'r blynyddoedd i ddod yn cael ei gyflawni yn unol â'r terfynau amser statudol
- Cynhaliwyd adolygiad i ystyried prosesau recriwtio a gallu yn y Gymraeg. Dros y 12 mis diwethaf dim ond 1 rôl sydd wedi mynd allan fel un lle mae'r iaith Gymraeg yn hanfodol ac mae'n bwysig i'r Cyngor ystyried rolau a ddylai gynnwys rhyw fath o allu yn y Gymraeg. Gwaith i'w wneud gyda Datblygu Sefydliadol i fynd i'r afael â'r her hon
- Rhaid i'r Cyngor gyflawni gostyngiadau cyllideb o £34m dros y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig pum mlynedd. Mae cyfarfodydd cynllunio ariannol ar waith i lywio ailgynllunio gwasanaethau a chynllunio ariannol ar gyfer y dyfodol




- Mae nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd salwch wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn o 11.82 diwrnod fesul cyfwerth ag amser llawn ar gyfer 2023/24 i 13.85 diwrnod ar gyfer 2024/25. Mae salwch ein gweithlu yn parhau i gael ei fonitro'n rheolaidd, ac mae targedau salwch yn parhau i gael eu gosod ar lefel y gwasanaeth a'r Cyngor cyfan.



Dangosydd Perfformiad	Data						Perfformiad
	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	
Nifer y Cwynion Corfforaethol a dderbyniwyd gan Gyngor Blaenau Gwent (Cam 1 a Cham 2) (Ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) (Y Ffigur Is sydd Orau)	-	-	100	121	84	125	Yn dirywio
Nifer y cwynion corfforaethol Cam 1 yr ymchwiliwyd iddynt gan Gyngor Blaenau Gwent (Ac eithrio wedi'i ganslo) (Y Ffigur Is sydd Orau)	-	-	85	112	76	106	Yn dirywio
Nifer y Cwynion Corfforaethol Cam 1 a ymchwiliwyd iddynt o fewn 10 diwrnod gwaith yn ystod y cyfnod (Y Ffigur Uwch sydd Orau)	-	-	54 (63.5%)	83 (74.1%)	62 (81.5%)	81 (76.4%)	Yn dirywio
Nifer y Cwynion Corfforaethol a gaewyd yng Ngham 2 yn ystod y cyfnod (Y Ffigur Is sydd Orau)	-	-	2	1	1	6	Yn dirywio
Nifer y Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod (Y Ffigur Is sydd Orau)	-	-	5	13	9	19	Yn dirywio
Nifer y Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol a gaewyd yn ystod y cyfnod (Y Ffigur Uwch sydd Orau)	-	-	3	11	7	13	Yn dirywio
Nifer y Canmoliaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Blaenau Gwent	-	-	29	28	46	69	Yn gwella



(Y Ffigur Uwch sydd Orau)							
Presenoldeb yn y Cyngor a salwch Nifer y dyddiau gwaith / shiftiau fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn (CALI) a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch 10 diwrnod fesul CALI (Y Ffigur Is sydd Orau)	13.9	11.67	16.74	15.5	11.8	13.85	Yn dirywio
Cyfanswm cyfrif pennau Y Cyngor Ysgolion Ddim yn berthnasol	2777 1565 1212	2,854 1,648 1,206	2896 1673 1223	2,953 1650 1303	3208.50 1902 1272.50	3198 1952 1246	Ddim yn berthnasol



Ein Blaenoriaethau a'r Heriau ar gyfer 2025/26 a Thu Hwnt

Mae'n bwysig i'r sefydliad, nid yn unig adolygu'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'n trigolion a'n busnesau, a'r effaith y maent yn ei chael, ond rhaid inni hefyd sicrhau bod ein prosesau a'n systemau mewnol ein hunain yn gweithio'n dda, gan sicrhau ein bod yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, gyda rheolaethau, systemau a phrosesau cadarn yn cefnogi pob agwedd ar weithgaredd y Cyngor.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi cynnal amryw o ymarferion monitro yn erbyn y gweithgareddau a ystyriwyd gennym yn feysydd i'w gwella neu eu datblygu yn adroddiad hunanasesu'r llynedd. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynlluniau Busnes priodol ac yn cael eu monitro'n chwarterol gan y Cyfarwyddiaethau ac yn cael eu hadrodd i'r Tîm Gweithredol. Lle mae meysydd yr ydym yn teimlo nad ydynt wedi gwella fel y bwriadwyd, byddwn yn parhau i fonitro'n agos dros y flwyddyn nesaf, i helpu i gyflawni ein huchelgais i ddod yn Gyngor rhagorol.

Yn dilyn adolygiad, rydym wedi defnyddio ein fframwaith i gynnal hunanasesiad sefydliadol, gan ddod i gasgliadau a nodi'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd, wrth symud ymlaen. Bydd cynnydd yn erbyn ein hymrwymiaadau yn cael ei fonitro'n flynyddol wrth symud ymlaen ac mae ein canfyddiadau allweddol ar gyfer 2024/25 wedi'u cynnwys yn yr adran ganlynol o'r adroddiad hwn. Rydym hefyd wedi nodi nifer o heriau yr ydym yn eu hwynebu sy'n gysylltiedig â phob un o'n Hamcanion Llesiant. Er mwyn symud y meysydd hyn ymlaen, rydym wedi datblygu cynllun gweithredu ar gyfer 2025/26 a thu hwnt. Mae'r dull cynllunio blynyddol hwn yn golygu y bydd ein cynlluniau wrth symud ymlaen yn ailadroddus ac yn hyblyg, gan ystyried unrhyw fentrau, heriau a chyfleoedd newydd sydd wedi codi y gellir ymateb iddynt, drwy gydol oes y Cynllun Corfforaethol.

Drwy gydol y flwyddyn, byddwn yn defnyddio ein cynllunio busnes i fonitro a dangos ein cynnydd yn rheolaidd, er mwyn dangos llwyddiant ein huchelgeisiau. Bydd hyn yn ganolog i gyflawni ein dyheadau.

Cynnydd yn erbyn ein Nodweddion Cyngor Rhagorol

Mae'n bwysig i'r sefydliad, nid yn unig adolygu'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'n trigolion a'n busnesau, a'r effaith y maent yn ei chael, ond rhaid inni hefyd sicrhau bod ein prosesau a'n systemau mewnol ein hunain yn gweithio'n dda, gan sicrhau ein bod yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, gyda rheolaethau, systemau a phrosesau cadarn yn cefnogi pob agwedd ar weithgaredd y Cyngor.

Roedd datblygu ein Cynllun Corfforaethol yn bwysig wrth osod ein blaenoriaethau a'n hymrwymiaadau, ond heb amodau sefydliadol penodol wedi'u diffinio, ni fyddwn byth mor effeithiol ag y gallwn fod wrth gyflawni'r holl ganlyniadau rydym yn ceisio'u cyflawni. Felly, er mwyn adolygu ble rydym yn sefydliadol ac i ddarparu darlun llawn o weithgaredd y Cyngor, mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg o'n cynnydd yn erbyn Nodweddion Cyngor Rhagorol.



Cyngor Arloesol sy'n

- drawsnewidiol ac yn barod i wneud pethau'n wahanol
- frwdfrydig i gymryd risg
- meithrin arloesi yn y gweithle a thu allan
- chwilfrydig ac yn agored i dueddiadau a thechnolegau newydd

Mae ein ffocws wedi datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf, yn unol â'n nodweddion, ac mae llawer o newidiadau wedi digwydd i'n helpu i ddod yn fwy arloesol fel Cyngor. Yn bwysig, rydym wedi parhau i addasu'n gyflym ac ymateb yn gadarnhaol i heriau a mentrau newydd, gan ddangos bod parodrwydd i addasu a chyflawni mewn amgylchiadau sy'n newid yn barhaus. Fodd bynnag, wrth i ni symud ymlaen, rhaid i ni baru ein parodrwydd i gymryd risgiau a chyflawni prosiectau arloesol newydd, gyda'r bragmatiaeth sydd ei hangen i ddod â phrosiectau i ben pan fydd yn amlwg na allwn eu bwrw ymlaen neu na fyddant yn cyflawni'r manteision a fwiadwyd.

Yn ystod 2024/25 rydym wedi canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad ein holl staff fel eu bod yn gallu bodloni gofynion newidiol o ran darparu gwasanaethau a blaenoriaethau. Rydym wedi gweithredu plattform dysgu a datblygu ar-lein newydd o'r enw Thinqi sy'n darparu gwybodaeth hyfforddiant a datblygu hygyrch i ddiwallu anghenion unigolion a gwasanaethau.

Rheoli Risg

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod risg yn gynhenid ym mhopeth y mae'n ei wneud a bod angen rhywfaint o gymryd risgiau i gyflawni ei uchelgeisiau a'i ddyheadau ar gyfer y sir. Fodd bynnag, mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod bod ganddo ddyletswydd i amddiffyn budd y cyhoedd a diogelu'r adnoddau a ymddiriedir iddo gan drigolion a threthdalwyr Blaenau Gwent. Felly, pwrpas rheoli risg yw sicrhau bod gan y Cyngor fframwaith cadarn a chyson ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli'r risgiau a allai effeithio ar ein hamcanion strategol a gweithredol, yn ogystal ag enw da y Cyngor a hyder y cyhoedd.

Darperir cofrestr risg i uwch arweinwyr ac adroddir arni drwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i helpu i fonitro'r risgiau allweddol sy'n wynebu'r Cyngor. Mae'n ddogfen sy'n cofnodi risgiau ac yn bwysig yn cynnwys y camau gweithredu sydd eu hangen i'w lliniaru neu eu rheoli. Mae'n helpu i flaenoriaethu adnoddau a gall helpu i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg mewn modd amserol. Ym mis Mawrth 2025, roedd y Cyngor wedi nodi 9 risg gorfforaethol, 7 ohonynt wedi'u dosbarthu fel Uchel, 1 wedi'i dosbarthu fel Critigol ac un wedi'i dosbarthu fel Canolig a fydd yn cael eu lleihau o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Cyfeirnod a Disgrifiad o'r Risg	Sgôr Risg (fel ym mis Mawrth 2025)	Cyfeiriad Teithio o'r Chwarter Blaenorol
CRR1: Methu â chyflawni a chynnal y newidiadau sydd eu hangen i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael blaenoriaeth o fewn y cyfyngiadau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu.	Uchel	↓
CRR4: Diogelu - Methu â sicrhau bod trefniadau diogelu digonol ar waith ar gyfer pobl agored i niwed ym Mlaenau Gwent	Uchel	↑
CRR5: Mae risg nad yw prosesau Parhad Busnes y Cyngor yn ddigon cadarn i alluogi darparu gwasanaethau hanfodol mewn argyfwng.	Uchel	↔



CRR14: Bydd methu â gwella cyfraddau presenoldeb staff o fewn y Cyngor yn arwain at effaith annerbyniol ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol ac yn ariannol.	Critigol	
CRR19: Os nad yw'r Cyngor yn rheoli ei asedau gwybodaeth yn unol â'r gofynion a nodir mewn deddfwriaeth, yna efallai y bydd yn wynebu cosbau ariannol a sancsiynau posibl a fydd yn rhwystro darparu gwasanaethau.	Uchel	
CRR21: Gallai cydnerthedd ariannol y Cyngor fod mewn perygl os na fydd y Cyngor yn sicrhau bod penderfyniadau cynllunio a rheoli ariannol yn cefnogi sefydlogrwydd a chynaliadwyedd hirdymor	Uchel	
CRR22: Methu â chyflawni blaenoriaethau'r Cyngor o fewn y gyllideb flynyddol y cytunwyd arni gan arwain at gynydd yn y defnydd o fesurau cyllid brys a thynnu i lawr gronfeydd wrth gefn.	Canolig	
CRR25: Mae'r ysgol mewn categori Estyn ac ar hyn o bryd yn derbyn Ymyrraeth gan y Cyngor yn methu â gwneud cynnydd priodol yn erbyn yr Hysbysiad Rhybudd Statudol i Wella a'r Cynllun Gweithredu Ôl-arolygiad.	Uchel	
CRR28: Bydd methu â chynnal adnoddau staffio digonol sydd â'r sgiliau priodol yn arwain at effaith annerbyniol ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol.	Uchel	

Wrth symud ymlaen, rheoli risg fydd un o'r meysydd cyntaf y bydd Cynghorau Torfaen a Blaenau Gwent yn edrych i'w alinio. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r swyddogion perthnasol i sefydlu'r gwahaniaethau ym mhob dull ac i ystyried pa agweddau i fwrw ymlaen â nhw fel y gellir gweithredu un fframwaith effeithiol ar draws y ddau Gyngor. Mae adolygiad o gofrestrau risg y Cyngor ar y gweill a fydd yn llywio adolygiad cynhwysfawr o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Rebel BGT

Nid yw'r heriau sy'n wynebu cynghorau heddiw, megis effaith digwyddiadau byd-eang, cyllidebau sy'n crebachu, costau byw, galw cynyddol, ac anghydraddoldeb cynyddol ar draws ein cymunedau, yn broblemau y gallwn eu datrys gydag offer ddoe. Mae'r rhain yn heriau dwfn, cydgysylltiedig sy'n galw am ddulliau newydd, safbwyntiau ffres, arbrofi beiddgar a chreadigrwydd ar y cyd. Dyna le mae Rebel BGT yn dod i fodolaeth.

Nid prosiect, polisi na dim ond cysyniad yw Rebel BGT, mae'n feddylfryd a diwylliant. Ffordd o ymddwyn sy'n gwerthfawrogi chwylfrydedd dros sicrwydd, cydweithio dros silos, ac arbrofi dros berffeithrwydd. Mae'n ymwneud â chreu diwylliant lle mae meddwl anghonfensiynol yn cael ei groesawu, lle nad yw safbwyntiau amrywiol yn cael eu derbyn yn unig ond eu bod yn cael eu ceisio'n weithredol, a lle mae arloesi yn ffynnu trwy gydweithio. Rydym am adeiladu amgylchedd gwaith sy'n fywiog gydag arloesi a syniadau - man lle mae creadigrwydd, chwylfrydedd a dewrder yn rhan o'n pecyn cymorth bob dydd.

Gall yr holl staff yng Nghynghorau Blaenau Gwent a Thorfaen chwarae rhan arwain hanfodol. Mae Rebel BGT ar gyfer pawb. Mae Rebel BGT yn ymwneud â gwneud gwahaniaeth, herio'r norm, a llunio dyfodol y Cyngor fel ein bod yn cyrraedd ein nodau ac yn cyflawni ein hamcanion. Bydd staff Blaenau Gwent a Thorfaen yn gallu:

- Rhannu a phleidleisio ar eich syniadau mwyaf beiddgar
- Rhoi sylwadau ar awgrymiadau pobl eraill
- Olrhain sut mae syniadau'n esblygu ac yn dylanwadu ar ein cyfeiriad
- Beth fydddech chi'n ei newid neu'n ei wella?
- Beth sy'n ein dal

yn ôl?



- Ble rydych chi'n gweld cyfleoedd ar gyfer arloesi?



- Sut allwn ni weithio'n well gyda'n gilydd?
- Sut allwn ni wasanaethu ein cymunedau'n well?

Deallusrwydd Artiffisial

Mae'r Cyngor yn edrych i ysgogi arloesi a chynyddu effeithlonrwydd yn ei wasanaethau drwy fabwysiadu arferion Deallusrwydd Artiffisial (AI) i'w weithgareddau bob dydd. Mae'r Cyngor wedi bod yn defnyddio Co Pilot ers peth amser ac mae hyn, ochr yn ochr â defnydd mwy targedig o AI, wedi dechrau gweld nifer o welliannau i'r ddarpariaeth gwasanaethau. Amlinellir isod y prosiectau a gwblhawyd hyd yma, gyda nifer o brosiectau eraill ar y gweill.

- **Awtomeiddio mewn Goruchwyliaethau** – mae'r prosiect yn enghraifft o sut y gall awtomeiddio wedi'i dargedu ddatgloi capasiti, gwella ansawdd gwasanaethau a chefnogi diwylliant o welliant parhaus
- **Awtomeiddio mewn Gwasanaethau Democrataidd** – Roedd y ffocws cychwynnol ar un Pwyllgor ond mae'r prosiect yn raddadwy i gwmpasu pwyllgorau eraill, gan osod cynsail ar gyfer arloesi yn y dyfodol ar draws gwasanaethau'r Cyngor.
- **Defnyddio Power Platform mewn Gwasanaethau Oedolion** i symleiddio awdurdodi gwasanaethau a gomisiynwyd – gellir ei ddefnyddio ar draws gwasanaethau eraill
- **Hysbysiadau Cosb Benodedig Addysg** - Cyflawnwyd arbedion amser o 29.84% ac arbedion cost o 31.02%. Cwblhawyd y prosiect gan ddefnyddio modiwl Capita ONE FPN
- **Llyfr Archebion Gwasanaethau Technegol** - Awtomeiddio prosesu ceisiadau gwasanaeth cyfaint uchel, lleihau llwyth gwaith â llaw a gwella.

Mae'r gwaith hwn yn dangos ymrwymiad y cyngor i arloesi, effeithlonrwydd, a darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd drwy fuddsoddiad digidol clyfar.

Cyngor Ysbrydoledig a Gweledigaethol sy'n

- gwella bywydau drwy arweinyddiaeth wleidyddol a swyddogion effeithiol
- adnabod a bachu cyfleoedd ar gyfer y dyfodol
- gosod cyfeiriad clir a nodau hirdymor
- lleihau ei ôl troed carbon

Rydym wedi gosod cyfeiriad clir o fewn ein sefydliad ac yn rhannu ein nodau hirdymor ar gyfer gwella Llesiant ar draws Blaenau Gwent. Nod ein Cynllun Corfforaethol yw gwneud hyn trwy nodi'n glir yr hyn yr ydym yn anelu at ei wneud a sut yr ydym yn bwriadu ei gyflawni ac sydd wedi'i ddeall a'i gefnogi'n dda yn wleidyddol ac yn sefydliadol.

Defnyddir cyflwyno Cynllun Cyflawni Blynnyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol i fonitro ac adrodd ar ein cynnydd yn erbyn ein dyheadau ar gyfer oes y Cynllun Corfforaethol. Rydym hefyd yn parhau i weithio ochr yn ochr â'n partneriaid ym Mwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) Gwent trwy gydweithio i ddod yn rhanbarth 'Marmot' gyda'r bwriad o gymryd camau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i leihau anghydraddoldebau ac ymdrin â heriau allweddol i lesiant presennol a hirdymor ar draws y rhanbarth, i leihau'r anghydraddoldebau sy'n effeithio ar benderfynnyddion ehangach ieuchyd.

Cynhaliwyd nifer o sesiynau gyda staff ar draws y sefydliad yn canolbwyntio ar ymgorffori egwyddorion Marmot ledled y sefydliad ac i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pob rhan o'r Cyngor. Gwnaed gwaith gydag uwch reolwyr i sefydlu nifer o ddangosyddion allweddol i'w mesur dros oes y Cynllun a fydd yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau busnes. Felly mae pob maes gwasanaeth yn cael gwell dealltwriaeth o sut maen nhw'n cael effaith uniongyrchol ar gyflawni egwyddorion Marmot.



Bydd ein Prif Gynllun, yn seiliedig ar Egwyddorion Marmot, yn rhoi gweledigaeth glir i arweinwyr y dyfodol ar gyfer y sir. Bydd yn ein helpu i aros yn ffocysedig a bydd yn llywio ein gweithredoedd a'n penderfyniadau ar gyfer ein dyfodol. Bydd y cynllunio hirdymor hwn yn ein helpu i wybod ble rydym am fynd a'r ffordd orau i gyrraedd yno. Bydd ein Cynlluniau Corfforaethol presennol a rhai'r dyfodol yn parhau i fod yn gerrig milltir pwysig ar hyd y ffordd, ond ynghyd â'n Prif Gynllun, bydd hyn yn caniatáu inni ragweld heriau, paratoi ar eu cyfer a sicrhau bod ein gweithredoedd dyddiol cyd-fynd â'n nodau terfynol.

Y Cyd-dîm Gweithredol

Mae gan y Cyngor strwythur ar waith i gefnogi darparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau drwy ei Gyd-dîm Gweithredol (JET). Mae JET wedi gweithredu gyda threfniadau dros dro ers dros flwyddyn gan gynnwys Prif Weithredwr dros dro. Ym mis Ionawr 2025 cytunodd Cyngorau Torfaen a Blaenau Gwent i weithredu o dan un Prif Weithredwr ar y Cyd. Yn dilyn hyn, rhoddwyd trefniadau ar waith i gefnogi a sefydlogi'r strwythur uwch reolwyr o fewn Blaenau Gwent a Thorfaen gyda swyddi parhaol wedi'u sefydlu. Mae gwaith yn mynd rhagddo i greu strwythur parhaol o dan y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a dylai fod ar waith cyn diwedd 2025.

Strwythur Gwleidyddol

Yn 2021, diwygiodd Comisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau Cymru ffiniau wardiau Blaenau Gwent. Roedd y newidiadau'n golygu bod nifer cynghorwyr Blaenau Gwent wedi lleihau o 9, gan fynd â'r cyngor o 42 i 33 aelod. Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o 1,545 o etholwyr fesul cynghorydd. Gostyngodd nifer y wardiau hefyd o 16 i 14, gyda phob ward yn ethol mwy nag 1 cynghorydd. Mae gan 9 ward 2 gynghorydd, tra bod gan 5 ward 3 chynghorydd, ac ni welodd 5 ward unrhyw newid o dan y diwygiad. Daeth y newidiadau hyn i rym o fis Mai 2022, fel rhan o'r etholiad llywodraeth leol. Yn dilyn yr etholiad bu newid i gyfansoddiad gwleidyddol Cyngor Blaenau Gwent, gan symud o fod yn Annibynnol i Lafur. Cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor ar hyn o bryd yw:

- Llafur 21
- Annibynnol 10
- Annibynnol Lleiafrifol (Ward Cwm) 1; a
- Annibynnol Lleiafrifol (De Glynebwy) 1

Proses Ddemocrataidd

Mae pwyllgorau'r cyngor yn rhan hanfodol o'r broses ddemocrataidd o fewn yr Awdurdod. Maent yn galluogi aelodau etholedig i arfer eu pwerau gwneud penderfyniadau, craffu ar berfformiad a pholisïau'r Cyngor, a chynrychioli barn a buddiannau eu hetholwyr. Mae pwyllgorau'r cyngor hefyd yn darparu fforwm ar gyfer cyfranogiad ac ymgysylltu'r cyhoedd, lle gall dinasyddion a rhanddeiliaid leisio eu barn, eu pryderon a'u hawgrymiadau ar faterion sy'n effeithio arnynt hwy a'u cymunedau. Nod pwyllgorau'r cyngor yw cynnal eu busnes mewn modd agored, tryloyw ac atebol, a chynnal egwyddorion llywodraethu da a gwasanaeth cyhoeddus.

Y Cabinet yw corff gwneud penderfyniadau'r Cyngor i bob pwrpas. Mae ganddo gyfrifoldeb am wneud penderfyniadau sy'n unol â pholisïau a chyllideb gyffredinol y Cyngor. Os yw'n dymuno gwneud penderfyniad sydd y tu allan i'r gyllideb neu'r fframwaith polisi, rhaid cyfeirio hyn at y Cyngor cyfan. Mae gan yr aelodau'r cyfrifoldeb i sicrhau bod busnes angenrheidiol y Cyngor yn cael ei gyflawni'n effeithlon, yn effeithiol, ac mewn modd sy'n briodol ar gyfer cynnal busnes cyhoeddus yn briodol. Mae'r Cabinet yn cyflawni holl swyddogaethau'r Awdurdod Lleol nad ydynt yn gyfrifoldeb unrhyw ran arall o'r Awdurdod, boed yn ôl y gyfraith neu o dan y Cyfansoddiad.



Y 33 aelod etholedig o Flaenau Gwent yw'r corff gwneud penderfyniadau ar gyfer yr Awdurdod gyda'i gilydd. Mae hyn yn cael ei ategu gan strwythur swyddogion o bobl hyfforddedig a phrofiadol. Mae'r rhan fwyaf o benderfyniadau polisi yn cael eu datblygu gan y Cabinet, sy'n cynnwys Arweinydd y Cyngor a phedwar Aelod o'r Cabinet â chyfrifoldebau portffolio unigol:



**Y Cyngorydd
Steve Thomas
Arweinydd y
Cyngor
Aelod Cabinet
Corfforaethol a
Pherfformiad**



**Y Cyngorydd
Helen Cunningham
Dirprwy Arweinydd
y Cyngor
Aelod Cabinet
Lleoedd a'r
Amgylchedd**



**Y Cyngorydd John
C Morgan
Aelod Cabinet
Lleoedd ac
Adfywio**



**Y Cyngorydd Sue
Edmunds
Aelod Cabinet Pobl
ac Addysg**



**Y Cyngorydd
Hadyn Trollope
Aelod Cabinet Pobl
a Gwasanaethau
Cymdeithasol**

Yn ogystal â'r Cabinet, mae strwythur Pwyllgorau'r Awdurdod hefyd yn cynnwys tri Phwyllgor gwneud penderfyniadau: 1 x Cynllunio a 2 x Trwyddedu; pedwar Pwyllgor Craffu; Pwyllgor Safonau; Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd; a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae Craffu yn cynnwys Aelodau nad ydynt yn Aelodau'r Cabinet sy'n cael eu penodi i eistedd ar y Pwyllgorau i gefnogi gwaith y Cabinet a'r Cyngor cyfan ac i ddwyn y Cabinet i gyfrif. Nid oes gan y Pwyllgorau unrhyw bwerau gwneud penderfyniadau; fodd bynnag, maent yn gweithredu fel gwirio a chydbwyso ar y pwerau a arferir a'r penderfyniadau a wneir gan y Cabinet. Mae Craffu yn galluogi Aelodau nad ydynt yn Aelodau'r Cabinet i gael mwy o lais mewn materion y Cyngor.

Mae ein Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi'i wreiddio'n gadarn yn ein trefniadau llywodraethu. Mae'r pwyllgor yn cynnwys 6 aelod etholedig o'r awdurdod lleol a 3 aelod lleyg - ac mae un ohonynt yn dal rôl y Cadeirydd. Mae cymysgedd o aelodau'r awdurdod lleol ac aelodau lleyg yn cryfhau ymhellach lefel yr her annibynnol o fewn y pwyllgor. Mae gan y pwyllgor rôl allweddol o oruchwylio a sicrhau mewn meysydd fel rheoli risg, rheolaeth ariannol, a'n proses Gwyno. Rôl hanfodol arall i'r pwyllgor yw darparu sicrwydd bod y Cyngor yn ymateb yn briodol ac yn effeithiol i adroddiadau gan ein rheoleiddwyr allanol.

Mae unrhyw argymhellion a wneir gan Archwilio Cymru a'n rheoleiddwyr allanol eraill yn cael eu derbyn gan y Pwyllgor Craffu perthnasol i'w monitro ac yna gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gael sicrwydd o gynnydd. Dyma ddogfen allweddol y Cyngor i ddangos sut mae cynigion a dderbyniwyd ar gyfer gwella / argymhellion y cytunwyd arnynt yn cael eu trin.


Mae ein Cynllun Gweithredu yn cael ei ddiweddarau a'i adrodd yn rheolaidd i roi sicrwydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cyfrifoldeb pwyllgorau craffu'r Cyngor yw monitro argymhellion penodol i wasanaethau, gyda diweddariadau cynnydd blynyddol yn cael eu paratoi ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at ddibenion sicrwydd.

Mae llywodraethu democrataidd cryf yn elfen allweddol i ni fod yn sefydliad sy'n cael ei reoli'n dda ac felly mae'n hanfodol i fodloni ein gofynion perfformiad.

Mae cyfarfodydd a phapurau'r pwyllgor i'w gweld yma: blaenau-gwentintranet.moderngov.co.uk/ieDocHome.aspx?Categories=



Strwythur Llywodraethu Cyngor Blaenau Gwent



Cyrraedd Sero Net

Mae taith y Cyngor tuag at gyrraedd Sero Net erbyn 2030 yn parhau gyda gweithredu'r [Cynllun Datgarboneiddio 2020 -2030](#). Eleni byddwn yn cynnal adolygiad canol cyfnod o'n Cynllun Datgarboneiddio. Y ffocws fydd gwneud y mwyaf o'n gostyngiadau carbon trwy dargedu ein ffynonellau allyriadau mwyaf nad ydynt yn rhai caffael. Bydd gan yr adolygiad ddau gam:

Bydd gan y cam cyntaf ddau brif elfen sy'n cael eu dadansoddi'n fanwl:

- Ein cynnydd hyd yn hyn a;
- Beth sydd angen ei wneud o hyd i gyrraedd Sero Net.

Yr ail gam yw:

- Byddwn yn datblygu rhagamcanion mwy manwl o leihau carbon, costau ac amserlenni. Gyda'r nod o gwmpasu ein llwybr llawn i Sero Net a darparu amcangyfrif o faint o gynnydd y byddwn yn gallu ei wneud erbyn 2030 o ystyried yr adnoddau sydd ar gael.

Dangosir isod ein ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Sero Net 2030. Nid yw'r ffigurau allyriadau carbon uniongyrchol hyn yn cynnwys ein ffigurau allyriadau caffael sy'n seiliedig ar wariant nad ydynt yn addas ar gyfer olrhain cynnydd ac yr ydym hefyd yn llawer mwy dibynnol ar gamau gweithredu gan eraill i gyrraedd Sero Net ar gyfer yr allyriadau hyn.

Tunnell CO2e/blwyddyn	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	Newid o'r Flwyddyn Sylfaen	Newid o'r llynedd
Allyriadau Carbon Heb eu Seilio ar Wariant	14,783	11,818	13,100	12,353	11,949	11,381	-23%	-5%

Mae ein hadeiladau wedi cael eu nodi fel ein ffynhonnell allyriadau fwyaf. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi rhoi ffocws sylweddol ar gymryd camau gweithredu i ddatgarboneiddio ein hysgolion. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i ddatblygu rhaglen solar barhaus ar gyfer ysgolion, gan gynnwys pypiau gwres ffynhonnell aer yn Ysgol Gynradd Glyncoed ac Ysgol Gymraeg Tredegar i'w cefnogi i fod yn gwbl Sero Net.

Rydym hefyd yn gweithio ar leihau'r galw am ynni o adeiladau fel Y Gweithfeydd: Canolfan Hamdden Glynebwy, Campws Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr, a'r Swyddfeydd Cyffredinol i gefnogi arbedion ynni posibl, lleihau allyriadau carbon, ac arbedion cost.



Mewn perthynas â Sero Net 2050, trefnwyd Fforwm Dinasyddion eleni ar Ddyfodol Teithio ym Mlaenau Gwent (gyda chyllid gan Innovate UK). Cytunodd y Fforwm ar set o 10 argymhelliad ar gyfer camau gweithredu y gallai'r cyngor a/neu ei bartneriaid eu cymryd yn realistig dros y 5 mlynedd nesaf i wella teithio ym Mlaenau Gwent, yn ogystal â set o egwyddorion tegwch i lywio sut mae'r rhain yn cael eu datblygu.



Y deg argymhelliad a wnaed gan y fforwm oedd:

1. Lleihau'r defnydd o geir ar gyfer teithiau cymudo
2. Cynyddu'r dewisiadau trafndiaeth gyda'r nos
3. Cael rampiau cadair olwyn ar drenau bob amser
4. Gwella gwasanaethau tacsï
5. Annog pobl i gerdded, beicio neu ddefnyddio olwynion
6. Gwella ymgysylltiad y cyhoedd â chynllunio trafndiaeth
7. Cynyddu cyhoeddusrwydd, capasiti a chyllid bysiau flecsi
8. Darparu gwell dewisiadau ar gyfer teithiau ysgol
9. Archwilio cymryd bysiau yn ôl i berchnogaeth gyhoeddus
10. Hyrwyddo ac ehangu cynlluniau trafndiaeth gymunedol

Mae aelodau'r fforwm wedi cyflwyno'r argymhellion i sesiwn frifio aelodau etholedig ac i bartneriaeth Llesiant Lleol Blaenau Gwent. Bydd y cyngor yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i aelodau'r fforwm bob chwe mis am o leiaf y ddwy flynedd nesaf. Mae'r ymateb manwl cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi, ar ôl gweithdy gyda swyddogion a phartneriaid ac adolygiad drwy'r broses ddemocrataidd.

Ystyrir lleihau carbon ym mhob strategaeth gomisiynu a chaffael. Yn dibynnu ar natur a chwmpas pob gofyniad, gall hyn ymwneud â manylebau cynnyrch, methodolegau gweithredu a/neu gynlluniau lleihau carbon cyflenwyr, sy'n nodi ôl troed carbon cyfredol cyflenwr a mentrau sefydliadol a gynlluniwyd i leihau hepgoriadau carbon yn y dyfodol.

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, drwy'r Rhwydwaith Caffael Cenedlaethol, i ddatblygu dull cyffredin o ddefnyddio Cynlluniau Lleihau Carbon o fewn ein prosesau caffael. Mae'r dull hwn wedi'i ddatblygu gan 10 Cyngor ar draws Rhwydwaith Caffael De-ddwyrain Cymru, er mwyn sicrhau dull cyson ar draws y rhanbarth, ac i gefnogi cyflawniad ein targed Sero Net 2030 priodol.

Mae perfformiad ein Hôl Troed Carbon, sy'n gysylltiedig â gweithgareddau Comisiynu a Chaffael y Cyngor, tua 75% - 80%, sy'n gyson ar draws awdurdodau lleol eraill Cymru.

Fforwm Dinasyddion ar Ddyfodol Teithio ym Mlaenau Gwent

Trefnwyd Fforwm Dinasyddion diweddar ar Ddyfodol Teithio ym Mlaenau Gwent gan Gyngor Blaenau Gwent a'i ariannu gan Innovate UK, asiantaeth arloesi Llywodraeth y DU, fel rhan o'u rhaglen Net Zero Living. Roedd y fforwm yn cynnwys 21 o drigolion Blaenau Gwent a ddewiswyd i gynrychioli'r fwrdeistref trwy loteri didoli o 6,500 o gartrefi a ddewiswyd ar hap. Dewisodd y broses ddidoli bobl i fod yn gynrychioliadol o ran demograffeg, pryder ynghylch newid hinsawdd, nifer y ceir yn y cartref a phellter teithio i wasanaethau.

Gofynnwyd y cwestiwn i'r Fforwm: *‘Sut gall Blaenau Gwent ddod ynghyd i wneud teithio lleol yn decach, yn wyrddach ac yn well i bawb?’*

Cynhaliwyd y fforwm dros dair sesiwn undydd, wyneb yn wyneb, ym mis Ionawr a mis Chwefror 2025, a rhoddodd gyfle i aelodau'r fforwm glywed gan siaradwyr arbenigol i ddysgu am y materion a'u trafod mewn grwpiau bach gyda hwylusydd gan yr elusen cynnwys y cyhoedd Involve. Cytunodd y fforwm ar ddeg argymhelliad (gweler tudalen 22 o Atodiad A), ar gyfer camau gweithredu lleol y gellid eu cymryd yn realistig yn y pum mlynedd nesaf gan y cyngor a/neu ei bartneriaid.



Fel rhan o broses y fforwm, ymrwymodd y Cyngor i ddarparu ymateb ysgrifenedig llawn i'r deg argymhelliad a chynnal cyfarfod wyneb yn wyneb i gyflwyno'n ôl. Ar hyn o bryd rydym yn y broses o ddatblygu'r ymateb hwn, gyda chefnogaeth Involve, gyda swyddogion a rhanddeiliaid perthnasol o'r cyngor a'r sefydliad partner a fydd yn cyfarfod ddydd Mawrth, 30ain o Fedi. Y bwriad yn dilyn hyn yw dod â'r ymateb arfaethedig yn ôl trwy'r broses Ddemocrataidd ym mis Rhagfyr 2025 / Ionawr 2026. Yn dilyn cymeradwyaeth, y bwriad yw y bydd yr ymateb yn dod yn ddogfen fyw, gyda diweddariadau bob chwe mis i aelodau'r fforwm am o leiaf ddwy flynedd ar ôl yr ymateb cychwynnol.

Cyngor sy'n perfformio ar lefel uchel sy'n/sydd

- cyfleu blaenoriaethau a disgwyliadau'r cyngor
- bob amser yn dysgu ac am wella
- mesur yr hyn sy'n bwysig i drigolion a chymunedau
- hunanwerthuso i ganolbwyntio ar effaith a chanlyniadau
- deall ei bwrpas ac yn cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol

Rheoli Perfformiad

Fel rhan o'r dull Ffederal, mae'r Cyngor wedi symleiddio ei brosesau rheoli perfformiad i gyd-fynd â Chyngor Torfaen. Mae hyn wedi cynnwys gwelliannau i brosesau archwilio a diwygio amserlenni adrodd perfformiad fel bod y ddau awdurdod yn derbyn gwybodaeth am berfformiad ar yr un pryd, gan hyrwyddo cydweithio a thryloywder.

Defnyddiwyd Amcanion Llesiant y Cyngor, o fewn y Cynllun Corfforaethol, i lunio'r holl gynllunio gwasanaethau ledled y sefydliad. Mae'r cynlluniau busnes mewnlol sy'n olrhain cynnydd a pherfformiad ar draws y sefydliad wedi'u diwygio i gynnwys newidiadau strwythurol allweddol a chyfrifoldebau swyddogion, gan gyd-fynd â'r weledigaeth strategol a gwella blaenoriaethau i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Bydd y cynlluniau busnes hyn yn parhau i esblygu i adlewyrchu'r newidiadau ar draws y sefydliad.

Bydd addasiadau yn y dyfodol i'r prosesau monitro perfformiad ar draws y sefydliad yn cynnwys adolygiad o'r cynllun cyflawni blynyddol i sicrhau bod camau gweithredu yn canolbwyntio ar ganlyniadau, gwelliannau parhaus i gynlluniau busnes i ddarparu ar gyfer newidiadau cyfarwyddiaeth, a gweithredu trefniadau llywodraethu mewnlol i integreiddio monitro perfformiad i drafodaethau ledled y cyngor.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ystyried bod hunanasesu effeithiol yn hanfodol i alluogi Cyngorau i ddeall sut maen nhw'n perfformio a lle gallent wneud yn well. Felly mae ein trefniadau adrodd ar berfformiad yn hanfodol i ymateb y Cyngor i'r Ddeddf.

Yn unol ag ethos y Ddeddf, mae ein Fframwaith Rheoli Perfformiad yn ymwneud cymaint â gweithredu newidiadau i brosesau ag y mae'n ymwneud â meithrin diwylliant newydd o hunanasesu a gwelliant parhaus yn y Cyngor, trwy roi llawer mwy o sylw i gynllunio gwasanaethau a phwysigrwydd monitro perfformiad yn rheolaidd.

Mae ein cynlluniau busnes wedi'u datblygu i sicrhau bod 'edau aur' o Gynllun Meistr Marmot, i'r Cynllun Corfforaethol, i gynlluniau busnes ac o fewn polisïau a strategaethau strategol. Mae monitro cynlluniau busnes yn rheolaidd yn galluogi'r Cyngor i fonitro camau gweithredu allweddol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Corfforaethol a'r cynllun cyflawni. Felly, mae ein dull yn parhau i gael ei feithrin, ei gefnogi a'i herio'n ofalus, wrth iddo ddatblygu, gan sicrhau ei fod yn gweithio fel y disgwylir, ar draws y Cyngor.

Rydym wedi dechrau defnyddio data sydd ar gael ar hyb Data Cymru; i feincnodi ein perfformiad ac yn fwy diweddar rydym wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol eraill a Data Cymru, er mwyn datblygu'r system hon ymhellach ac argaeledd gwybodaeth gymharol.



Mae gan y Cyd-dîm Gweithredol ffocws cryf ar berfformiad, trwy amserlen berfformiad deuddeg wythnos y cytunwyd arni. Mae hyn yn darparu ffocws penodol ar berfformiad pob cyfarwyddiaeth, mewn perthynas â risgiau, cynnydd yn erbyn ein Cynllun Corfforaethol ac ymchwiliadau 'archwiliad dwfn' i feysydd perfformiad sy'n peri pryder.

Mae adrodd yn erbyn ein Cynllun Corfforaethol yn cael ei wneud trwy ein Proses Ddemocrataidd yn flynyddol.

Er mwyn mynd â'n dyhead o ddod yn Gyngor sy'n perfformio'n uchel i'r lefel nesaf, mae angen i ni ddod yn fwyfwy seiliedig ar ddata a deallusrwydd wrth symud ymlaen. Drwy gydol y flwyddyn ac wrth symud i'r flwyddyn nesaf, bu dull wedi'i dargedu o adolygu blaenoriaethau gwasanaeth a'r data a fydd yn cefnogi'r dystiolaeth o gyflawniad.

Mae gwaith hefyd wedi dechrau ar ddefnyddio Power BI ar gyfer cyflwyno data a sefydlu data amser real sydd ar gael i gynorthwyo gyda dibenion monitro. Bydd y darn allweddol hwn o waith yn parhau drwy gydol 2025/26 gyda'r nod o gael y rhan fwyaf o'r adroddiadau'n defnyddio Power BI a hefyd integreiddio Power BI â rhai systemau'r Cyngor.

Cyfathrebu

Darparodd y Cyngor negeseuon drwy gydol y flwyddyn a oedd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am argyfyngau fel Storm Bert, Storm Darrah, a thirlithriad tomen glo Cwmtyleri. Cefnogodd y cyfathrebiadau hyn y gwaith o wagio trigolion a hysbysu aelodau etholedig, y gymuned, a'r wasg. Mae'r dull cyngor ffederal gyda Thorfaen hefyd wedi'i gyfleu'n rheolaidd o fewn y sefydliad. Bydd timau cyfathrebu o Flaenau Gwent a Thorfaen yn cydweithio'n agosach fel rhan o'r dull hwn, mae hyn yn cynnwys Blaenau Gwent yn defnyddio'r un feddalwedd â Thorfaen ar gyfer negeseuon cyfathrebu. Adroddir ar ganlyniadau'r cydweithio hwn yn yr adroddiad hunanasesu nesaf.

Cyngor Cydweithredol a Chynhwysol sy'n

- Meithrin natur gynhwysol a chyfartal
- Cydnabod cyfraniad eraill
- Croesawu her a chyfathrebu gan gydweithwyr, cyfoedion a phartneriaid
- Canolbwyntio ar gryfderau partneriaid a chymunedau
- Agored i rannu adnoddau gyda phartneriaid a chymunedau
- Croesawu syniadau ac yn agored i gefnogi i gyflawni ei flaenoriaethau strategol

Cydraddoldeb

Cyhoeddwyd [Cynllun Cydraddoldeb Strategol \(SEP\) 2024-28](#) ym mis Ebrill 2024 ac mae'r [Adroddiad](#) Blynyddol cyntaf ar gyfer y cynllun yn tynnu sylw at ymdrechion parhaus y cyngor i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant, tra hefyd yn nodi meysydd i'w gwella a chamau gweithredu yn y dyfodol.

I hwyluso cynllun gweithredu blwyddyn un, mae'r cyngor wedi sefydlu Grŵp Goruchwylio a Chyflawni Strategol, sy'n gyfrifol am adolygu a monitro ein cynnydd ar bob cam gweithredu sy'n gysylltiedig â'n Hamcanion Strategol. Drwy alinio'r camau gweithredu hyn â'n prosesau cynllunio busnes, rydym wedi sicrhau eu bod yn cael eu holrhain yn effeithiol a'u gwella'n barhaus. Cadeirydd y grŵp yw'r Cynghorydd Chris Smith, ein Hyrwyddwr Cydraddoldeb Aelodau, sydd hefyd yn cynrychioli'r Cyngor ar Rwydwaith Cydraddoldeb Aelodau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).

Mae'r cyngor wedi cyflwyno Modiwl E-Ddysgu Cydraddoldeb i'r holl staff drwy ei blatfform hyfforddi, Thinqi. Yn ogystal, mae Aelodau Etholedig hefyd wedi cael eu hannog i gwblhau'r hyfforddiant. Mae Aelodau Etholedig wedi derbyn sawl sesiwn Frifio i aelodau ar faterion cydraddoldeb allweddol gan gynnwys Mis Hanes Sipsiwn-Teithwyr a LHDTG+ a Chynllun Cymhwysedd Diwylliannol Diverse Cymru.

Drwy gydol y cyfnod hwn, fel sefydliad

adrodd rydym



wedi parhau i gydnabod a nodi ymgyrchoedd rhyngwladol, gan gynnwys Mis Hanes Pobl Dduon, Diwrnod Cofio'r Holocaust, Mis Hanes LHDTG+ a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.

Mae'r broses Asesiad Effaith Integredig (AEI) yn parhau i fod yn offeryn hanfodol ar gyfer hwyluso a llywio ein prosesau gwneud penderfyniadau. Gan gydnabod yr angen i wella, rydym wedi nodi monitro gwell o ddefnydd yr AEI fel cam gweithredu allweddol ar gyfer y cyfnod 2025-26. Bydd hyn yn ffocws sylfaenol yn ein cynllun gweithredu Blwyddyn 2 i sicrhau bod y broses yn cael ei defnyddio'n effeithiol a'i gwella'n barhaus. Wrth symud ymlaen rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â chamau gweithredu, ceisiadau a chwynion gan y cyhoedd sy'n ymwneud â chydaddoldeb. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n drylwyr, a chymerir mesurau priodol. Bydd yr holl faterion o'r fath yn cael eu dogfennu a'u hadrodd i aelodau trwy ein proses adrodd flynyddol, gan sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

Pride Blaenau Gwent

Drwy gydol 2024/25, rhoddodd y Cyngor, fel rhan o'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol, flaenoriaeth i hawliau LHDTG+ a chynllunio gweithgareddau i'w symud ymlaen i 2025/26. Fel rhan o hyn, cynhaliodd Blaenau Gwent ei ŵyl Pride cyntaf ym mis Mai 2025; menter ar lawr gwlad a ysgogwyd gan angerdd ac ymdrechion unigolion lleol a grwpiau cymunedol. Gyda gwirfoddolwyr wrth gallon y digwyddiad, roedd y digwyddiad yn adlewyrchu grym dod ynghyd i greu rhywbeth ystyrion, hyd yn oed ar raddfa fach. O drefnu gweithgareddau i ddod â phobl at ei gilydd, mae'r dathliad hwn yn perthyn yn wirioneddol i gymuned Blaenau Gwent. Mae'r digwyddiad yn cynrychioli cryfder a chalon ein cymuned, dan arweiniad unigolion angerddol sy'n credu mewn gwneud Blaenau Gwent yn lle sy'n derbyn ac yn dangos dealltwriaeth. Mae'n ymwneud â chymryd camau ystyrion tuag at gynhwysiant mewn ffordd sy'n teimlo'n bersonol ac yn hygyrch.



Cyd-bwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Gwent (BGCG)

Mae Cyngor Blaenau Gwent wedi'i benodi'n awdurdod cynnal i ymgymryd â'r trefniadau gweinyddol a darparu cefnogaeth a chynghorwyr pwrpasol i Gyd-bwyllgor Craffu y Bwrdd Iechyd Lleol. Nod y Pwyllgor yw craffu ar effeithiolrwydd y Bwrdd Iechyd Lleol drwy adolygu'r penderfyniadau a wnaed, neu'r camau gweithredu a gymerwyd gan y Bwrdd; craffu ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd; a gwneud argymhellion yn seiliedig ar hyn i'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod pedair gwaith rhwng Ebrill 2024 a Mehefin 2025 ac wedi ystyried eitemau a oedd yn cynnwys:

- Cynllun Llesiant Gwent 2023-28 - Datblygu'r Cynllun Cyflawni
- Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Gwent 2024
- Fframwaith Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent: Y Dechrau Gorau mewn Bywyd
- Mae Pawb yn Byw mewn Lle y Maent yn Teimlo'n Ddiogel Ynddo: Adolygiad o Ddiogelwch Cymunedol a'r Bwrdd Partneriaeth Cymunedau Diogel Strategol
- Y Dechrau Gorau mewn Bywyd: Diweddariad Cynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Adroddiad Cynnydd Maes Ffocws Hinsawdd a Natur
- Llwybr Cyflym Gwent; a
- Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Gwent 2025

Cynghorau Tref a Chymuned

Gall Cynghorau Tref a Chymuned (CTCh) helpu'r Cyngor i ddeall y materion sy'n effeithio ar y gymuned leol. Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys cyllideb y Cyngor.

Mae pedwar CTCh ym Mlaenau Gwent:

- Cyngor Tref Tredegar
- Cyngor Tref Nant-y-glo a Blaenau
- Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhilledd a
- Cyngor Tref Brynmawr

Yn 2024/25, parhaodd y Cyngor a'r pedwar CTCh i adeiladu ar drefniadau cysylltu presennol a gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu Siarter Cytundeb Cyffredin wedi'i hadnewyddu. Mae'r Siarter newydd yn hyrwyddo arferion gorau ac egwyddorion a rennir fel bod yn agored, parch, gonestrwydd, a blaenoriaethu dinasyddion. Hyd yn hyn nid yw pob CTCh wedi llofnodi'r Siarter, ac mae angen sgwrs bellach i gael ei gymeradwyo'n llawn.

Cyhoeddodd y Cyngor a'r holl Gynghorau Tref a Chymuned lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog, addewid o gefnogaeth gydfuddiannol rhwng cymunedau sifil lleol a chymunedau'r Lluoedd Arfog, yn ogystal â gweithio gyda'i gilydd ar ddatblygu Cyllideb, Addurniadau Nadolig ar Oleuadau Stryd, adrodd ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a chynllunio a hyrwyddo digwyddiadau llesiant.

Mae blaenraglen waith wedi'i chynllunio gyda phrosesau monitro ac adolygu wedi'u hymgorffori. Bydd y dull hwn nid yn unig yn gwella canllawiau ac ymgysylltiad â Chynghorau Tref a Chymuned yn y dyfodol ond hefyd yn caniatáu i bartneriaid sicrhau bod yr ymrwymïadau ar y cyd a amlinellir yn y Siarter yn parhau i fod yn briodol ac yn berthnasol dros amser.



Cyngor wedi'i reoli'n dda sy'n

- croesawu ei werthoedd craidd
- gwerthfawrogi llesiant a chyfraniad staff
- buddsoddi mewn staff ac yn meddu ar gynlluniau ar gyfer gweithlu'r dyfodol
- meddu ar lywodraethu da i sicrhau y gwneir penderfyniadau cadarn

Y Gweithlu

Mae'r Cyngor yn parhau i fod y cyflogwr mwyaf yn y fwrdeistref, gan gyflogi 1,728 o bobl heb gynnwys staff ysgolion neu 3,000 wrth gynnwys staff ysgolion. Mae 73% o weithlu'r Cyngor mewn rolau parhaol sy'n darparu sefydlogrwydd o fewn y sefydliad, mae hyn yn ostyngiad bach o'i gymharu â'r llynedd pan oedd y rhai mewn rolau parhaol bron yn 75%. Mae 12% o'r staff mewn swyddi tymor penodol ac 11% yn swyddi llanw. Mae mwyafrif y swyddi llanw mewn Arlwyo a Glanhau a Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n gyson â'r hyn y byddech chi'n ei ddisgwyl gan natur y gweithlu yn yr ardaloedd hyn. Mae swyddi gwag yn parhau'n gyson, gyda dros 90% o rolau wedi'u llenwi ym mhob cyfarwyddiaeth. Mae dros hanner y gweithlu yn parhau i fod yn 'seiliedig ar wasanaeth' gyda'r staff sy'n weddill wedi'u rhannu rhwng gweithwyr sy'n gweithio gartref ar 7%, a gweithwyr ystwyth ar 36%. Mae gan 50% o'r gweithlu fwy na 10 mlynedd o wasanaeth.

Mae gan y Cyngor lefel isel o amrywiaeth ymhlith y gweithlu, mae 65% (o'r rhai sydd wedi darparu'r wybodaeth) wedi nodi eu bod yn uniaethu fel Prydeinig, Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon. (Mae hyn yn adlewyrchu'r gymuned). Bydd hyrwyddo amrywiaeth yn y gweithlu yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol fel rhan o Strategaeth Gweithlu'r Cyngor. Mae gan y Cyngor weithlu sy'n heneiddio lle mae 56% o'r gweithlu dros 46 oed, gyda 10% o'r gweithlu yn 29 oed ac iau.

Buddsoddi yng ngweithlu Blaenau Gwent yn y dyfodol

Mae Rhaglen Prentisiaeth a Rennir Aspire o fewn Blaenau Gwent yn brosiect strategol gyda nifer o bartneriaid, sef Parth Menter Glynebwy, Addysg, Diwydiannau a Sir Blaenau Gwent. Mae'r rhaglen wedi'i gosod i wella datblygiad sgiliau o fewn cwmnïau gweithgynhyrchu a pheirianneg i ddatblygu twf busnes; wrth fynd i'r afael â diweithdra a darparu cyfleoedd uchelgeisiol i bobl ifanc.

Prentisiaid Allanol Aspire	Prentisiaid Mewnol Aspire	Plant sy'n Derbyn Gofal Aspire
Cyfanswm Nifer y Prentisiaid 139	Cyfanswm nifer y Prentisiaid 41	Nifer yr atgyfeiriadau gan y tîm 14+ 27
Nifer y Prentisiaid sydd ar y Rhaglen ar Hyn o Bryd 41	Nifer y Prentisiaid sydd ar y rhaglen ar hyn o bryd 14	Nifer y lleoliadau gwaith/hyfforddeiaethau a hwyluswyd 18
Canran sy'n byw ym Mlaenau Gwent 47%	Canran sy'n byw ym Mlaenau Gwent 70%	Nifer y rhai sydd mewn cyflogaeth nawr 7
Canran sy'n ddynion 84%	Canran sy'n ddynion 44%	
Canran sy'n ferched 16%	Canran sy'n ferched 56%	
	Nifer y Prentisiaid sydd wedi symud i gyflogaeth 17	

Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24

Datblygir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) gan ddefnyddio Fframwaith Delivering Good Governance in Local Government CIPFA/Solace. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd cyrff perthnasol yn paratoui datganiad llywodraethu blynyddol ar reolaeth fewnol gan ddefnyddio Fframwaith CIPFA/Solace i gynrychioli arferion priodol orau mewn perthynas â'r datganiad ar reolaeth fewnol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatganiad llywodraethu blynyddol gael ei gynhyrchu.

Fel arfer gorau mae argymhell:

CIPFA yn



- dylai fersiwn ddrafft lawn o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gyd-fynd â'r datganiad cyfrifon; a
- dylai'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gael ei gymeradwyo gan aelodau sy'n cyfarfod fel pwyllgor cyfan ar yr un pryd ag y caiff y datganiad cyfrifon ei gymeradwyo o dan Reoliad 10(2) yng Nghymru

Cyflwynwyd y [Datganiad](#) Llywodraethu Blynyddol terfynol 2023/24 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 28 Gorffennaf 2025, ochr yn ochr â'r Datganiad o Gyfrifon 2023/24 yn unol â Chanllawiau CIPFA. Ar yr adeg hon nid oedd unrhyw welliannau i'r adroddiad. Oherwydd yr oedi wrth adrodd ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ochr yn ochr â'r Datganiad o Gyfrifon, mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cwmpasu'r flwyddyn 2023/24 ond mae'n darparu manylion hyd at fis Mehefin 2025 lle bo modd.

Mae'r datganiad wedi'i gasglu yn dilyn ymarfer casglu tystiolaeth sy'n galw ar nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Adroddiadau rheoleiddio mewnol ac allanol
- Adroddiad Blynyddol y Rheolwr Archwilio a Risg; a
- Datganiadau Sicrwydd Uwch Reolwyr

Cod Llywodraethu 2023/24

Mae gan yr Awdurdod God Llywodraethu ar waith ers 2010. Mae'r Cod hwn yn nodi'r Fframwaith Llywodraethu ar gyfer yr Awdurdod gan nodi ein dull a'n hymrwymiad i gyflawni a chynnal llywodraethu corfforaethol da o fewn y sefydliad. Mae llywodraethu corfforaethol da yn sicrhau bod y Cyngor yn atebol, yn dryloyw, yn effeithiol ac yn effeithlon wrth ddarparu gwasanaethau a chyflawni ein cyfrifoldebau i'n dinasyddion a'n rhanddeiliaid.

Mae'r Cod yn dangos bod gennym drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith yn y rhan fwyaf o feysydd sy'n gwella'n barhaus, ond mae hefyd yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud. Caiff y cod ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn adlewyrchu trefniadau llywodraethu presennol yr Awdurdod. Mae'r Cod yn ffurfio'r sail y cynhyrchir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ei herbyn ac mae'n amlinellu saith egwyddor graidd sy'n helpu i gyflawni llywodraethu da. Gellir dod o hyd i'r Cod Llywodraethu diweddaraf [yma](#). Bydd Cod Llywodraethu 2024/25 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn dilyn adrodd ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24.

Asesiad Panel Cyfoedion (PAC) 2024

Ym mis Tachwedd 2024, cynhaliodd Cyngor Blaenau Gwent eu Asesiad Panel Cyfoedion cyntaf fel rhan o'r gofynion o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae ystyriaeth y Ddeddf i hunanasesu effeithiol yn hanfodol i alluogi'r Cyngor i ddeall sut rydym yn perfformio a lle gallew wneud yn well, ac mae hyn yn cyd-fynd yn agos iawn â'n credoau sydd wedi bod yn sail i ddatblygiad ein systemau a'n prosesau newydd.

Archwiliodd yr Asesiad Panel Cyfoedion safbwynt y cynghorau mewn perthynas â'r tair dyletswydd perfformiad yn ogystal â:

- Perthnasoedd aelodau/swyddogion
- Cynaliadwyedd (cyllid, galw, trawsnewid)
- Ymrwymiad polisi Marmot; ac
- Y Cyfnod Darganfod (ffederasiwn)

Drwy gydol arweinyddiaeth yr Asesiad Panel Cyfoedion, ystyriwyd diwylliant a pharodrwydd i gyflawni hefyd.



Daeth y panel i'r casgliadau canlynol:

- Mae'r cyngor yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol o fewn y cyfyngiadau demograffig ac ariannol heriol y mae'n eu hwynebu
- Mae nifer o gryfderau megis arweinyddiaeth sefydlog, gweledigaeth hirdymor, gwell prosesau gwneud penderfyniadau strategol, a mwy o atebolrwydd
- Mae cefnogaeth eang i'r ffederasiwn arfaethedig
- Mae dealltwriaeth glir o'i rôl ac mae wedi amlinellu gweledigaeth newydd yn ei gynllun corfforaethol;
- Gall natur drawsbynciol y cynllun corfforaethol hyrwyddo perchnogaeth a rennir ledled y sefydliad, a all helpu i alinio adnoddau â blaenoriaethau allweddol;
- Mae gan fabwysiadu Egwyddorion Marmot ym Mlaenau Gwent y potensial i fod yn gam sylweddol ymlaen wrth fynd i'r afael ag amddifadedd hirsefydlog
- Mae'r gweithlu'n ased - yn ffyddlon, yn ymrwymedig, ac yn angerddol am wasanaethu'r gymuned; ac
- Mae rhaglen 'Pontio'r Bwlch' y cyngor yn amlinellu cynlluniau i fynd i'r afael â phwysau refferiw tymor canolig, gan ymgorffori holl elfennau nodweddiadol strategaeth o'r fath

Cydnabuwyd cryfderau cyffredinol fel a ganlyn:

- Prif Weithredwr dros dro deinamig sy'n cymryd rhan weithredol yn y rôl, sydd wedi gwella eglurder ac atebolrwydd strwythur arwain y cyngor
- Mae'r Prif Weithredwr dros dro ac Arweinydd y Cyngor wedi ennill ymddiriedaeth a chefnogaeth gref gan bob lefel o fewn y cyngor, gan adlewyrchu lefel uchel o hyder yn eu galluoedd arwain
- Mae'r cyngor yn gweithredu o fewn sector cyhoeddus Cymru sy'n wynebu heriau cynaliadwyedd sylweddol. Mewn ymateb i'r heriau hyn, mae'r cyngor yn cychwyn ar ymyrraeth radical trwy ffederasiwn arfaethedig gyda Chyngor Torfaen
- Mae mabwysiadu Egwyddorion Marmot ym Mlaenau Gwent yn gam pwysig, gan ei fod yn cydnabod yn uniongyrchol yr heriau sylweddol y mae'r ardal yn eu hwynebu, yn enwedig o ran anghydraddoldebau iechyd a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd
- Roedd partneriaid yn canmol y ffordd y mae'r cyngor wedi rhannu ei gynllun corfforaethol a'i flaenoriaethau, gan osod disgwyliadau clir y dylai blaenoriaethau partneriaid gyd-fynd lle bynnag y bo modd. Drwy gysoni adnoddau a blaenoriaethau â phartneriaid, mae'r cyngor yn dangos ei ymrwymiad i fynd i'r afael â materion lleol yn fwy effeithiol a gwella canlyniadau i'r gymuned
- Mae canfyddiadau'r panel yn tynnu sylw at amgylchedd gwaith a nodweddir gan broffesiynoldeb a pharch at ei gilydd. Ar y lefel strategol, mae tystiolaeth glir bod y tîm arwain yn cyd-fynd â nodau'r cyngor gan ddangos ymrwymiad cryf i gydweithio wrth gyflawni'r amcanion hyn. Mae'r cysondeb hwn rhwng arweinyddiaeth a nodau sefydliadol yn cael ei dderbyn yn gadarnhaol gan staff ac Aelodau Etholedig
- Mae strategaeth ymgysylltu a chyfranogiad y cyngor yn canolbwyntio ar allgymorth, gan ddefnyddio amrywiol ddulliau i gasglu lleisiau cymunedol amrywiol; ac
- Mae'r cyngor yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu'r gweithlu, lles staff, ac ymgysylltu

Wrth ymateb i adroddiad y PAC, mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ymateb i'r canlynol:

- Y graddau yr ydym yn derbyn y casgliadau yn yr adroddiad
- Y graddau y mae'r cyngor yn bwriadu dilyn unrhyw argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad; ac
- Unrhyw gamau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad (Cynllun Gweithredu).



Dyma'r datganiad ar gyfer "i ba raddau yr ydym yn derbyn y casgliadau yn yr adroddiad":

“Mae'r Cyngor yn derbyn yr adroddiad a'i gasgliadau. Mae'n nodi bod yr Asesiad yn broses ddefnyddiol er mwyn sbarduno gwelliant ar draws y Cyngor. Gofynnodd y Cyngor i'r Panel ystyried meysydd ychwanegol a chefnogwyd hyn a llywiodd yr argymhellion terfynol.

Ar gyfer Asesiadau yn y dyfodol, byddem yn croesawu mwy o gynnwys yn yr adroddiad terfynol ar y dystiolaeth a welwyd sydd wedi arwain at bob argymhelliad”.

Dyma'r datganiad ar gyfer y “graddau y mae'r cyngor yn bwriadu dilyn unrhyw argymhellion sydd yn yr adroddiad”:

“Mae'r Cyngor yn derbyn yr holl argymhellion a wnaed yn yr adroddiad PAC ac mae wedi rhoi Cynllun Gweithredu ar waith sy'n nodi sut y bydd yn bwrw ymlaen â phob argymhelliad. Dylid nodi bod yr Asesiad hwn wedi'i wneud ar adeg benodol a bod cynnydd eisoes wedi digwydd yn gyflym o amgylch rhai meysydd”.

Darparwyd cyfanswm o 15 o argymhellion i'r Cyngor. Defnyddiwyd yr argymhellion i sefydlu cynllun gweithredu er mwyn ymateb yn briodol i'r canfyddiadau a'u gweithredu. Gellir dod o hyd i'r canfyddiadau a'r cynllun gweithredu [yma](#).

Arolwg Staff

Ym mis Tachwedd 2024, cynhaliodd y Cyngor arolwg staff dienw i asesu safbwyntiau gweithwyr ar weithio i'r sefydliad. Roedd yr arolwg yn ymdrin â phynciau gan gynnwys cyfrifoldebau swydd, amgylchedd gwaith, cyfathrebu, ac arferion rheoli. O'r 1,857 o aelodau staff nad ydynt yn gweithio yn yr ysgol a wahoddwyd i gymryd rhan, ymatebodd 784, gan arwain at gyfradd ymateb gyffredinol o 42%, sy'n cynrychioli gostyngiad bach o 45% yn 2019. Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi eu lefel o gytundeb â gwahanol ddatganiadau, gan ddewis o: cytuno'n gryf, cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, anghytuno, neu anghytuno'n gryf. Roedd rhai o ganlyniadau'r arolwg yn cynnwys bod 75% o'r ymatebwyr yn gallu taro'r cydbwysedd cywir rhwng eu bywyd gartref a'u gwaith, tra bod 68% o'r staff yn teimlo bod ganddynt gyfleoedd i ddatblygu sgiliau newydd. Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu defnyddio i yrru gwelliannau a gwneud newidiadau mewnol ar draws y sefydliad.



Cyngor Ysgogol a Hygyrch sy'n

- defnyddio ystod eang o offer i ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid
- cynnwys staff a thrigolion mewn materion sy'n effeithio arnyn nhw
- manteisio ar syniadau gan gwsmeriaid a staff
- agored ac yn onest gyda staff a thrigolion
- rhannu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad amserol ac yn dathlu llwyddiant

Ymgysylltu a Chyfranogiad

Mae ymgysylltu, cyfranogiad, a phrofiad cwsmeriaid yn themâu hanfodol sy'n dylanwadu ar brosesau cynllunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogaeth gymunedol hirdymor ac yn anelu at gyflawni hyn trwy ymgysylltu cymunedol gweithredol. Mae ymgysylltu effeithiol yn hanfodol ar gyfer gweithrediad effeithlon y Cyngor, gan sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn addas ac yn diwallu anghenion defnyddwyr.

Ym mis Mehefin 2024 cymeradwywyd Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad newydd y Cyngor. Mae hon yn nodi pam mae angen i ni ymgysylltu, gyda phwy a sut y byddwn yn cyflawni hyn. Byddwn yn defnyddio'r un egwyddor ar gyfer yr elfen gyfranogiad, er y bydd hyn yn fwy penodol i fynd i'r afael â'r gofynion a nodir yn adran 4 o'r adroddiad hwn i sicrhau bod pobl leol yn gallu cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau gan y cyngor.

Er mwyn datblygu'r strategaeth cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus gyda 170 o ymatebion yn cael eu derbyn. Roedd themâu cyffredin o'r ymgysylltu yn cynnwys:

- Ymgysylltu wedi'i dargedu â phobl ifanc, pobl hŷn, y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol a chymunedau anodd eu cyrraedd
- Darparu adborth o ymgynghoriadau a gweithgareddau ymgysylltu a gweithredu arno e.e. cyfathrebiadau 'Dywedoch chi, fe wnaethon ni...';
- Argaeledd arolygon, taflenni a dogfennau ymgynghori ar gopiâu caled lle bo modd
- Optimeiddio amseriad gweithgareddau ymgysylltu wyneb yn wyneb neu gyfarfodydd ar-lein i sicrhau y gall pobl sy'n gweithio gymryd rhan
- Sicrhau bod dull ymgysylltu cyson, hawdd ei ddeall yn cael ei ddefnyddio gan bob adran ar draws y Cyngor; a
- Gwneud defnydd o'r Hybiau Cymunedol fel cyfle i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu

Derbyniwyd rhai sylwadau mwy negyddol hefyd ynglŷn â nifer yr arolygon a'r ymarferion ymgynghori a gynhaliwyd (blinder ymgynghori) a chanfyddiad nad yw'r Cyngor yn gwrando ar ymatebion.

Rhai themâu cyffredin ar gyfer cyfranogiad a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion ymgynghori i'w hystyried drwy'r Cynllun Gweithredu oedd:

- Optimeiddio amseriad cyfarfodydd pwyllgor i sicrhau y gall pobl sy'n gweithio gymryd rhan
- Darparu mwy o wybodaeth am y broses o wneud penderfyniadau a phenderfyniadau neu ganlyniadau o gyfarfodydd pwyllgorau drwy sianeli cyfathrebu
- Mwy o gyfleoedd i bobl ymgysylltu'n uniongyrchol â chynghorwyr, naill ai wyneb yn wyneb neu drwy gyfarfodydd MS Teams neu Zoom ar-lein
- Annog pobl i gymryd rhan mewn democratiaeth leol, gyda 80-90% o'r ymatebwyr eisiau gweld 'mwy' o gyfleoedd i ddarganfod sut mae'r Cyngor yn gweithio a mynychu, gwyllo, siarad neu gyflwyno cwestiynau i gyfarfodydd Pwyllgor; a



- Rhywfaint o ddiddordeb mewn dysgu mwy am rôl Cynghorydd Bwrdeistref Sirol a sut i ddod yn un yn y dyfodol

Derbyniwyd rhai sylwadau negyddol hefyd a oedd yn tystio i rai camsyniadau am rôl a chyflog Cynghorydd, y gellid mynd i'r afael â nhw drwy ymgyrch gyfathrebu barhaus wedi'i thargedu i chwalu mythau a gwybodaeth gyda'r arolwg trigolion i godi ymwybyddiaeth.

Yn 2024/25 mae'r Cyngor wedi cynnal Arolwg Staff yn llwyddiannus ar draws y Cyngor ac mae hefyd wedi hwyluso cyfranogiad trigolion lleol yn yr Arolwg Trigolion lleol a arweinir yn genedlaethol gyda dros 1,800 o bobl yn cymryd rhan.

Rhyddid y Fwrdeistref – Steve Jones MBE

Mae'r marathonwr Steve Jones MBE, OLY wedi derbyn Rhyddid y Fwrdeistref ar gyfer Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent am ei gyfraniad rhagorol i fydd rhedeg.

Rhoddodd y cynghorwyr yr anrhydedd mewn cyfarfod o'r Cyngor, gyda Steve a dorrodd y record (sy'n cael ei adnabod fel 'Jonesy') yn bresennol yn fyw o'i gartref yn Colorado, Unol Daleithiau America. Daeth teulu a ffrindiau hefyd i'r achlysur nodedig.

Roedd 2024 yn nodi 40 mlynedd ers buddugoliaeth nodedig Steve Jones ym Marathon Chicago ym 1984, buddugoliaeth a swynodd y byd a chadarnhau ei le yn hanes athletau. Ar y diwrnod hwnnw ym 1984, nid yn unig croesodd Jones, o Lynebwy, y llinell derfyn yn gyntaf ond hefyd fe dorrodd record, gan ddangos cymysgedd rhyfeddol o ddyfalbarhad, penderfyniad, a grym ewyllys pur. Gosododd record byd newydd, gan gwblhau'r cwrs mewn 2 awr, 8 munud, a 5 eiliad rhyfeddol.

Mae'r mis hwn hefyd yn nodi 40 mlynedd ers i Steve gipio teitl Marathon Llundain. Mae ei restr o gyflawniadau rhedeg yn drawiadol a gellir dod o hyd iddi [yma](#).

Mae cais wedi'i wneud i osod cerflun 2.85 metr o uchder i goffáu Steve Jones yng Nghanolfan Chwaraeon Glynebwy. Mae'r prosiect yn cael ei gyflawni gan grŵp sy'n cynnwys yr Awdurdod Lleol, Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, Cynghorwyr a chynrychiolydd a gododd arian ar gyfer y prosiect.

Bydd y cerflun, a fydd yn cael ei osod ar garreg galchfaen a gloddiwyd yn lleol, yn silwét a fydd yn dangos Steve Jones yn gwisgo'r rhif 10 yn torri record y byd ym 1984 wrth ennill Marathon Chicago.

Arolwg trigolion

Cynhaliwyd arolwg Gadewch i Ni Siarad: Byw ym Mlaenau Gwent ym mis Hydref/Tachwedd 2024 gan Data Cymru, cangen o Lywodraeth Cymru, ar ran awdurdod lleol Blaenau Gwent.

Roedd yr arolwg ar gyfer trigolion Blaenau Gwent i gynorthwyo'r Cyngor i ddeall yn well y canlynol:

- Beth sy'n bwysig i chi
- Eich profiad o'ch ardal leol; a
- Sut rydych chi'n gweld y Cyngor ac yn rhyngweithio ag ef



Derbyniwyd ymatebion gan 1,809 o drigolion Blaenau Gwent. Rhoddodd yr arolwg fewnwelediadau gwerthfawr i wahanol agweddau ar fyw ym Mlaenau Gwent. Roedd yr arolwg yn cwmpasu demograffeg, iechyd, boddhad â'r ardal leol, diogelwch, gwasanaethau'r cyngor, a rhyngweithio â'r cyngor.

Mae'r ymatebion bellach yn cael eu defnyddio i helpu i lunio'r ardal leol a gwasanaethau lleol.

Hyrwyddwyr aelodau

Mae nifer o Hyrwyddwyr Aelodau yn eu lle sy'n cynrychioli meysydd gwaith allweddol penodol. Y rhain yw:

- Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Amrywiaeth
- Oed-gyfeillgar
- Arian Clyfar, Tlodi ac Anghydraddoldeb
- Lliniaru Hinsawdd
- Lluoedd Arfog
- Llesiant; a
- Digidol

Rydym yn cyfathrebu'n agored ac yn onest â thrigolion ac Aelodau. Mae'r cyfathrebu hwn yn aml a thrwy amrywiaeth o gyfryngau, sydd wedi profi i fod yn hynod gynhyrchiol, gyda llawer iawn o rhyngweithio ac adborth. Rydym yn dathlu ein llwyddiannau'n dda ac yn agored ac yn onest mewn meysydd lle nad yw ein cynlluniau wedi'u cyflawni, fel y bwriadwyd.



Cyngor sy'n graff o ran materion ariannol, sy'n

- meddu ar ddulliau llywodraethu ariannol cadarn
- rheoli adnoddau'n llwyddiannus ac yn ceisio gwerth am arian
- cynhyrchu incwm lle bo hynny'n briodol
- hyrwyddo mewnfuddsoddi i'r eithaf
- buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol

Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o Gynaliadwyedd Ariannol y Cyngor yn 2023/24 a chanfu 'fod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i gefnogi ei gynaliadwyedd ariannol, ond dim ond os yw'n gweithio'n gyflym i nodi, cymeradwyo a gweithredu arbedion digonol i leihau ei fwlch ariannu tymor canolig mewn ffordd gynaliadwy y bydd y rhain yn effeithiol'.

Mewn ymateb, ymatebodd y Cyngor i'r ddau argymhelliad a nodwyd gan Archwilio Cymru. Mae hyn wedi cynnwys y rhaglen Pontio'r Bwlch sy'n parhau i fod yn ddull strategol y Cyngor o gyflawni effeithlonrwydd ariannol a gwella sefydlogrwydd ariannol wrth osod cyllideb gytbwys. Mae'r Adolygiadau Busnes Strategol wedi'u strwythuro o amgylch y themâu canlynol:

- Cynhyrchu Incwm
- Optimeiddio Asedau; a
- Cydweithio ac ailgynllunio gwasanaethau

Adroddir ar gynnydd prosiectau Pontio'r Bwlch i aelodau bob chwarter. Mae'r Cyngor hefyd wedi cytuno i archwilio cydweithio agosach â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, a rhagwelir y bydd hyn yn arwain at wasanaethau mwy gwydn ac effeithlonrwydd cost posibl. Bydd gweithredu cyfleoedd a nodwyd yn sail i Raglen Drawsnewid y cytunwyd arni dros y 3 blynedd nesaf.

Ymgysylltu â'r Gyllideb

Cytunwyd ar Gyllideb 2025/26 gan y Cyngor ddechrau 2025, gyda chefnogaeth rhaglen ymgysylltu a weithredwyd yn gynnar yn dilyn cyhoeddiad y Setliad Llywodraeth Leol ganol mis Rhagfyr 2024 gan Lywodraeth Cymru. Oherwydd yr amserlenni tynn yn dilyn y cyhoeddiad, cytunwyd y byddai'r dull ar gyfer 2025/26 yn arolwg cyllideb, gyda chefnogaeth hyrwyddo cyfryngau cymdeithasol, a phrosesau i gefnogi pobl sy'n cymryd rhan yn ein hybiau cymunedol. Bwriad hyn i gyd oedd cael pobl i gymryd rhan a rhannu eu barn ar flaenoriaethu gwasanaethau'r cyngor a gosod y dreth gyngor.

Cymerodd cyfanswm o 817 o ymatebwyr ran yn yr arolwg, sy'n cyfateb i ychydig dros 1% o boblogaeth yr ardal. Mae'r gyfradd ymateb hon ychydig yn uwch na'r llynedd pan dderbyniwyd 680 o ymatebion. Mae hyn yn fras yn unol â'r cyfraddau ymateb disgwyledig ar gyfer prosesau ymgysylltu â'r gyllideb o flynyddoedd blaenorol a dyma'r ail gyfradd ymateb uchaf ar gyfer ymgysylltu â'r gyllideb a gynhaliwyd gan y Cyngor.

Cyflwynwyd yr adborth o'r ymgynghoriad cyllideb i'r Cyngor a chafodd ei ystyried fel rhan o'r broses o osod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn.



Cyngor sy'n ddigidol, sy'n cael ei arwain gan ddata, ac sy'n/sydd

- defnyddio data i ragweld anghenion
- creu proffiliau digidol i ddeall siwrneai cwsmeriaid yn well
- bob amser ymlaen - galluogi trigolion i gael mynediad at ystod eang o wasanaethau digidol
- cynnwys trigolion drwy gynhwysiant digidol a llwyfannau digidol

Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid

Ar ôl ailasesu ein model cyflawni Gwasanaethau Cwsmeriaid, lansiodd y Cyngor [Strategaeth](#) Gwasanaethau Cwsmeriaid newydd y llynedd i ganolbwyntio ar ddarparu profiadau cadarnhaol i gwsmeriaid, cefnogi staff i ddatrys ymholiadau cwsmeriaid ar y cyswllt cyntaf a defnyddio technoleg yn effeithiol.

Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu'r strategaeth ar gyfer 2024/2025 trwy amrywiaeth o raglenni sy'n cynnwys hyfforddiant ar gyfer rolau sy'n wynebu cwsmeriaid yn ein Canolfan Gyswllt, hybiau cymunedol, a gwasanaeth budd-daliadau gan gyfarparu'r holl staff corfforaethol sy'n ymwneud â chwsmeriaid â sgiliau craidd gwasanaeth cwsmeriaid.

Er mwyn profi'r meini prawf a chasglu mewnwelediadau i'n [Safonau](#) Gwasanaethau Cwsmeriaid a'n [Siarter](#) Gwasanaethau Cwsmeriaid a lansiwyd ochr yn ochr â'r strategaeth, cynhaliwyd cynllun peilot, a chyflwynwyd arolygon i ddeall adborth cwsmeriaid a helpu i wella'r ddarpariaeth gwasanaeth. Fodd bynnag, mae ymgysylltu wedi profi'n heriol, gyda dim ond tua 9% o'r arolygon a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Gyswllt yn cael eu dychwelyd, a thua 13% o'r arolygon a gyhoeddwyd gan hybiau yn cael eu cwblhau wyneb yn wyneb.

Y flwyddyn nesaf, byddwn yn adolygu effaith y strategaeth ar ddarparu gwasanaethau a phrofiad cwsmeriaid, yn ymestyn hyfforddiant ar draws y sefydliad, ac yn defnyddio canfyddiadau'r cynllun peilot i wella ein siarter a'n safonau. Rydym hefyd wedi newid y model arolwg cwsmeriaid ar gyfer 2025/26, felly mae bellach yn rhan o'n platfform teleffoni canolfan gyswllt newydd.

Strategaeth Trawsnewid Digidol

Mae'r ffordd y mae'r cyhoedd yn cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor wedi newid gyda mwy o wasanaethau'n cael eu darparu ar-lein; er mwyn helpu i ddiwallu anghenion y gymuned a helpu i ddarparu ein gwasanaethau'n fwy effeithlon, lansiodd y Cyngor Strategaeth Trawsnewid Digidol yn 2023/2024. Mae'r strategaeth yn ei blwyddyn gyntaf o weithredu ac mae'n un o set o raglenni digidol/TGCh strategol a gynlluniwyd i sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol ar draws y gymuned a chyflawni canlyniadau gwell i'n cwsmeriaid, busnesau a dysgwyr.

Yn 2024/2025 bu ystod o raglenni gwaith i gefnogi cyflawniad y strategaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- Defnyddio technoleg awtomeiddio i wella prosesau mewnol
- Adolygu ein gwefannau gan gynnwys cynnwys a strwythur; a
- Newid o Deleffoni i offer cyfathrebu digidol

Mae [Strategaeth](#) Trawsnewid Digidol newydd wedi'i datblygu ar gyfer ysgolion, sy'n amlinellu elfennau allweddol sy'n gysylltiedig â thaith y dysgwr digidol. Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â Strategaeth Trawsnewid Digidol y Cyngor 2023/27.



Mae canran uchel o'r rhai sy'n ymweld â'r Hybiau Cymunedol yn nodi nad ydynt yn gallu hunanwasanaethu. Dull dewisol y Cyngor o ddarparu gwasanaethau yw trwy ddulliau digidol ond nid yw nifer uchel o bobl Blaenau Gwent yn gallu defnyddio'r dechnoleg ddigidol.

Gwelsom fod:

- 56% o gwsmeriaid wedi hunanwasanaethu'n ddigidol wrth gwblhau ceisiadau gwasanaeth; a
- cafodd 44% o gwsmeriaid eu cefnogi gan y Ganolfan Gyswllt neu'r Ganolfan Gymunedol

Yn 2024/25 bu mwy o ymdrech i gefnogi trigolion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Penodwyd Swyddog Allgáu Digidol i gynorthwyo trigolion yn y gymuned i fynd ar-lein, gwella eu sgiliau digidol a chefnogi'r gymuned i hunanwasanaethu.

Ar hyn o bryd mae rôl y Swyddog Allgáu Digidol yn cael ei hariannu drwy gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Cadarnhawyd cyllid ar gyfer 2025/26, gan alluogi integreiddio parhaus y prosiect allgáu digidol o fewn model y ganolfan a chefnogaeth barhaus i Rwydwaith Allgáu Digidol Gwent. Fodd bynnag, gan nad yw cyllid wedi'i ddyrannu eto y tu hwnt i'r cyfnod hwn, mae posibilrwydd na fydd y prosiect yn parhau yn y dyfodol. Bydd rôl cefnogi trigolion o fewn y gofod Digidol yn cael ei chyflawni fel rhan o ddull y Ganolfan Gymunedol a bydd yn agwedd gynaliadwy o hyn wrth symud ymlaen.

Mae Rhwydwaith Allgáu Digidol Gwent hefyd wedi'i sefydlu gan y Cyngor i ymgysylltu â phartneriaid y trydydd sector i drafod yr hyn y mae sefydliadau'n ei wneud yn ddigidol ar hyn o bryd a pha gynlluniau digidol sydd gan sefydliadau ar gyfer y dyfodol sy'n galluogi cydweithio yn y maes hwn.

Digidol

Mae Cyngor Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy a Chasnewydd yn bartneriaid yn y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (SRS) sydd wedi cyflenwi gwasanaethau technoleg yn llwyddiannus i'r Cyngor hwn ers 2016.

Er mwyn cefnogi cydweithio ac alinio gwasanaethau, mae cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i greu gwasanaeth Digidol, Data a Thechnoleg (Ddat) unedig gyda'r nod o wella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ar draws sawl awdurdod lleol. Fel rhan o'r broses hon, bydd timau digidol ar draws Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy a Chasnewydd yn trosglwyddo i'r SRS. Mae'r manteision disgwylid yn cynnwys:

- Gwydnwch ar gyfer datblygu a darparu gwasanaethau
- Mwy o fomentwm i gyflawni uchelgeisiau digidol sefydliadol
- Gwneud y gorau o sgiliau a chapasiti ac osgoi dyblygu
- Cyfleoedd datblygu ehangach i staff; a
- Gwasanaethau llunio dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr

Mae'r SRS yn ceisio creu gwasanaeth cyhoeddus digidol modern a bywiog a fydd yn newid y ffordd rydym yn gwasanaethu ein dinasyddion a'n rhanddeiliaid.

Swyddfa Dadansoddi Data Cymru'n Un

Bydd Swyddfa Dadansoddi Data Cymru'n Un (OODA) yn fenter arloesol, gan rymuso cymunedau o bob math i lunio eu dyfodol eu hunain, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac egwyddorion Marmot. Byddwn yn harneisio grym data, nid fel offeryn rheoli o'r brig i lawr, ond fel catalydd ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau dan arweiniad y gymuned sy'n hyrwyddo lles teg a chynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Rydym yn rhagweld rhanbarth lle mae data yn hygyrch, yn ddealladwy, ac yn cael ei ddefnyddio'n foesebol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chreu cymdeithas decach i bawb.



Bydd yr OODA yn cyflawni mentrau fel y Dull Ar y Cyd ar gyfer Llesiant Cymunedol, a elwir yn fenter JACOB. Bydd yr OODA wedi'i seilio ar egwyddorion gwaith Swyddfa Dadansoddi Data Nesta i drawsnewid sut rydym yn darparu gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y swyddogaeth hon yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau rheng flaen, cynhyrchu mewnwelediadau ymarferol o ddata, meithrin cydweithio ar draws asiantaethau, a datblygu atebion arloesol i fynd i'r afael â heriau cymhleth. Manteision y dull hwn fydd:

- Canlyniadau gwasanaeth gwell i ddinasyddion trwy gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n seiliedig ar ddata
- Effeithlonrwydd cynyddol, prosesau wedi'u hoptimeiddio a llai o ddyblygu
- Dyraniad adnoddau gwell yn arwain at arbedion cost
- Gwneud Penderfyniadau Strategol Gwell
- Llai o anghydraddoldebau drwy dargedu adnoddau ac ymyriadau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau



Y Flwyddyn i Ddod a Thu Hwnt

Drwy gydol ein hadroddiad rydym wedi amlinellu llawer o'r heriau allweddol yr ydym yn eu hwynebu fel sefydliad, yn ogystal â'r datblygiadau allweddol yr ydym yn bwriadu eu cyflawni. Fodd bynnag, mae nifer fach o gysyniadau canolog, sy'n hanfodol i'n dull o sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu diwallu eu hanghenion.

Mae ein ffocws ar gyflawni Cynllun Meistr Marmot a dull ein cymunedau, ochr yn ochr â chyflawni'r Cynllun Corfforaethol, yn rhoi ffocws arnom ni i ddarparu mwy o wydnwch i'n cymunedau a'n trigolion, i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, gan arwain at lawer mwy o annibyniaeth a llai o siawns y bydd angen ymyriadau costus gan y Cyngor ar unigolion yn eu bywydau. Rydym wedi ymrwymo i'n nod o newid y ffordd yr ydym yn gweithredu'n radical, gan wneud 'cymunedau' a 'llesiant ac atal' yn gonglfeini gwirioneddol yn y ffordd yr ydym yn cynllunio ein gwasanaethau fel y gallwn rymuso ein cymunedau i fod yn iachach, yn fwy cysylltiedig ac yn fwy cyfartal.

Bydd 'Bargen' Blaenau Gwent yn ceisio grymuso cymunedau ymhellach, mewn ffordd sy'n symud grym gwneud penderfyniadau ystyrlon i'n cymunedau, gan roi llais go iawn i'r trigolion ynghylch sut a ble mae adnoddau'n cael eu gwario yn eu hardal, gan annog y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd, gofawyr a gweithwyr proffesiynol i gydweithio fel partneriaid cyfartal i ddylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau.

Dim ond gydag ymreolaeth fwy dros adnoddau ein cymunedau y daw'r grymuso hwn, gan drosglwyddo rheolaeth cyllidebau ac asedau a oedd gynt gan y Cyngor i'n trigolion. Bydd y Cyngor yn mynd y tu hwnt i gymunedau sy'n penderfynu sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddyrannu, gan symud y ffocws ar gynnwys cymunedau wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Bydd ein dull yn edrych ar ddatblygu Diwylliant o Gydweithio rhwng y Cyngor a chymunedau ym Mlaenau Gwent, gan ddisodli meddylfryd traddodiadol â pherthnasoedd ystyrlon sy'n canolbwyntio ar ganiatáu i gymunedau wneud y mwyaf o'u cryfderau, gan feithrin ymddiriedaeth ac ymreolaeth ymhlith gweision cyhoeddus a dinasyddion.

Fel rhan o'r dull hwn, mae'r Cyngor yn edrych i ailfodelu ei wasanaethau i ddarparu dull gwell o ymyrraeth gynnar ac atal. Bydd y Cyngor yn edrych i symud i ddull atal yn gyntaf trwy gymryd camau rhagweithiol i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldeb. Mae hyn yn golygu cynllunio gwasanaethau sy'n ymyrryd yn gynnar, yn buddsoddi mewn cryfderau cymunedol, ac yn alinio adnoddau i leihau galw yn y dyfodol.

Bydd pob cyfarwyddiaeth a maes gwasanaeth yn nodi cyfleoedd i atal y galw rhag tyfu, hyrwyddo lles, a chau bylchau mewn canlyniadau. Byddwn yn mesur llwyddiant nid yn unig yn ôl yr hyn a drwsiwn, ond yn ôl yr hyn a ataliwn, gan sicrhau bod ein gweithredoedd heddiw yn adeiladu cymunedau mwy teg, iach a gwydn ar gyfer yfory.

'Bargen' Blaenau Gwent

Bydd 'Bargen' Blaenau Gwent yn contract rhwng y Cyngor a thrigolion Blaenau Gwent yn egluro mewn termau syml beth y gallant ei ddisgwyl gan y Cyngor ac yn gyfnewid beth y gall ein trigolion ei wneud i gefnogi cyflawniad 5 cenhadaeth a rennir:

- **Cenhadaeth Un:** Blynnyddoedd Cynnar - Adeiladu Dyfodol Disglair
- **Cenhadaeth Dau:** Ysbrydoli Dysgu Gydol Oes, Uchelgais a Gwydnwch
- **Cenhadaeth Tri:** Llesiant Trwy Arweinyddiaeth Gymunedol
- **Cenhadaeth Pedwar:** Economi Ffyniannus, Mannau Bywiog; a
- **Cenhadaeth Pump:** Cymunedau wedi'u Grymuso, Grym a Rennir a Llwyddiant



Bydd y 'Fargen' yn cefnogi ein hymrwymiad i ddod yn Gyngor Marmot a thrwy wneud hynny i leihau anghydraddoldeb ac annhegwch yn gynaliadwy ym Mlaenau Gwent. Mae ein dull yn cydnabod nad yw llesiant yn ymwneud â dewisiadau unigol neu fioleg yn unig. Mae'r amodau y mae pobl yn cael eu geni, yn tyfu, yn byw, yn gweithio ac yn heneiddio ynddynt yn cael effaith ddofn ar eu llesiant. Felly, rhaid inni fynd y tu hwnt i ofal iechyd i wella iechyd wrth ddatblygu dulliau system gyfan sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol ein problemau, gan ddatblygu atebion wedi'u teilwra, cynhwysol a hirdymor. Y 'Fargen' yw ein mecanwaith ar gyfer gwireddu'r dyhead hwn.

Ein gweledigaeth yw dyfodol heb anghydraddoldeb, lle mae pawb yn ffynnu mewn cymuned deg, gynhwysol a gwydn, a gyflawnir drwy greu newid parhaol drwy feithrin ymddiriedaeth, meithrin cyfrifoldeb a rennir, a gyrru arloesi drwy gydweithio cryf rhwng y cyngor, trigolion a phartneriaid. Mae'r cynlluniau hyn yn uchelgeisiol ac mae ein dull ni ochr yn ochr â'n partneriaid yng Nghyngor Torfaen yn parhau i'n gosod ar wahân i Gyngorau eraill yng Nghymru. Rydym wedi ymrwmo i fod yn awdurdod dysgu, gan weithredu ar yr adborth a dderbyniwn drwy gydweithio'n agos â'r cyhoedd, partneriaid a'n rheoleiddwyr yn ogystal â'n hadolygiad cyfoedion diweddar ar draws y Cyngor (Asesiad Perfformiad Panel). Felly mae'n bwysig profi'n barhaus a yw ein gweithredoedd yn cyflawni'r manteision a fwriadwyd. Ochr yn ochr â'r 'Fargen' newydd, byddwn yn gweithredu fframwaith gwerthuso newydd ar gyfer ein gwaith, gan gryfhau ymhellach ein prosesau hunanasesu ac adolygu parhaus er mwyn cael yr effaith fwyaf ar wella llesiant ein trigolion.

Ymyrraeth Gynnar ac Atal

Mae rhaglen Ymyrraeth Gynnar ac Atal (EIP) yn cael ei chynllunio ym Mlaenau Gwent i'w gweithredu yn 2025/26, gyda'r nod o alluogi trigolion i aros yn wydn ac i ymdopi ag argyfwng heb ymyrraeth statudol gynamserol neu ddifrifol lle nad oes ei hangen.

Bydd yr EIP yn cyd-fynd â 'Bargen' Blaenau Gwent, Cynllun Meistr Marmot a Chynllun Corfforaethol y Cyngor, a bydd yn cael ei hadeiladu o amgylch y 10 egwyddor graidd ganlynol:

1. Blaenoriaethu atal, annibyniaeth a llesiant
2. Manteisio i'r eithaf ar rôl y gymuned
3. Sicrhau y gall pob rôl ddarparu lefel sylfaenol o wybodaeth, cyngor a chyfeirio at ystod lawn o argyfyngau
4. Lleihau'r galw mewn pyrrh statudol
5. Deall anghenion cymorth gwahanol garfannau
6. Wedi'i weld fel un system atal – gwneud y gorau o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd i'n preswylwyr;
7. Lleihau atgyfeiriadau rhwng darparwyr, lleihau trosglwyddo
8. Wedi'i seilio ar farn unigol unigolyn
9. Mae canlyniad/effaith yn gyrru'r fframwaith perfformiad ac yn cysylltu'r stori y tu ôl i'r data; a
10. Mapio taith – Symleiddio systemau a strwythurau i gwsmeriaid a lleihau trosglwyddo / dyblygu.

Rydym am i 'llesiant ac atal' fod yn gonglfeini gwirioneddol i sut rydym yn cynllunio gwasanaethau ein Cyngor. Dylai unrhyw wasanaeth Cyngor sy'n rhyngweithio â thrigolion fod yno i gefnogi trigolion i aros yn iach heb yr angen am wasanaethau statudol. Bydd y symudiad cyfrannol hwn tuag at atal yn ein helpu i ddarparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser cywir fel y gellir canolbwyntio adnoddau ar y rhai sydd â'r angen mwyaf ar adeg pan fo ei angen fwyaf.

Dull Cymunedau

Mae cymunedau gwydn yn systemau cymhleth sy'n cynnwys sawl chwaraewr gwahanol: trigolion, arweinwyr cymunedol a chynghorwyr lleol, gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol, elusennau, clybiau a hybiau, tafarndai, mannau agored, siopau a chaffis, eglwysi, gwasanaethau'r cyngor, yr Heddlu, gwasanaethau'r GIG a mwy.



Mae'r Dull Cymunedau yn ail-greu ein model atal yn llwyr, a'r strwythurau staffio cysylltiedig. Mae angen i'r model ddarparu'r gefnogaeth gywir i'r bobl gywir ar yr amser cywir, yn hytrach na thybio 'angen' am ddarparu gwasanaeth yn gyntaf. Gall cefnogaeth ddod o sawl lle gan gynnwys (i'r rhan fwyaf o bobl y rhan fwyaf o'r amser) eu cymuned eu hunain. Nhw yw llinell gyntaf atal ac maent yn hanfodol i'n helpu i reoli ein llesiant, yn enwedig ar adegau o argyfwng personol. Gan weithio gyda'r Cyngor, bydd ein model atal yn edrych i ysgogi cymunedau i ganolbwyntio ar anghenion llesiant lleol, a darparu gallu adeiladu, ymchwil, data a chefnogaeth ariannol i wneud hynny.

Mae dull cymunedol effeithiol yn ei gwneud yn ofynnol i bob partner gytuno ar un weledigaeth, egwyddorion a fframwaith canlyniadau strategol ar gyfer y system. Mae hyn yn golygu bod angen fframwaith llywodraethu clir a chyson ar waith ar y lefel strategol (Bwrdeistref), tactegol (Cyngor Cymuned) a gweithredol (Ward).

Dyfodol Blaenau Gwent: Prif Gynllun 15 Mlynedd

Mae llesiant, gwydnwch a chydaddoldeb iechyd yn gonglfeini cymunedau llwyddiannus a bywiog. Dyma pam eu bod yn ganolog i adroddiad Gwent Teg (Marmot) ac yn ganolog i'n Hamcanion Llesiant. Fel Cyngor rydym yn falch o fod yn ymgorffori'r egwyddorion hyn yn ein Cynlluniau Gwasanaeth blynyddol.

Mae ein Cynlluniau Gwasanaeth blynyddol yn dangos yr hyn yr ydym yn ei wneud i wella llesiant, gwydnwch a chydaddoldeb iechyd ar draws y Fwrdeistref. Byddwn yn defnyddio'r cynlluniau hyn i adrodd ar gynnydd a gwneud dyfarniadau ynghylch a ydym wedi gwneud yr hyn a ddywedasom y byddem yn ei wneud ai peidio.

Ond mae angen i ni hefyd ddeall a yw'r hyn a wnaethom wedi gwneud y gwahaniaeth yr oeddem yn bwriadu iddo ei wneud mewn gwirionedd. Rydym yn cydnabod na fydd newid cynaliadwy yn y ffyrdd a nodir yn adroddiad Gwent Teg bob amser yn digwydd dros nos. Dyma pam rydym wedi cynhyrchu'r Cynllun Meistr 15 mlynedd hwn. Bydd y Cynllun Meistr yn caniatáu inni fonitro'r effaith y mae ein gweithgareddau'n ei chael dros gyfnod o genhedlaeth.

Ni allwn aros tan ddiwedd y 15 mlynedd i weld a yw ein gweithgaredd yn cael effaith. Felly, byddwn yn monitro effeithiau dros dri chfnod penodol o amser.

1. **Erbyn diwedd pob blwyddyn.** Gallwn fonitro'r dangosyddion hyn yn fisol/chwarterol, adrodd arnynt ar ddiwedd pob blwyddyn, ac addasu'r targed ar gyfer y flwyddyn i ddod.
2. **Erbyn diwedd tymor y Cyngor hwn (5 mlynedd).** Yn ogystal â'r dangosyddion misol neu chwarterol, mae hyn hefyd yn caniatáu inni gyflwyno data sydd ond yn cael ei gasglu'n flynyddol.
3. **Erbyn diwedd y Cynllun Meistr.** Yn ogystal â dangosyddion misol, chwarterol a blynyddol, mae hyn yn caniatáu inni fonitro ystadegau hirdymor gwirioneddol o amrywiaeth o ffynonellau megis astudiaethau cenedlaethol a fydd yn rhoi barn bendant ynghylch a yw'r Cyngor yn gwella llesiant ac yn lleihau anghydaddoldeb.

Bydd Cynllun Meistr Blaenau Gwent ar gyfer y Dyfodol yn mesur ein llwyddiant yn erbyn yr 8 Egwyddor Marmot sy'n sail i Amcanion Llesiant y Cyngor ei hun.

Llywodraethu corfforaethol a diwylliant

Mae gwaith helaeth wedi dechrau i weithredu trefniadau llywodraethu corfforaethol newydd sydd hefyd yn cysylltu, lle bo'n briodol, â phrosesau Torfaen. Yn ystod 2025/26 bydd hyn yn parhau fel darn allweddol o waith er mwyn gweithredu blaenoriaethau a dangosyddion y Cynllun Corfforaethol wedi'u hailffocysu a'u halinio â Chynllun Meistr Marmot a'r fargen. Bydd gwaith hefyd yn parhau i wella ein systemau data a chyflwyniad data i wella tryloywder a chywirdeb y wybodaeth a ddarparwn i uwch arweinwyr, cynghorwyr a'r gymuned.



Diogelu Corfforaethol

Fel y'i hamlygwyd yng nghorff yr adroddiad, mae Diogelu yn gyfrifoldeb i bawb ac mae'n faes hanfodol i'r Cyngor. Mae angen i'r Cyngor gyflymu ei ymateb i weithredu'r argymhellion sy'n weddill o adolygiad Archwilio Cymru o Ddiogelu Corfforaethol.

Bydd gan Grŵp Personau Diogelu Dynodedig (DSPs) y Cyngor y cyfrifoldeb gweithredol am fynd i'r afael â'r camau gweithredu yn y cynllun ond hefyd i sicrhau bod diogelu yn parhau i fod yn uchel ar yr agenda ar draws holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r grŵp hwn yn atebol i Dîm Gweithredol y Cyngor a fydd yn gweithredu fel y Bwrdd Diogelu Corfforaethol. Darperir adroddiadau ar gynnydd hefyd drwy broses y Pwyllgor Craffu.

Y camau nesaf ar gyfer y DSPs fydd:

- ymgymryd â Hyfforddiant Diogelu Grŵp C a bydd gofyn iddynt ddarparu hyfforddiant Grŵp B i staff perthnasol
- bydd codi ymwybyddiaeth o rolau a chyfrifoldebau hefyd yn cael ei ddarparu i Aelodau Etholedig
- ceisio cymeradwyaeth i'r Strategaeth Diogelu Corfforaethol
- adolygu'r rhyngwyd a'r fewnrwyd i sicrhau bod adnoddau a gwybodaeth diogelu yn hawdd eu hasesu a'u deall
- cryfhau gwybodaeth a mecanweithiau monitro rhestr y gwirfoddolwyr
- datblygu proses glir mewn perthynas â contractwyr sy'n gweithio ar y safle yn adeiladau'r Cyngor; a
- gwella'r data perfformiad corfforaethol sydd ar gael ynghylch diogelu

Trefniadau Gwrth-dwyll

Fel rhan o'u rhaglen waith 2024/25, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o Drefniadau Gwrth-dwyll Blaenau Gwent. Amlygodd yr adroddiad hwn, a ddarparwyd i'r Cyngor ym mis Medi 2025, ac a fydd yn cael ei adrodd yn ffurfiol cyn diwedd y flwyddyn, wendidau yn nhrefniadau gwrth-dwyll y Cyngor.

Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn cydnabod twyll fel un o'r troseddau mwyaf cyffredin yn y gymdeithas heddiw. Mae pob punt sy'n cael ei dwyn o'r sector cyhoeddus yn golygu llai o arian i'w wario ar wasanaethau allweddol y Cyngor.

Mae'r Adran Archwilio Mewnol wedi sefydlu nifer o drefniadau a fydd yn mynd i'r afael â chanfyddiad Archwilio Cymru. Mae'r rhain i'w cymeradwyo yn ddiweddarach yn 2025 ac maent yn cynnwys:

- Datblygu asesiad risg twyll cynhwysfawr i'w fabwysiadu ar draws y Cyngor ar ôl ei gymeradwyo
- Sefydlu swydd Swyddog Gwrth-dwyll ar y cyd rhwng Cyngor Torfaen a Blaenau Gwent
- Datblygu Strategaeth Gwrth-dwyll gyffredinol
- Hyfforddiant i bob Aelod Etholedig mewn Ymwybyddiaeth o Dwyll i'w gynnal ym mis Hydref 2025
- Bydd trefniadau ar gyfer hyfforddi staff yn cael eu datblygu dros 2025/26

Ymateb i Storm Bert a Rheoli Llifogydd

Fel y nodwyd yn yr hunanasesiad, cafodd rhai trigolion Blaenau Gwent eu heffeithio'n ddifrifol gan Storm Bert. Mewn ymateb, mae gan y Cyngor Grŵp Rheoli Risg Llifogydd a chynllun gweithredu gweithredol ar waith sy'n cael ei weithredu ochr yn ochr â'r gymuned.

Mae gwaith cydnerthedd cymunedol ar y gweill gyda dwy gymuned yr effeithiwyd arnynt gan lifogydd yn ystod Storm Bert. Mae Hybiau Argyfwng Cymunedol yn cael eu sefydlu, gyda hyfforddiant perthnasol yn cael ei ddarparu ym mis Medi i'r grwpiau cymunedol sy'n ymwneud â'r hybiau. Yna bydd yr hybiau hyn yn 'fan ddiogel' dynodedig, ac yn lle i gymunedau gyfarfod yn ystod argyfwng lleol i gydlynu ymateb cymunedol lleol. Mae'r dull cefnogol a rhagweithiol hwn gan y gymuned i gynorthwyo gyda threfniadau rheoli llifogydd wrth symud ymlaen yn ymateb gwirioneddol gadarnhaol ac yn ein cefnogi ymhellach yn ein cenhadaeth Dull Cymunedol.



Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

Mae'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol yng Nghymru, a gyflwynwyd o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, yn gosod rhwymedigaeth statudol ar rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, i ymgysylltu'n ystyrlon ag undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr staff eraill wrth osod Amcanion Llesiant a gwneud penderfyniadau strategol. Daeth y ddyletswydd hon i rym ar 1 Ebrill 2024 ac mae'n ategu rhwymedigaethau presennol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ei phrif nod yw ymgorffori arferion gweithio cydweithredol mewn penderfyniadau'r sector cyhoeddus, gan sicrhau bod gan y rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus lais wrth lunio'r polisiau a'r camau gweithredu sy'n effeithio arnynt.

Rhaid i awdurdodau lleol nawr, 'i'r graddau y bo'n rhesymol', geisio consensws neu gyfaddawd gyda chynrychiolwyr staff yng nghyfnodau ffurfiannol datblygu polisi. Mae hyn yn cynnwys darparu digon o wybodaeth ac amser ar gyfer ystyriaeth ac ymateb priodol. Mae'r ddyletswydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i adrodd yn flynyddol: rhaid i bob awdurdod gyhoeddi adroddiad yn manylu ar sut y mae wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd, wedi cytuno ag undebau llafur lle bo modd, neu'n egluro pam na chafwyd cytundeb. Mae'r Cyngor yn bwriadu adrodd yn flynyddol ynghylch sut y mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol drwy'r adroddiad Hunanasesiad a Llesiant blynyddol hwn.

Mae gan y Cyngor berthynas sefydledig ac mae'n gweithio mewn partneriaethau cymdeithasol gyda'r undebau llafur cydnabyddedig, gyda chefnogaeth Cytundeb Cyfleusterau ffurfiol a Chyd-bwyllgorau Ymgynghorol sy'n cyfarfod yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r dull yn rhoi cyfle i Aelodau, Swyddogion a chynrychiolwyr Undebau Llafur ymgysylltu ar faterion strategol a pholisi pwysig - cydbwysu dyletswyddau statudol, newid sefydliadol, pwysau ariannol a llesiant y gweithlu. Mae gweithio mewn partneriaeth ag undebau llafur ym Mlaenau Gwent wedi hyrwyddo diwylliant o barch ac ymddiriedaeth gydfuddiannol, gan gydnabod bod cyflogwyr ac undebau llafur yn rhannu diddordeb yn nyfodol y Cyngor, darparu gwasanaethau a chyflogaeth deg. Mae ymgynghori ac ymgysylltu wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r model ffederal rhwng Cynghorau Blaenau Gwent a Thorfaen, gan ymrwmo i drawsnewid, datblygu rolau ar y cyd ar draws y ddau gyngor a dull cydweithredol o gynnal a gwella cyflenwi gwasanaethau. Mae hefyd wedi rhoi'r cyfle i ymgysylltu'n gynnar mewn gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor o ran trawsnewid gwasanaethau trwy reoli'r galw a chanolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal a grymuso cymunedau. Hefyd, trwy'r fforwm, ymgynghorwyd â Chynrychiolwyr Undebau Llafur ac ymgysylltwyd â'r blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol a ddaeth yn sgil newidiadau i ddiffiniadau nodau llesiant sy'n gysylltiedig â gwaith o fewn Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn ogystal â'r pwyllgorau ymgynghorol ffurfiol sy'n digwydd, mae'r Prif Weithredwr yn cyfarfod â Chynrychiolwyr Undebau Llafur bob deufis i drafod datblygiadau strategol a pholisi sy'n effeithio ar y cyngor a'i weithwyr yn ogystal ag unrhyw faterion gweithredol a allai fod yn berthnasol ar y pryd. Mae Pennaeth AD hefyd yn cyfarfod â Chynrychiolwyr Undebau Llafur bob mis i drafod unrhyw faterion gweithredol sy'n effeithio ar weithwyr a'r gweithle.

